RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
77/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
13/12/2017

# Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion

## Adroddiad terfynol - 2017

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-78903-088-4

Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion - Adroddiad terfynol

Rhagfyr 2017

Julia Pye, Lucy Lindley (Ipsos MORI)

Chris Taylor, Daniel Evans (WISERD)

Katy Huxley (Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol - Cymru)

Mae'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

David Roberts

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

0300 062 5485

david.roberts@gov.wales

## Tabl cynnwys


1. Crynodeb gweithredol ....................................................................................4
2. Cyflwyniad.................................................................................................14
3. Mewnbynnau..............................................................................................19
4. Rheolaeth o'r Grant Amddifadedd Disgyblion..........................................27
5. Gweithgareddau.........................................................................................42
6. Allbynnau ..................................................................................................59
7. Dadansoddiad effaith ................................................................................70
8. Casgliadau ...............................................................................................100

**Rhestr o dablau**

Tabl 1.1. Casgliadau allweddol o ddadansoddiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ....... 13
Tabl 3.1 Newidiadau polisi allweddol ers cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion ....... 19
Tabl 5.1 Hyfforddiant a datblygiad staff sydd ynghlwm wrth gyflenwi prif ymyriadau GAD (gan ddangos y chwech ateb pwysicaf) ....... 47
Tabl 7.1 Mesurau o ddeilliannau addysgol ....... 71
Tabl 7.2 Nifer y disgyblion sydd ar gael ar gyfer dadansoddiadau o gyrhaeddiad addysgol fesul blwyddyn ....... 73
Tabl 7.3. Nifer o ddisgyblion a ddefnyddir i ddadansoddi presenoldeb fesul Grŵp Blwyddyn ....... 74
Tabl 7.4. Absenoldeb fesul blwyddyn (pob oed) ....... 75
Tabl 7.5. Newid mewn cyfran o sesiynau gydag absenoldeb (pob oed) ....... 76
Tabl 7.6 Absenoldeb heb awdurdod fesul blwyddyn (pob oed) ....... 76
Tabl 7.7 Newid mewn cyfran o sesiynau gydag absenoldeb heb awdurdod (pob oed) ....... 77
Tabl 7.8 Absenoldeb cyson fesul blwyddyn (pob oed) ....... 77
Tabl 7.9 Newid yn y gyfran o ddisgyblion gydag absenoldeb cyson ....... 78
Tabl 7.10 Cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 Mathemateg ....... 79
Tabl 7.11 Cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 Saesneg neu Gymraeg ....... 79
Tabl 7.12 Cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 Gwyddoniaeth ....... 80
Tabl 7.13 Cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 Mathemateg, Saesneg/Cymraeg a Gwyddoniaeth ....... 80
Tabl 7.14 Cyflawni TGAU Mathemateg Gradd C neu uwch ....... 83
Tabl 7.15 Cyflawni TGAU Saesneg neu Gymraeg Gradd C neu uwch ....... 83
Tabl 7.16 Cyflawni TGAU Gwyddoniaeth Gradd C neu uwch ....... 84
Tabl 7.17 Cyflawni Gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg, Saesneg/Cymraeg a Gwyddoniaeth ....... 84
Tabl 7.18 Newid cymharol yn y gyfran o ddisgyblion yn cyflawni Graddau C neu uwch mewn pynciau TGAU ‘craidd’ ....... 85
Tabl 7.19 Cyflawni Lefel 2 (cynhwysol) ....... 86
Tabl 7.20 Cyflawniad cymharol holl ddisgyblion CA4 Blwyddyn 11 (oni bai y nodwyd fel arall) mewn Gwyddoniaeth TGAU a BTEC, 2015 ....... 91
Tabl 7.21 Cynnydd cymharol mewn Mathemateg rhwng Cyfnod Allweddol 2 a TGAU ....... 93
Tabl 7.22 Cynnydd cymharol mewn Saesneg/Cymraeg rhwng Cyfnod Allweddol 2 a TGAU ....... 93
Tabl 7.23 Cynnydd cymharol mewn Gwyddoniaeth rhwng Cyfnod Allweddol 2 a TGAU ....... 94

**Rhestr o ffigurau**

Ffigwr 4.2 Grwpiau a dargedwyd gan fentrau a ariannwyd gan GAD ..................................34
Ffigwr 4.3 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd gan ysgolion wrth gynllunio sut i wario’r Grant Amddifadedd Disgyblion (atebion digymell) ............................................................36
Ffigwr 6.1 Sut mae ysgolion yn mesur effaith GAD.............................................................60
Ffigwr 6.2 Cynaliadwyedd ymyriadau a ariennir gan y GAD ................................................67
Ffigwr 7.1 Cyflawniad cymharol disgyblion eFSM o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM fesul pwnc CA2 ..................................................................................................81
Ffigwr 7.2 Cyflawniad cymharol disgyblion eFSM o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM yn cyflawni gradd C neu uwch fesul pwnc TGAU .....................................................85
Ffigwr 7.3 Cyflawniad cymharol disgyblion eFSM o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM yn cyflawni gradd A/A* fesul pwnc TGAU..................................................................88
Ffigwr 7.4 Cyflawniad gwahaniaethol mewn TGAU gradd C neu uwch mewn Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, 2011 i 2015 .............................89
Ffigwr 7.5 Cyfartaledd sgôr pwyntiau wedi'i chapio TGAU...................................................92

# 1. Crynodeb gweithredol

1.1 Comisiynwyd Ipsos MORI a WISERD gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2013 i gyflawni gwerthusiad proses ac effaith ar y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD). Lansiwyd y GAD yn 2012 ac mae'n darparu cyllid atodol i ysgolion yn seiliedig ar y nifer o ddisgyblion ar eu cofrestr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM) neu sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC). Mae ysgolion yn derbyn cyllid fesul disgybl eFSM, ac maent yn cael eu cyfeirio i wario'r cyllid atodol ar ymyraethau seiliedig ar dystiolaeth i helpu cau'r bwlch cyrhaeddiad. Nod y gwerthusiad yw deall sut mae ysgolion yn defnyddio'r grant, a'i effaith ar ddisgyblion eFSM.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y drydedd flwyddyn o weithgaredd gwerthuso, a'r flwyddyn olaf, ac yn canolbwyntio ar adrodd ar astudiaethau achos manwl gyda 22 o ysgolion a gyflawnwyd yn 2013/14 a 2014/15, ac ymweliadau dilynol i 14 o'r ysgolion hyn yn 2015/16 i alluogi ystyried cynnydd a wnaed neu newid mewn ymagwedd a allai fod wedi digwydd yn y cyfamser. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys casgliadau o ddadansoddiad o ddata o'r Gronfa Ddata Disgyblion Cenedlaethol a gyflawnwyd yn 2015. Pan yn berthnasol, rydym yn cyfeirio at gasgliadau o arolwg o 201 o ysgolion a gyflawnwyd yn 2014 yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad. Ym Mawrth 2017 fe ailenwyd y GAD yn Grant Datblygu Disgyblion[1].

### Canfyddiadau allweddol

1.3 Wrth ystyried y dadansoddiad hwn, mae'n bwysig ystyried bod y GAD yn grant cymharol ddiweddar (o ran ysgolion yn gallu cynllunio ar gyfer gwariant tymor byr yn y dyfodol) sy'n ceisio cyflwyno gwelliannau ar fwlch cyrhaeddiad hir sefydlog a sylweddol. Amlyga tystiolaeth o ysgolion astudiaethau achos fod ystyriaeth mwy tymor hir o gynnydd disgyblion yn allweddol wrth werthuso effeithlonrwydd y grant; ac y bydd systemau i daclo anfantais yn parhau i esblygu gydag amser. Ym Mawrth 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r grant wedi ei warantu tan ddiwedd tymor cyfredol y Cynulliad.[2]

[1] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/pupil/?lang=cy
[2] http://gov.wales/docs/dcells/publications/170324-pdg-letter-to-schools-en1.pdf

*Mewnbynnau*

1.4 Mae'r GAD yn cynrychioli ffynhonnell arwyddocaol o gyllid ar gyfer ysgolion i fuddsoddi mewn dulliau i daclo anfantais ac fe'i hystyrir i fod yn ffynhonnell 'amhrisiadwy' o gyllid ar gyfer mathau penodol o weithgaredd i leihau'r bwlch cyrhaeddiad. Yn aml bydd ysgolion yn cronni cyllid GAD a chyllidebau cyffredinol yr ysgolion; o ganlyniad, fel rhan o'r gyfres lawn o gyllid a ddarperir i ysgolion, mae effaith y GAD yn ddibynnol ar fodolaeth ffrydiau cyllid eraill gyda nodau tebyg neu gyflenwol. Mae'r GAD yn cynnwys mewnbynnau ariannol arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru; mewnbynnau staff ac adnoddau gan awdurdodau lleol (ALlau) a chonsortia addysg rhanbarth (CARh) sy'n cefnogi ac yn herio ysgolion ar eu gwariant o'r grant; a chan yr ysgolion eu hunain. Dengys tystiolaeth o'r arolwg fod ysgolion yn ychwanegu at y cyllid a ddefnyddir i gynnal gweithgareddau GAD o'u cyllidebau eu hunain ac/neu ffrydiau cyllid eraill gyda symiau sylweddol[3]. Roedd cyfraniadau ysgolion yn arwyddocaol, gan gynrychioli 50-100% o ddyrniad GAD y Llywodraeth; awgryma gwaith ansoddol mwy diweddar ymysg sampl llai fod ysgolion yn parhau i ychwanegu at y GAD fel hyn, gan gronni cyllid o grantiau gyda nodau cyflenwol.

1.5 Mae cefnogaeth leol wedi helpu wrth ffurfio partneriaethau rhanbarthol effeithiol; mae Cynghorwyr Herio yn helpu hysbysu arweinwyr ysgolion, ond ychydig o dystiolaeth a welodd y gwerthusiad o'r rôl 'herio' ar waith. Roedd ysgolion yn teimlo fod cyngor a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, eu Hawdurdod Lleol a chonsortia rhanbarth yn ddefnyddiol wrth arwain eu gwario. Ceir tystiolaeth o astudiaethau achos mwy diweddar o dipyn mwy o weithgaredd partneriaethau rhanbarthol a ysgogwyd gan gonsortia, ALlau ac ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys cronni cyllid GAD ar draws rhwydweithiau ysgolion lleol, sesiynau rhannu gwybodaeth a thystiolaeth i rannu gwybodaeth am arferion a ddefnyddir mewn ysgolion effeithiol, ac mewn un achos, strategaeth llythrennedd a rhifedd clwstwr cyfan. Croesawodd ysgolion astudiaeth achos y cyfle i drafod cynlluniau gyda Chynghorwyr Her Rhanbarthol; tra bod rhai ysgolion wedi crybwyll y Cynghorwyr yn eu cyflwyno i ffynonellau tystiolaeth newydd i hysbysu eu cynllunio GAD (yn cynnwys y Pecyn

[3] Canfu'r arolwg o ysgolion a gyflawnwyd yn 2014 fod oddeutu nawr o bob deg ysgol (86% cynradd, 91% uwchradd) yn ychwanegu at gyllid gweithgareddau a ariennir gan y PDG, fel arfer o gyllideb gyffredinol yr ysgol ac/neu'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Ar gyfartaledd, ychwanegodd ysgolion cynradd £10,240 o gronfeydd eraill, ac fe ychwanegodd ysgolion uwchradd gyfartaledd o £44,356. Wrth ystyried hyn yng nghyd-destun gwerth y cyllid PDG i ysgolion: derbyniodd ysgolion cynradd gyfartaledd o £12,676, a derbyniodd ysgolion uwchradd gyfartaledd o £61,311 mewn cyllid PDG yn 2012-13.

Offer y Sutton Trust), ni adroddodd yr un o'r ysgolion astudiaeth achos fod y mewnbwn gan Gynghorwyr wedi newid eu penderfyniadau ar wario'r GAD. Yn nodedig, mae'r gefnogaeth mae Cynghorwyr yn ei ddarparu i ysgolion i gau'r bwlch yn amrywio yn ôl rhanbarth, ac yn ôl categori o ysgol[4]. O ystyried nad yw rhai ysgolion yn gwneud defnydd llawn o'r mentrau mwyaf cost effeithiol i gau'r bwlch, efallai y bydd cwmpas i gynghorwyr ddatblygu eu mecanweithiau ar gyfer herio strategaethau a gwariant yr ysgol ymhellach.

***Rheoli'r GAD***

1.6 Mae rhai ysgolion yn parhau i ddefnyddio eu doethineb eu hunain wrth weithredu diffiniadau ehangach o anfantais neu amddifadedd i dargedu gweithgareddau na statws eFSM yn unig. O ganlyniad, gall effaith gyffredinol y GAD yn benodol ar ddeilliannau eFSM disgyblion gael ei wanhau wrth i ysgolion dargedu ymyraethau i daclo 'anfantais' yn fwy cyffredinol. Mae ysgolion yn deall y nod a ddatganwyd gan LIC mai bwriad y GAD yw sicrhau budd i ddisgyblion dan anfantais, fodd bynnag, roedd ysgolion astudiaeth achos yn ystyried statws eFSM i fod yn ddull i lywodraeth ddosbarthu cyllid. Wrth benderfynu ar sut i wario'r cyllid, maent yn defnyddio diffiniad llawer ehangach o anfantais sy'n cwmpasu ffactorau eraill megis amgylchiadau'r cartref a mesurau eraill o anfantais economaidd-gymdeithasol. Roedd ysgolion astudiaethau achos yn defnyddio systemau olrhain soffistigedig ar y cyd â'u dealltwriaeth eu hunain o amgylchiadau disgyblion i nodi disgyblion yr oeddynt yn ystyried i fod yn ddifreintiedig ac/neu angen cefnogaeth dargedig atodol. Yn aml, gwnaethpwyd penderfyniadau ynghylch darparu cefnogaeth atodol ar sail fesul disgybl, gyda'r pwysoli cymharol a roddwyd i statws eFSM yn amrywio'n eang rhwng ysgolion. Esboniodd ysgolion oedd â'r hanes gorau o gau'r bwlch fod eFSM wedi bod yn flaenoriaeth iddynt cyn y GAD. Esboniodd rhai o'r ysgolion eraill fod y GAD wedi eu helpu i flaenoriaethu rôl ysgolion o ran taclo anfantais disgyblion, a bod eFSM wedi dod yn fwy arwyddocaol yn eu penderfyniadau ynghylch targedu cefnogaeth atodol. Mewn cyferbyniad, roedd ysgolion astudiaeth achos gyda lefelau cyrhaeddiad is yn parhau i dargedu gwariant GAD ar ddisgyblion gyda chyrhaeddiad is yn gyffredinol – heb dalu sylw i anfantais neu statws eFSM – ar y sail bod yna orgyffwrdd yn aml rhwng anfantais a lefelau cyrhaeddiad is. Fodd bynnag, mae'n werth ail ategu fod ysgolion yn ychwanegu at gyllid GAD o swm

[4]Mae ysgolion sydd angen y gefnogaeth fwyaf arwyddocaol wedi eu categoreiddio fel coch, ysgolion sy'n cael eu herio i wella yn cael eu categoreiddio fel melyn, ac ysgolion sy'n cael eu herio i gynnal eu statws cyfredol yn cael eu categoreiddio fel gwyrdd.

sylweddol. Felly mae'n anodd asesu i ba raddau mae cyllid atodol yn gweithio gyda GAD i gefnogi carfan ehangach o ddysgwyr sydd, ym marn ysgolion, yn profi mwy o anfantais na dim ond bod yn statws eFSM.

1.7 Mae rhywfaint o amwysedd o hyd mewn ysgolion ynghylch a ddylid defnyddio GAD i helpu disgyblion eFSM *gyda chyrhaeddiad is* neu i helpu'r *holl* ddisgyblion FSM i gyflawni eu potensial[5]. Ble mae ysgolion wedi ystyried y GAD i fod yn grant i gau'r bwlch cyrhaeddiad, maent wedi canolbwyntio ar ddisgyblion cyrhaeddiad isel (eFSM); ble mae ysgolion wedi ei ddehongli fel grant i helpu plant eFSM i gyflawni eu potensial, defnyddiwyd y cyllid ar gyfer yr holl ddisgyblion eFSM. Mewn astudiaethau achos mwy diweddar, roedd rhai ysgolion gyda gwell cofnodion cyrhaeddiad wedi dilyn yr ail farn a hefyd wedi darparu cefnogaeth i ddisgyblion eFSM Mwy Galluog a Thalentog (MAT), er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i ffocysu ar ddisgyblion difreintiedig gyd chyrhaeddiad is. Yn unol â hyn, mae'r dadansoddiad effaith NPD yn dangos fod y bwlch rhwng disgyblion eFSM a rhai nad ydynt yn FSM yn ennill y graddau uchaf (A* neu A) yn dal yn sylweddol a heb newid yn ystod y pum mlynedd diwethaf, er bod y blwch cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cau.

1.8 Teimlai penaethiaid a staff addysgu, waeth beth oedd eu lefelau cyrhaeddiad, y gellir dosbarthu disgyblion fel 'difreintiedig' am sawl rheswm, yn cynnwys disgyblion nad oeddynt yn gallu cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion, disgyblion oedd yn cael anhawster gyda rhyw agwedd o ddysgu, disgyblion oedd ychydig uwchlaw'r llinell dlodi, a disgyblion oedd wedi eu heffeithio gan amgylchiadau tymor byr, fel chwalu teulu. Roedd astudiaethau achos yn dibynnu'n helaeth ar ddealltwriaeth eu staff o ddisgyblion unigol a'u teuluoedd i dargedu'r GAD, gan deimlo nad yw'r dangosydd eFSM yn cipio'r holl blant difreintiedig sydd angen cefnogaeth atodol.

1.9 Mae'r GAD wedi annog ysgolion i ddatblygu systemau olrhain data mwy soffistigedig ac wedi hybu sgiliau athrawon i ddadansoddi data a gesglir ganddynt. Ceir tystiolaeth o fonitro a gwerthuso da o weithgareddau ar lefel ysgol. Esboniodd ysgolion astudiaeth achos eu bod wedi buddsoddi GAD mewn adnoddau a sefydlu systemau monitro data yn gyntaf i olrhain cynnydd disgyblion yn defnyddio'r cyllid, ond fod cyllid bellach wedi ei ganoli ar gyflawni ymyraethau. Roedd gan ysgolion yr astudiaeth achos systemau olrhain cryf i fonitro cyrhaeddiad a phresenoldeb.

[5] Mae'r diwethaf yn agosach at nod LIC ar gyfer y PDG i helpu disgyblion tlotach i drechu'r rhwystrau atodol sy'n eu hatal rhag cyflawni eu llawn botensial.

Roedd yr holl ysgolion astudiaeth achos yn monitro data ar lefel disgyblion yn erbyn targedau unigol. Esboniodd rhai o'r ysgolion nad oeddynt wedi monitro disgyblion eFSM ar wahân yn flaenorol, neu nad oeddynt wedi monitro effaith ymyraethau penodol yn flaenorol. Mae yna enghreifftiau o ysgolion yn gwneud penderfyniadau gwario, ac yn newid y modd mae ymyraethau yn gweithredu, ar sail data a gasglwyd i wella effeithlonrwydd.

1.10 Mae partneriaethau lleol yn helpu dosbarthu tystiolaeth o beth sy'n gweithio. Fodd bynnag, mae yna gwmpas o hyd i wella defnydd ysgolion o ddata a thystiolaeth allanol cadarn ffurfiol i sicrhau eu bod yn defnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol i daclo'r bwlch cyrhaeddiad. Yn unol â lefelau uwch o weithgaredd partneriaeth lleol yn ystod blynyddoedd mwy diweddar y gwerthusiad, mae astudiaethau achos diweddar wedi arddangos tystiolaeth o ysgolion yn cymryd tystiolaeth o'u rhwydweithiau lleol am beth sy'n gweithio'n dda wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad. Mewn rhai achosion, roedd yn ymddangos fod staff wedi canfod y math yma o dystiolaeth i fod yn fwy credadwy na ffynonellau tystiolaeth allanol ffurfiol – fel Pecyn Offer y Sutton Trust – oherwydd ei fod wedi gweithio mewn lleoliadau tebyg i'w un nhw.

1.11 Roedd rhai ysgolion yr astudiaeth achos yn defnyddio Pecyn Offer y Sutton Trust yn effeithiol i nodi dulliau cost-effeithiol, ac i ystyried sut y gellid addasu'r dulliau hynny yn eu lleoliadau eu hunain. Yn aml, roedd y rhain yn ysgolion gyda diwylliant o ddefnyddio tystiolaeth, herio ymarfer presennol a gwneud cynnydd da ar gau'r bwlch. Fodd bynnag, roedd rhai ysgolion eraill yn yr astudiaeth achos yn amheus ynghylch y Pecyn; mewn sawl achos roedd hyn am eu bod yn anghytuno gyda'i argymhellion ynghylch gwerth ac yn benodol y defnydd mwyaf effeithiol o Gynorthwywyr Addysgu yn y dosbarth. Teimlai eraill fod y Pecyn yn cefnogi'r hyn roeddynt eisoes yn ei wneud, nad oedd yn berthnasol i'w lleoliad, neu ei fod yn llai defnyddiol na'u profiad eu hunain. O ganlyniad, ychydig o ysgolion yr astudiaeth achos oedd yn ymgorffori'r strategaethau cost isel, effaith uchel a awgrymir yn y Pecyn – megis gwella adborth – yn eu dulliau, a allai yn ei dro gyfyngu ar effaith y GAD.

***Gweithgareddau***

1.12 Mae astudiaethau achos diweddar yn amlygu nifer o enghreifftiau o ymarfer effeithiol iawn o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad. Roedd y strategaethau mwyaf effeithiol wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd, ac weithiau'n rhagflaenu'r GAD. Roeddynt yn cynnwys enghraifft o strategaethau llythrennedd a rhifedd clwstwr

cyfan sydd wedi eu datblygu gan ysgol uwchradd. Mae'r strategaethau yn gwneud defnydd o ddulliau meta wybyddol i helpu dadelfennu sgiliau llythrennedd a rhifedd i blant. Datblygwyd y strategaethau a'u profi o fewn adrannau Saesneg a Mathemateg yr ysgol, cyn cael eu cyflwyno mewn adrannau eraill yn yr ysgol, ac yna i staff ysgolion cynradd bwydo lleol. Mae'r holl staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion ar draws y rhanbarth yn derbyn hyfforddiant ar y strategaeth. Mae'r strategaethau wedi helpu sicrhau ymagwedd gyson i lythrennedd a rhifedd ar draws y clwstwr, wedi hwyluso trosiant o gynradd i uwchradd, ac wedi helpu hybu cyrhaeddiad yn arwyddocaol, ar y pwynt pan fydd disgyblion cynradd yn cyrraedd uwchradd, ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

1.13 Ar draws yr astudiaethau achos, roedd sawl enghraifft o ysgolion yn datblygu dulliau arloesol i ymgysylltu gyda disgyblion a rhieni mewn ffyrdd a argymhellir yn yr arweiniad GAD, gan gynnwys:

- strategaethau ysgol gyfan i wella dysgu ac addysgu;
- dulliau i gynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol ac yn addysg eu plant;
- defnydd arloesol o dechnoleg i ymgysylltu gydag ac ysgogi plant a rhieni;
- ffocysu ar bresenoldeb ac ymddygiad, ac yn benodol ar ddulliau i ymgysylltu disgyblion gyda'r ysgol ac addysgu yn fwy effeithiol ac i ddarparu cymhelliant ar gyfer presenoldeb ac ymddygiad da; a,
- cefnogi sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr.

1.14 Roedd ysgolion yr astudiaeth achos yn gwerthfawrogi manteision defnyddio GAD i fuddsoddi mewn ymgysylltu gyda theulu a disgyblion a chefnogaeth fugeiliol ar gyfer disgyblion a'u rhieni. Yn aml byddai ysgolion astudiaeth achos yn defnyddio cyllid GAD i gyflogi Cynorthwywyr Addysgu mewn amrywiaeth o rolau yn cynnwys rolau cyswllt teulu ac/neu rolau cefnogaeth fugeiliol ar gyfer disgyblion difreintiedig: roedd hyn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth i'r cynorthwywyr a staff addysgu ehangach i fywydau cartref a rhwystrau penodol yr oedd disgyblion unigol yn eu wynebu.

***Allbynnau***

1.15 Cafwyd amrywiaeth o wahanol allbynnau ar ddiwylliant yr ysgol ac agweddau i anfantais o ganlyniad i'r GAD. Roedd rhai ysgolion yn ystyried bod ganddynt eisoes ffocws cryf ar anfantais a bod y grant yn darparu cyllid ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, teimlai ysgolion eraill fod y GAD wedi codi proffil anfantais yn sylweddol a sut y dylai ysgolion ddarparu ar gyfer dysgwyr difreintiedig. Yn yr achosion hyn, roedd yn ymddangos fod ffocws cynyddol ar fonitro data'r un mor gyfrifol am y

newidiadau mewn agweddau a'r gweithgareddau GAD. Gwnaeth ambell ysgol gydnabod bod ganddynt bellach lawer mwy o ffocws ar eFSM nag oedd yn gynharach ym mywyd y grant, gan ddweud bod hyn oherwydd derbyn arweiniad mwy cadarn gan Lywodraeth Cymru a'u consortia rhanbarth. Yn ogystal ag ymroddiad blaenorol yr ysgolion eu hunain i daclo anfantais, mae ffactorau cyd-destunol – megis diogelwch ariannol ysgolion a lefelau cyrhaeddiad cyffredinol – yn arwyddocaol wrth bennu faint o ffocws a roddir ar anfantais a'r GAD. Ble roedd blaenoriaethau arwyddocaol yn cystadlu, nid oedd taclo anfantais yn flaenoriaeth i bawb.

1.16 Mae'r astudiaethau achos yn awgrymu mai effaith fwyaf y GAD ar staffio fu i gynyddu'r nifer o Cynorthwywyr Addysgu a gyflogir gan ysgolion ac i hybu a datblygu eu sgiliau. Mae astudiaethau achos diweddar hefyd wedi amlygu strategaethau ar gyfer taclo anfantais trwy hyfforddi a datblygu staff addysgu yn ogystal â'r cynorthwywyr. Yn aml, bydd cynorthwywyr yn cael eu hyfforddi ar weithredu a gwerthuso effaith yr ymyraethau a gyflawnir ac o ganlyniad maent yn dod yn aelodau galluog iawn o staff yr ysgol. Mae'r GAD wedi arwain at gynnydd ym maint staff yr ysgol yn bron bob un o ysgolion yr astudiaeth achos. Roedd ysgolion yn aml yn pwysleisio fod gan gynorthwywyr sgiliau delfrydol ar gyfer amrywiaeth o rolau a gyflawnwyd ganddynt, ac yn arbennig y rolau bugeiliol a chyswllt teulu, gan eu bod yn byw yn yr un cymunedau a'r rhieni, gyda pherthynas gref gyda theuluoedd yn barod ac yn cael eu gweld fel llai o fygythiad nag athrawon.

1.17 Ar y cyfan, fe ymddengys fod effaith y GAD ar athrawon wedi bod yn llai arwyddocaol na'r hyn a welwyd gyda'r Cynorthwywyr Addysgu. Fodd bynnag, roedd ambell achos diweddar yn amlygu' newid mewn ymarfer, gan symud i ffwrdd o ddefnyddio'r Cynorthwywyr i ddarparu ymyraethau llythrennedd a rhifedd o blaid defnyddio athrawon medrus iawn (megis Pennaeth Saesneg neu Fathemateg). Roedd ymweliadau astudiaeth achos diweddar hefyd yn amlygu ysgolion yn buddsoddi mewn hyfforddiant staff ar asesiad ar gyfer dysgu a dulliau meta wybyddol a argymhellir yn yr arweiniad ac ym Mhecyn Offer y Sutton Trust fel rhywbeth sy'n anghymesur o fuddiol ar gyfer dysgwyr difreintiedig.

1.18 Nododd ysgolion yr astudiaeth achos er bod tystiolaeth fesuradwy o effaith yn nod dymor hir fydd angen amser i ddod i'r amlwg, yn y tymor byr maent wedi nodi gwelliannau arwyddocaol mewn 'deilliannau meddal' fel llesiant, hyder a hunan-barch disgyblion. Mae staff yn ysgolion yr astudiaeth achos yn adrodd yn rheolaidd

fod disgyblion yn tyfu'n fwy hyderus a'u hunan-barch yn cynyddu o ganlyniad i ymyraethau a gyflwynwyd; mewn rhai achosion, mae disgyblion yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gwersi wedyn. Yn ogystal, mae ysgolion yn nodi fod yna effeithiau dilynol ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dal yn y dosbarth (gan nad ydynt yn gymwys ar gyfer GAD) pan fydd disgyblion eraill yn cael eu tynnu allan i gymryd rhan mewn ymyraethau GAD, gan fod llai o ymyriadau neu aflonyddwch ar gyfer y disgyblion ac athrawon sy'n weddill.

*Cryfderau allweddol y GAD*

1.19 Mae'r GAD yn gysylltiedig i ffocws cynyddol ar daclo anfantais yng nghyllidebau a chynlluniau datblygu ysgolion, yn ogystal ag o fewn rôl y consortia rhanbarth a Chynghorwyr Her. Mae hyn wedi arwain at nifer o effeithiau positif, gan gynnwys:

- Cynnig cefnogaeth gynyddol a mwy teilwredig i ysgolion i gau eu bwlch cyrhaeddiad;
- Herio ysgolion i fod yn fwy atebol am wariant ac effaith mentrau i daclo anfantais. Mae hyn wedi arwain at ymyraethau sy'n gynyddol seiliedig ar dystiolaeth, wedi eu targedu'n dda a'u monitro'n effeithiol gyda systemau olrhain data;
- Tystiolaeth o ysgolion yn datblygu perthnasau gweithredol agos gydag awdurdodau lleol, consortia a chymunedau sydd wedi cefnogi'r GAD a gweithrediad mentrau a ariennir gan y GAD. Yn unol â hyn, cafwyd cynnydd mewn rhannu arfer gorau;
- Tu hwnt i ddefnydd uniongyrchol o'r GAD i ariannu ystod eang o ymyraethau, mae'r grant wedi bod yn arwyddocaol o ran newid diwylliant ysgolion mewn rhai achosion. Roedd ysgolion yr astudiaeth achos mwyaf llwyddiannus yn rhoi pwyslais mawr ar y GAD gyda gweledigaeth arweinwyr yr ysgol yn cael ei fynegi, rhannu a gweithredu arno'n glir gan bob aelod o staff yn yr ysgol a phartneriaethau ehangach.
- Ffocws cynyddol ar strategaethau ysgol gyfan i wella meysydd fel ymddygiad, presenoldeb, ymgysylltu gyda'r teulu cyfan a dulliau adferol. Ymysg ysgolion yr astudiaeth achos ble roedd systemau ymddygiad/ymgysylltu sefydledig eisoes ar waith, roedd mwy o dystiolaeth o ysgolion yn defnyddio GAD i fuddsoddi mewn gwella dulliau dysgu ac addysgu.

1.20 Ar y cyfan, fe ystyrir fod y GAD yn werthfawr iawn i ysgolion, ac yn 'amhrisiadwy' i nifer o ysgolion yr astudiaeth achos. Mae ei arwyddocâd yn bennaf fel ffynhonnell cyllid a ddefnyddir i gynyddu staffio sy'n galluogi disgyblion i ddarparu cefnogaeth

wedi ei deilwra ar gyfer disgyblion difreintiedig i ddarparu ar gyfer ystod eang o anghenion academaidd, emosiynol a chymdeithasol. Mae rhai ysgolion wedi cofleidio cyfarwyddyd LIC yn weithredol i ffocysu ar anghenion ehangach disgyblion, ac nid dim ond cyrhaeddiad academaidd: mae ymyraethau yn cwmpasu gweithgaredd bugeiliol, cefnogaeth deuluol, yn ogystal â sgiliau llythrennedd a rhifedd, er enghraifft. Gydag amser, mae ysgolion yr astudiaeth achos wedi cymryd rhan mewn ymdrechion llawer mwy i gynnwys rhieni: er bod hyn wedi golygu elfen o brofi a methu, roedd yr ysgolion hyn wedi datblygu ystod o ddulliau effeithiol i gynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol ac addysg eu plant.

***Dadansoddiad effaith***

1.21 Ceir crynodeb o gasgliadau o ddadansoddiad o ddeilliannau disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion isod. Nod y dadansoddiad hwn yw monitro maint y bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM ar lefel genedlaethol cyn, ac yn ystod cyfnod y GAD er mwyn gwerthuso a yw'r GAD yn ymddangos i fod yn cyfrannu i gulhau'r bwlch. Dim ond dros gyfnod o amser all y dadansoddiad arddangos tueddiadau, yn hytrach na phriodoli newidiadau i gyflwyno'r GAD: nid oes grŵp cymhariaeth na disgyblion nad ydynt yn derbyn y GAD ar gael, a gallai nifer o fentrau eraill cydamserol mewn addysg yng Nghymru hefyd gyfrannu i unrhyw welliannau a arsylwir.

1.22 Yn gyffredinol, mae'r dadansoddiad yn cael bod y bwlch rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM wedi culhau yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, dengys y dadansoddiad fod y tuedd yma o welliant yn rhagflaenu cyflwyno'r GAD yn y rhan fwyaf o achosion, ac felly ar hyn o bryd ni allwn ei briodoli'n hyderus i effeithiau'r Grant yn unig. Fod bynnag, dylid nodi:

- Er gwaethaf y canlyniadau cymysg ar draws gwahanol fesurau, mae yna bellach batrwm yn dod i'r amlwg o lwyddiant yn lleihau 'effaith' bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim ar fesurau cynnydd addysgol rhwng CA2 a CA4 mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Nid yw'r un o'r canlyniadau yn cael dylanwad ymddangosiad o'r ffaith bod cymhwystra am eFSM wedi gwaethygu'n gyson ers cyflwyno'r GAD.

**Tabl 1.1. Casgliadau allweddol o ddadansoddiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion**

| Maes | Effaith |
|---|---|
| Absenoldeb | Mae presenoldeb wedi gwella pob blwyddyn (cyn ac wedi cyflwyno'r GAD) ac wedi gwella ar gyfer disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM ar yr un gyfradd. Er ei bod yn bosibl fod y GAD yn cael rhywfaint o effaith ar bresenoldeb cyffredinol (e.e. o ran atal y bwlch rhag ehangu ymhellach), yn anffodus nid yw'n bosibl ynysu effaith y GAD o bolisïau eraill i wella presenoldeb.<br>Fe ymddengys y gallai'r GAD fod yn cael effaith bwysig ar absenoldeb heb awdurdod. Mae hyn wedi gwella'n arwyddocaol ar gyfer disgyblion eFSM rhwng 2011 a 2015[6]. Mae hyn yn cyferbynnu â'r gyfradd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM ble mae'r gyfradd wedi parhau i fod yn gyson.<br>Er y bu gwelliannau sylweddol yn y lefelau o absenoldeb cyson yng Nghymru ar gyfer pob disgybl, yn cynnwys disgyblion eFSM, awgryma'r canlyniadau y gall polisïau eraill i wella presenoldeb fod yn cael mwy o effaith na'r GAD yn unig. |
| Cyflawniad Cyfnod Allweddol 2 | Mewn Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, mae'r 'bwlch' cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf gyda'r gyfradd welliant yn fwy ar gyfer disgyblion eFSM na rhai nad ydynt yn FSM.<br>Er bod y bwlch yn cau cyn cyflwyno'r GAD, fe gynyddodd y gyfradd gwelliant ar gyfer pob disgybl eFSM yn cyflawni Lefel 4 yn y tri phwnc craidd yn nodedig yn ystod blwyddyn ddiwethaf y dadansoddiad a allai awgrymu fod gwelliannau yng nghyrhaeddiad CA2 disgyblion eFSM yn dechrau cyflymu. |
| Cyflawniad Cyfnod Allweddol 4 | Mae'r 'bwlch' cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn y tri phwnc TGAU 'craidd' wedi culhau gydag amser ac mae ffigurau ar gyfer 2015 yn dangos fod y tuedd yma yn parhau.<br>Er bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn parhau i fod yn fawr, mae yna dystiolaeth ei fod yn dechrau gwella a bod llawer o'r gwelliant hwn wedi digwydd ers cyflwyno'r GAD.<br>Mae'r 'blwch' cyrhaeddiad ar lefel TGAU yn arbennig o fawr wrth ystyried disgyblion yn ennill y graddau uchaf (A* neu A) yn hytrach na graddau 'pasio' (C neu uwch), gyda disgyblion nad ydynt yn FSM yn fwy tebygol o gyflawni'r graddau uchaf. Ychydig o newid sydd yma ers cyn cyflwyno'r GAD. |
| Gwerth ychwanegol | Mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg, mae cynnydd cymharol disgyblion eFSM o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM di gwella yn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r tueddiadau ar gyfer cynnydd cymharol disgyblion eFSM wedi bod yn ansefydlog dros amser: pe byddai'r tuedd yma'n parhau flwyddyn nesaf, yna gallem fod yn fwy hyderus ynghylch y cysylltiad gyda'r GAD. |

[6] Yn 2011 cafwyd nifer o newidiadau i bolisi presenoldeb a fyddai'n effeithio ar hyn yn cynnwys adolygu codau presenoldeb, cyflwynwyd y Fframwaith Dadansoddi Presenoldeb; cyhoeddwyd y Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan; a rhoddwyd y grant presenoldeb i gonsortia rhwng 2013-2015.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Comisiynwyd Ipsos MORI a WISERD gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2013 i gyflawni gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn elfen ganolog o ymdrechion polisi Llywodraeth Cymru i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant o deuluoedd mwy a llai cefnog. Lansiwyd y GAD yn 2012 ac mae'n darparu cyllid atodol i ysgolion yn seiliedig ar y nifer o ddisgyblion ar eu cofrestr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM) neu sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC). Ers Ebrill 2015, mae cyllid GAD ar gyfer disgyblion eFSM a LAC wedi ei ddarparu trwy ddwy ffrwd wahanol: Darperir cyllid GAD ar gyfer disgyblion eFSM yn uniongyrchol i'r ysgol, tra bod cyllid GAD ar gyfer LAC wedi ei ddarparu i'r consortia. Yn Ebrill 2016, roedd GAD ac EYGAD ar gael i ddysgwyr cymwys mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion; mae rhai o ddysgwyr mwyaf difreintiedig Cymru yn cael eu haddysgu mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac yn flaenorol nid oeddynt wedi eu cefnogi gan y cyllid ychwanegol sydd ar gael trwy GAD. Mae'r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllid GAD ar gyfer disgyblion eFSM.

2.2 Awgryma canllaw Llywodraeth Cymru i ysgolion y dylent wario'r cyllid atodol ar ymyraethau seiliedig ar dystiolaeth i helpu cau'r bwlch cyrhaeddiad.

2.3 Dyma'r adroddiad terfynol o raglen tair blynedd i werthuso'r GAD, mae dau adroddiad blaenorol yn cwmpasu Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[7].

2.4 Mae gweddill y bennod hon yn amlinellu nodau a methodoleg y gwerthusiad, ac yn darparu trosolwg o gynnwys a chwmpas yr adroddiad hwn.

### Y Grant Amddifadedd Disgyblion

2.5 Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn adlewyrchu blaenoriaethau addysgol yn y Cynllun Datblygu ar gyfer Trechu Tlodi i ddelio ag achosion ac effeithiau tlodi ar fywyd. Mae hefyd yn delio ag un o'r tair blaenoriaeth allweddol ar gyfer addysg yng Nghymru: cau'r bwlch cyflawniad rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol.[8] Fel y

---

[7] http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-pupil-deprivation-grant/?lang=cy

[8] Y blaenoriaethau eraill yw gwella safonau llythrennedd a rhifedd. Fel y mynegwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd yn ei areithiau Mae Addysgu'n Gwneud Gwahaniaeth (Chwefror 2011) a Codi Safonau Ysgolion (Mehefin 2011), ac yn y Rhaglen Lywodraethu.

[8] Cyhoeddwyd fersiwn mwy diweddar o'r cynllun, Cymwys am Oes, yn 2014: http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf

cyfryw, bu'n rhan allweddol o Gynllun Gwella Ysgolion 2012,[9] a amlinellodd ystod o fentrau i wella safonau mewn ymateb i bryderon am berfformiad addysgol cyffredinol Cymru, 10,[9] a'r bwlch cynyddol/cyson yng nghyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (eFSM) a disgyblion eraill (ddim yn eFSM). Mae gwella llythrennedd a rhifedd a chau'r blwch cyrhaeddiad yn ddwy flaenoriaeth sy'n ategu'r cynllun. Mae cynllun 2014 *Ailysgrifennu'r dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* yn cydnabod cau'r bwlch cyrhaeddiad fel blaenoriaeth barhaus, gan ddatgan: "mae cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yng Nghymru yn rhy isel o lawer a chynnydd tuag at wella canlyniadau yn rhy araf o lawer".[10]

2.6 Mae *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* yn amlygu arwyddocâd rôl ysgolion o ran lleihau effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol plant: mae'r bwlch cyrhaeddiad yn ehangu wrth i blant symud ymlaen trwy'r system addysg, ond mae ymarfer effeithiol gan ysgolion wedi ei weld i gulhau'r bwlch rhwng dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion mwy cefnog. Mae *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* yn sefydlu nifer o strategaethau i helpu gwella cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig, gan gynnwys: ymgysylltu gyda theuluoedd a'r gymuned; ffocws ar y blynyddoedd cynnar; dysgu ac addysgu o safon uchel; a sefydlu disgwyliadau a dyheadau uchel i blant. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a'r canllaw cysylltiedig ar gyfer gwario'r grant, yn ceisio helpu sicrhau fod gwella deilliannau dysgwyr difreintiedig yn dod yn fwy o flaenoriaeth ar gyfer ALlau ac ysgolion, a bod ysgolion yn cael eu hannog i weithio'n fwy effeithiol trwy arallgyfeirio cronfeydd i weithgareddau sydd wedi profi i fod yn llwyddiannus.

2.7 Ynghyd â'r *Grant Gwella Addysg* (EIG)[11], mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cynrychioli prif fodd Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol i wella deilliannau addysgol mewn ysgolion. Mae'r EIG wedi ei anelu at gefnogi mesurau i wella ansawdd dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion, tra bod blaenoriaeth

[9] Er enghraifft, perfformiad Cymru o gymharu â gwledydd eraill yn asesiadau PISA 2009 a 2012: Perfformiodd Cymru yn gymharol wael o gymharu â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, ac – yn arbennig o ran safle penodol ar gyfer sgorau mathemateg – fe ostyngodd ei safle cyffredinol https://www.oecd.org/unitedkingdom/PISA-2012-results-UK.pdf

[10] http://gov.wales/docs/dcells/publications/140616-rewriting-the-future-raising-ambition-and-attainment-in-welsh-schools-cy.pdf

[11] Roedd yr EIG yn cwmpasu 11 o grantiau unigol, ac un o'r rhain oedd y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Roedd gan y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn benodol nodau sy'n cydweddu i ffocws y PDG, gyda ffocws ar wella safonau dysgu, a dysgu llythrennedd a rhifedd yn benodol.

allweddol y Grant Amddifadedd Disgyblion i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol.

2.8 Ceir mentrau tebyg sy'n gysylltiedig â llwyddiant: er enghraifft, dangosodd adroddiad Ofsted ar y Premiwm Disgybl yn Lloegr fod cyflwyno'r Premiwm Disgybl wedi cyd-fynd â gwelliannau arwyddocaol yng nghyrhaeddiad disgyblion a dargedwyd: cododd y gyfran o ddisgyblion e-FSM yn sicrhau pum gradd A*-C mewn TGAU o 57% yn 2011 i 80% yn 2012, gan leihau'r bwlch rhwng e-FSM a disgyblion eraill o 27 i 8 pwynt canrannol.[12]

2.9 Cyn y GAD yng Nghymru roedd Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion (RAISE), oedd yn ariannu ysgolion yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru i ariannu mentrau i gefnogi disgyblion economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig.[13] Fodd bynnag, canfu gwerthusiad o RAISE nad oedd yr arian yn cael ei wario'n effeithiol ar bob achlysur, nac ar y grŵp targed o ddisgyblion, ac mae gwersi o RAISE wedi cyfrannu'n uniongyrchol i'r trefniadau arweiniad a llywodraethu ar gyfer y GAD.[14]

**Nodau ac amcanion y gwerthusiad**

2.10 Mae'r gwerthusiad o'r GAD yn ymchwilio i faterion yn ymwneud â gweithredu'r GAD, yn ogystal ag effaith y grant. Edrychodd y gwerthusiad ar sut mae'r GAD yn cael ei ddehongli, a pa effaith mae wedi ei gael ar berfformiad disgyblion ac ymarfer yr ysgol. Y nodau penodol oedd i:

- Asesu i ba raddau y cyflawnwyd nodau ac amcanion cyffredinol y GAD;
- Pennu effaith y GAD ar wella deilliannau addysgol disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth trwy ddarpariaeth a ariennir trwy'r GAD;
- Pennu effaith y GAD trwy asesu ei gyfraniad i welliannau mewn safonau addysg ac unrhyw feithrin gallu tymor hir i wella cyrhaeddiad addysgol disgyblion economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig.

[12] Y Premiwm Disgybl: Sut mae ysgolion yn gwario'r cyllid yn llwyddiannus i uchafu cyflawniad. Sylwer bod nifer o nodweddion yn y Premiwm Disgybl sy'n wahanol i'r PDG: roedd y cyllid yn uwch fesul disgybl (£900) cyn cynyddu'r PDG), ac mae cymhwystra wedi ei ddiffinio ychydig yn wahanol (mae'r Premiwm Disgybl yn defnyddio'r rheol 'Ever6' ble mae unrhyw ddisgybl sy'n gymwys ar gyfer eFSM yn y 6 mlynedd diwethaf yn derbyn y cyllid, tra bod y PDG yn gweithredu ar sail cymhwystra eFSM y flwyddyn flaenorol yn unig).

[13] http://www.raise-wales.org.uk/raise/raise-about.htm.

[14] Route Map for Breaking the Link between Poverty and Educational Attainment (Mewnol LlC)

- Nodi pa mor effeithiol fu ALlau, consortia rhanbarth a chlystyrau o ran sicrhau y defnyddir y grant yn effeithiol;
- Nodi cryfderau allweddol y GAD ac unrhyw gyfyngiadau/materion a allai fod wedi rhwystro ei effeithlonrwydd; a
- Darparu argymhellion ynghylch y ffordd orau i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol ac ysgolion adeiladu ar y GAD i fodloni'r flaenoriaeth i leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad academaidd.

**Methodoleg**

2.11 Roedd y gwerthusiad yn cynnwys tair prif elfen:

- Arolwg ysgol: darparodd arolwg o 201 o ysgolion yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad (2014) dystiolaeth fanwl ynghylch mentrau a ariannwyd trwy'r GAD.
- Dadansoddiad effaith: chwiliodd dadansoddiad o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion am dystiolaeth o effaith y GAD o ran culhau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae'r dadansoddiad hwn wedi ei gyflawni ar gyfer pob blwyddyn o'r gwerthusiad, gan ddefnyddio'r data presenoldeb a chyrhaeddiad diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pob carfan.
- Astudiaethau achos mewn 22 o ysgolion rhwng Mai 2013 a Mehefin 2015, yn cynnwys ail-ymweld arhydol ag 14 o ysgolion yn 2016[15]. Roedd y rhain yn ymchwilio i sut mae'r GAD yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol, dehongliadau athrawon o effaith mentrau a ariennir gan y GAD, a mesuriadau effaith yr ysgolion eu hunain. Galluogodd yr ymweliadau dilynol yn 2016 i ni gael dealltwriaeth o unrhyw newidiadau dros amser. I gael rhagor o fanylion, gweler Atodiad A.
- Cyfweliadau canolog gyda chynrychiolwyr consortia rhanbarth

**Cwmpas a chyfyngiadau'r adroddiad hwn**

2.12 Mae'r data arolwg mesurol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar arolwg o 201 o ysgolion a gyflawnwyd o Chwefror i Ebrill 2014. Mae'r sylwebaeth ar y data yn adroddiad hwn yn seiliedig yn bennaf ar gasgliadau ar lefel gyfanredol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Er y cyfeirir at gasgliadau'r arolwg trwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yma yn seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn fwy diweddar o'r ymweliadau astudiaeth achos dilynol ag 14 o ysgolion, a gyflawnwyd yn ystod tymor gwanwyn/haf 2016.

[15] Oherwydd cyfyngiadau ar y gyllideb, nid oedd yn bosibl ail-ymweld â phob un o'r 22.

Adroddwyd mewn manylder ar gasgliadau'r arolwg yn Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 1[16].

2.13 Nid yw'r astudiaethau achos yn ceisio darparu tystiolaeth ynghylch sampl cynrychiadol o ysgolion. Mae ymchwil ansoddol wedi ei gynllunio i fod yn archwiliol ac yn darparu mewnwelediad i ddehongliadau, teimladau ac ymddygiadau pobl. Nid yw'r ymchwil wedi ei gynllunio i ddarparu data ystadegol dibynadwy, ond yn hytrach i ddarparu dealltwriaeth drylwyr o bwnc penodol. Mae'n bosibl y bydd gan ysgolion sy'n cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaethau achos ddiddordeb penodol yn y GAD neu ei nodau, neu'n teimlo eu bod yn defnyddio'r GAD mewn ffyrdd arbennig o arloesol. Ble mae ysgolion sy'n cymryd rhan wedi dynodi fod eu harferion wedi newid gydag amser, rydym wedi tynnu sylw at unrhyw batrymau i hyn. Fodd bynnag, gan fod tystiolaeth ynghylch newid yn gyfyngedig i nifer fechan o ysgolion dethol, ni allwn bennu fod newidiadau tebyg yn digwydd mewn ysgolion ar draws Cymru.

[16] http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-pupil-deprivation-grant/?lang=cy

## 3. Mewnbynnau

3.1 Mae'r GAD wedi newid yn ystod cyfnod y gwerthusiad. Mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn cynnwys cynnydd yn y cyllid fesul disgybl sydd ar gael (o £450 yn 2012 i £1,050 yn 2015); a newidiadau yn y modd mae ysgolion yn cael eu cefnogi trwy arweiniad ysgrifenedig, a chraffu a chymorth gan ALlau ac yn rhanbarthol.

**Tabl 3.1 Newidiadau polisi allweddol ers cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion**

| Blwyddyn | Newidiadau polisi allweddol |
|---|---|
| 2012-13 | Cyflwyno GAD. Cyhoeddi canllawiau yn rhan o ddogfen ganllaw gyfunol gyda'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. |
| 2013-14 | Ymestyn GAD i Blant sy'n Derbyn Gofal (LAC)[17].<br>Canllawiau newydd a gyhoeddwyd i ysgolion yn Rhagfyr 2013: Mae'r canllaw yn argymell y dylai cronfeydd Grant atodol sydd ar gael yn 2014-15 gael eu gwario ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus staff i'w galluogi i gefnogi'r grŵp yma o ddysgwyr yn well, ac i greu effaith cynaliadwy o'r cynnydd. |
| 2014-15 | Dyblodd cronfeydd GAD i £918 fesul disgybl cymwys ar gyfer blwyddyn academaidd 2014-15.<br>Atgyfnerthwyd cefnogaeth a her Llywodraeth Cymru a ALl i ysgolion: disgwyliwyd i gonsortia gymryd rhan fwy rhagweithiol mewn taclo effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad, ac adroddiadau Estyn i roi sylw ar ba mor dda mae ysgolion yn defnyddio adnoddau (yn cynnwys GAD) i gefnogi dysgwyr eFSM. |
| 2015-16 | Cynyddodd cyllid GAD i £1,050 fesul disgybl cymwys ar gyfer blwyddyn academaidd 2015-16.<br>Cyflwyno GAD Blynyddoedd Cynnar, gan ymestyn cyllid o £300 fesul disgybl cymwys i blant 3 a 4 oed[18]. |
| 2016 -17. | Cynyddodd cyllid GAD i £1,150 fesul disgybl cymwys ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016-17.<br>Yn Ebrill 2016, roedd GAD ar gael i ddysgwyr cymwys mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion; mae rhai o ddysgwyr mwyaf difreintiedig Cymru yn cael eu haddysgu mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac yn flaenorol nid oeddynt wedi eu cefnogi gan y cyllid ychwanegol sydd ar gael trwy GAD |

[17] Nid yw'r elfen hon o fewn y cwmpas ar gyfer y gwerthusiad hwn

[18] Nid yw'r elfen hon o fewn y cwmpas ar gyfer y gwerthusiad hwn.

3.2 Mae cynnydd yn y gyfradd cyllid fesul disgybl yn golygu fod y cyfraniadau ariannol gan Lywodraeth Cymru i'r GAD wedi cynyddu'n sylweddol dros gyfnod oes y grant (gweler y tabl isod). Yn 2015-16 dosbarthwyd dros £78m i ysgolion yng Nghymru, gyda 58% yn mynd i ysgolion cynradd (£44,994,900), 40% i ysgolion canol (£31,495,050) a 2% i ysgolion arbennig (£1,697,400).

3.3 Yn ogystal, gallai ysgolion mewn clystyrau Cymunedau'n gyntaf ymgeisio am grantiau cyllid cyfatebol o hyd at £75,000 i bob clwstwr. Dosbarthwyd cyfanswm o £4,547,671 trwy gyllid cyfatebol Cymunedau'n Gyntaf.

**Tabl 3.2 Cyfanswm cyllid gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod oes y grant**

| Blwyddyn | Cyfanswm cyllid gan Lywodraeth Cymru i ysgolion[19] | Cyllid fesul disgybl cymwys |
|---|---|---|
| 2012-13 | £32,432,850 | £450 |
| 2013-14 | £33,289,200 | £450 |
| 2014-15 | £68,519,520 | £918 |
| 2015-16 | £78,187,350 | £1,050 |

3.4 Mae hyn yn golygu i ysgolion cynradd dderbyn cyfartaledd o £38,755 mewn cyllid GAD, derbyniodd ysgolion uwchradd a chanol £147,864, a derbyniodd ysgolion arbennig £43,523 yn 2014-15. Canfu'r arolwg a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad fod 9 o bob 10 o ysgolion wedi 'ychwanegu at' y GAD gyda chyllid o'u cyllideb ysgol gyffredinol, ac/neu'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion/EIG. Roedd cyfraniadau ysgolion yn arwyddocaol, gan gynrychioli 50-100% o ddyrniad GAD y Llywodraeth; awgryma gwaith ansoddol mwy diweddar ymysg sampl llai bod ysgolion yn parhau i ychwanegu at y GAD fel hyn. Amlygodd yr arolwg a gwaith ansoddol er mai cyfran gymharol fechan o gyllideb gyffredinol yr ysgol oedd y GAD yn ei gynrychioli (cyfartaledd o 4% ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad), roedd arweinwyr ysgol yn ei ystyried yn ffynhonnell amhrisiadwy o gyllid ar gyfer mathau

[19] Nid yw cronfeydd LAC, PDG ac EYPDG wedi eu cynnwys yn y ffigyrau hyn gan nad ydynt yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol i ysgolion.

penodol o weithgaredd i leihau'r bwlch cyrhaeddiad ac fe'i blaenoriaethwyd yn y Rhaglen Lywodraethu.[20]

3.5 Mae'r arolwg a gwaith ansoddol yn amlygu fod effeithlonrwydd ac effaith y GAD yn dibynnu ar fodolaeth ffrydiau cyllid cydweddol eraill, sy'n aml yn cael eu cronni i ariannu ymyraethau sy'n cyflawni gofynion grantiau lluosog. Dangosodd yr astudiaethau achos fod GAD yn aml yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â grantiau ysgol eraill, fel y Grant Gwella Addysg (EIG)[21]: “mae'r GAD yn nodi disgyblion eFSM o ran ymyraethau llythrennedd a rhifedd, ond os gallwn yna ariannu'r ymyraethau hynny trwy EIG, yna gallwn ddefnyddio'r ymyraethau llythrennedd a rhifedd hynny ar gyfer yr ysgol gyfan, yn hytrach na dim ond y disgybl yna... [ac felly'n cael] gwell gwerth am arian.” Nododd ysgol arall o'r astudiaeth achos y byddai'n defnyddio cyfran o'i GAD a'r EIG i lunio cyflog athro newydd. Mae defnyddio cyfuniad o ffrydiau cyllid fel hyn yn ei gwneud yn anodd ynysu effaith rhaglenni unigol, fel y GAD.

3.6 **Mae rôl consortia rhanbarthol** wrth gefnogi rhwydweithiau ysgolion lleol wedi dod yn fwy arwyddocaol yn ystod cyfnod oes y grant. Er enghraifft, gweithiodd un consortiwm yn agos gyda deg ysgol 'Ffocws' i hyrwyddo sylw ar draws y rhanbarth ar gau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol. Elwodd yr Ysgolion Ffocws penodedig o amrediad o weithgareddau, yn cynnwys rhaglen ymchwil gweithredu ar gyfer uwch arweinyddion ysgol, gweithdai ar gyfer staff o bob lefel, rhaglen hyfforddi ar gyfer plant eFSM sy'n helpu datblygu sgiliau meta wybyddol, a mwy o gefnogaeth i ysgolion trwy Gynghorwyr Her Ysgolion. Gofynnwyd i'r Ysgolion Ffocws ddarparu cefnogaeth ysgol i ysgol i rannu arfer gyda, a chefnogi, ysgolion eraill yn y rhanbarth. Cafodd dros 20 o ysgolion eraill yn y rhanbarth athrawon cyflenwi er mwyn i athrawon allu derbyn hyfforddiant ar ddulliau seiliedig ar dystiolaeth i gau'r bwlch, ac yn arbennig y rhai ym Mhecyn Offer y Sutton Trust darparodd y consortiwm gyllid ar gyfer athrawon cyflenwi, oedd yn galluogi'r athrawon hyn i gyflawni ymchwil gweithredu i nodi pa rai o argymhellion y Pecyn y gellid eu gweithredu i sicrhau'r effaith mwyaf yn eu hysgolion eu hunain.

3.7 **Mae Cynghorwyr Her** hefyd wedi ymgymryd â mwy o rôl i herio a chefnogi ysgolion yn eu hymdrechion i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Eu rôl yw craffu ar ddadansoddiad a defnydd ysgolion o ddata perfformiad; monitro strategaethau arweinwyr ysgolion i

[20] http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy

[21] Nod yr EIG yw gwella deilliannau addysgol ar gyfer yr holl ddysgwyr ac i leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr trwy wella ansawdd dysgu ac addysgu; delio â rhwystrau dysgwyr i ddysgu a gwella cynhwysiant; gwella arweinyddiaeth lleoliadau addysgol; a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ac ymgysylltiad dysgwyr.

wella deilliannau ar gyfer disgyblion eFSM; helpu nodi a rhannu arfer da ar draws ysgolion. Nododd un aelod o'r consortiwm, sy'n edrych yn benodol ar GAD yn ei ranbarth, bod yna nifer o fodelau a mentrau ar gael ar gyfer cau'r bwlch, “yr her yw canfod beth sy'n gweithio mewn torf o wybodaeth” ac “i greu systemau sy'n hwyluso rhannu arfer gorau a gwybodaeth ar draws y rhanbarth.” Mae'r Cynghorwyr Her yn ffocysu'n benodol ar gefnogaeth ac ymyrraeth mewn ysgolion ble mae cau'r bwlch wedi cael blaenoriaeth uchel.

3.8 Mae'r gefnogaeth mae consortia rhanbarthol a Chynghorwyr Her yn ei darparu i ysgolion i gau'r bwlch yn amrywio yn ôl rhanbarth; mae'r strategaethau sydd ar waith yn cael eu llunio yn seiliedig ar ddata ac arfer gorau. Mae'r astudiaeth achos isod yn arddangos sut mae ERW yn gweithredu'r strategaethau hyn; gyda strategaethau tebyg ar waith ar draws yr holl gonsortia.

***Thema Astudiaeth Achos: Mewnbwn o gonsortia rhanbarthol a Chynghorwyr Her***

Mae ERW yn gynghrair o chwe awdurdod lleol a lywodraethir gan gydbwyllgor gyda chyfansoddiad cyfreithiol: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe. Mae'r chwe awdurdod lleol yn cydweithio i gytuno ar strategaeth ranbarthol a chynllun busnes i gyflawni gwasanaethau gwella ysgolion.

Mae'r Cynghorwyr Her yn ERW yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, ond mae eu gwaith wedi ei gyfarwyddo'n ganolog gan ERW fel rhanbarth. Mae ERW yn gyfrifol am yr holl hyfforddiant, systemau ac atebolrwydd y Cynghorwyr Her. Mae yna oddeutu 60 o Gynghorwyr Her yn gweithio ar draws y rhanbarth: mae rhai yn gweithio gydag ysgolion cynradd, rhai gydag uwchradd a rhai ar draws y ddau. Cynghorwyr Her yw'r cyswllt uniongyrchol rhwng ERW ac ysgolion. Efallai y byddant yn cefnogi hyd at 15 o ysgolion mewn rhai awdurdodau lleol, a byddant yn gyfrifol am yr ymweliadau craidd.

**Ymweliadau craidd**

Mae'r prif ffocws ar gyfer herio a chefnogaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn digwydd ar ffurf dau ymweliad craidd bob blwyddyn. Mae'r cyntaf yn yr hydref (CV1), ac yn canolbwyntio ar gategoreiddio'r ysgol; eu perfformiad parthed disgyblion FSM; ac yna ‘herio’ neu ‘gefnogi’ trwy nodi a hwyluso pa gefnogaeth fydd yr ysgol ei hangen yn seiliedig ar y categoreiddio. Yn ystod ymweliad craidd yr hydref, disgwylir i bob Cynghorydd Her ysgrifennu adroddiad byr ar gydymffurfiad gyda GAD a'i effaith ar ddisgyblion. Yna mae'r ysgol yn ardystio hyn. Mae CV1 yn seiliedig ar wybodaeth/data (a gesglir ac a gedwir gan yr ysgol, yn ogystal â chan Lywodraeth Cymru), gan

gynnwys perfformiad disgyblion FSM. Mae'r cynghorydd Her wedi ei hyfforddi i edrych ar ddysgwyr difreintiedig a'u perfformiad. Os, er enghraifft, mae perfformiad disgyblion FSM yn ystod CA3 yn wael, neu mewn pwnc penodol, bydd hynny'n cael ei nodi mewn adroddiad ac fe ddarperir cyngor ac adnoddau i'r ysgol (megis hyfforddiant a llyfrau) sy'n angenrheidiol i daclo hyn. Mae gwerthusiad y Cynghorydd Her yn cynnwys faint o arian sy'n cael ei wario, ar beth mae'n cael ei wario a'r effaith uniongyrchol. Er gwelodd ein gwaith yn y maes fod angen i 'effaith' gael ei ddeall fel y Cynghorydd Her yn edrych ar ddata'r ysgol – yn aml yn canolbwyntio ar ddisgyblion unigol – i bennu'r effeithlonrwydd. (Not particularly clear in English – Editor)

Mae'r ail ymweliad craidd (CV2), sy'n digwydd yn y gwanwyn neu'r haf, yn delio mwy â'r ddarpariaeth ei hun (megis llyfrau, arsylwi gwersi, a siarad am arweinyddiaeth yn yr ysgol), ac yn cael ei gyflawni gan y Cynghorydd Her bob tro.

Pwysleisiwyd nad yw'r ymweliadau craidd yn ffocysu ar blant sydd islaw trothwy penodol yn unig ond hefyd y rhai sydd uwchben, gan nad yw'r holl blant FSM islaw'r trothwy hwn.

**Herio a chefnogi**

Mae rôl y Cynghorydd Her yn ffocysu ar herio a chefnogi. Yn ddibynnol ar yr ysgol, bydd 'herio' neu 'gefnogi' yn amcan allweddol. Amlygodd un o'r staff consortiwm yn ERW ei bod yn debygol y bydd ysgolion coch neu oren yn derbyn cyngor a chefnogaeth benodol iawn, tra bydd ysgolion melyn yn cael eu herio i wella ac ysgolion gwyrdd yn cael eu herio i gynnal eu statws gwyrdd. Mae'r Cynghorydd Her yn cyfeirio ysgolion at arfer gorau, neu'n cyfeirio un ysgol at un arall gan fod gan y rhan fwyaf o ysgolion bocedi o arfer da i ddysgu ohonynt, p'un a ydynt ar statws coch neu wyrdd.

**Rhannu arfer gorau**

Mae mecanweithiau ar gyfer rhannu arfer gorau yn cynnwys 'grid dewislen cefnogaeth', sy'n cael ei gwblhau gan y Cynghorydd Her yn ystod pob ymweliad a'i ardystio gan yr ysgol. Felly, bydd yr ysgol yn gwybod ble gallant fynd i gael mynediad at eitemau a fydd yn eu helpu i gyflawni argymhellion y Cynghorydd Her. Gall y rhain fod yn adnoddau (er enghraifft, prynu pecynnau ymyrraeth fel 'Jollyphonics'); gall fod yn mynd i arsylwi ysgolion eraill neu athrawon eraill o fewn yr un ysgol; neu gall ymwneud ag arweinyddiaeth a chau'r bwlch yn fwy cyffredinol.

**Hyfforddiant ac adnoddau**

Darperir hyfforddiant yn ganolog yn ERW.

"Beth am ddweud fod gwahaniaethiad yn fater. Mae'r Cynghorydd Her yn gyfrifol am nodi'r angen, ond yna bydd yr achos yn mynd i'n tîm neu arweinwyr dysgu neu addysgu, a fydd yn sicrhau fod yr ysgol yn naill ai'n derbyn hyfforddiant uniongyrchol ar wahaniaethiad, neu efallai'n dod â rhywun i mewn o'r tîm

cynhwysiant yn awdurdod lleol yr ysgol honno a allai edrych ar y gwahaniaethiad rhwng disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Felly yn ERW gallwn ddod â'r tîm holistaidd sy'n bodoli ym mhob awdurdod lleol i mewn fel nad oes unrhyw hyfforddiant gorgyffyrddol ar gyfer disgyblion GAD.”

Mae gwefan ERW yn rhestru ei adnoddau a chyrsiau lleol. Daw swyddogion cefnogaeth addysg o'r chwe awdurdod ynghyd i greu dewislen, sydd ar gael i ysgolion. Gall ysgolion archebu pecyn cefnogaeth ‘arbennig’ penodol, gan na fydd rhai ysgolion o reidrwydd yn gweddu i fwlch penodol ar y ddewislen. Nododd un aelod o staff y consortiwm ei bod yn “ceisio darparu cyrsiau priodol” sydd am ddim, er nad yw'n talu am athrawon llanw ac fe anogir ysgolion i beidio defnyddio cyllid GAD i dalu am gefnogaeth athrawon llanw.

**Effaith ac effeithiolrwydd**

Mae gan ERW system fonitro electronig sy'n darparu trosolwg o sut mae ysgolion ar draws y chwe awdurdod lleol yn gwario eu harian, ac effaith hyn ar safonau.

Yn gyffredinol fel rhanbarth, credir fod disgyblion FSM yn gwneud yn dda yn eu dangosyddion ar L2 yn gynhwysol, o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM. Fodd bynnag, roedd y ddau grŵp yn perfformio'n gryf. O ganlyniad, nid ydynt yn ‘cau'r bwlch’ fel rhanbarth gan fod y disgyblion nad ydynt yn FSM hefyd yn codi. Nodwyd nad yw'n bosibl priodoli perfformiad uchel disgyblion FSM i un peth penodol, ond teimlwyd fel consortiwm eu bod wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o FSM a grwpiau mwy bregus o ddysgwyr, a bod GAD yn gweithio i hybu cyrhaeddiad disgyblion FSM.

Credir fod olrhain yn ganolog i'w llwyddiant, yn ogystal â chyfrifo'r ‘gwerth a ychwanegwyd.’ Er enghraifft, “os oes dysgu a gwahaniaethiad gwych, wedi ei alinio gydag olrhain ac ymyraethau agos iawn... dyna ble byddwn ni wir yn gwthio ymlaen.”

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydweithio hefyd - gall hyn fod mewn clystyrau o ysgolion, neu trwy feithrin perthnasau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Nodwyd ei bod yn allweddol i baru ysgolion yn ystod camau cydweddol datblygiad:

“Ysgolion sydd ar daith… mae wedi cymryd cryn dipyn o amser i gyrraedd y pwynt hwnnw… felly allwch chi ddim dewis mentrau oddi ar y silff a disgwyl canlyniadau dros nos.”

“Pan fyddwch chi'n cysylltu ysgol goch gydag ysgol werdd, fydd hynny ddim yn gweithio oherwydd maen nhw'n rhy wahanol… oren i goch, melyn i oren, gwyrdd i felyn, mae hynny'n drosglwyddiad llawer gwell.”

Amlygir effaith y GAD a meysydd i'w gwella yng nghynlluniau datblygu'r ysgolion, a gyflwynir pob mis Medi.

Mae ERW hefyd yn cyflawni dadansoddiad data arwyddocaol, yn cynnwys elfen

ansoddol ble byddant yn cofnodi sylwebaeth ysgrifenedig ynghylch effaith y GAD ym mhob un o'r 560 o ysgolion a llwyfan ar-lein o'r enw 'Rhwyd' sy'n cynnwys y data o'r ymweliadau craidd. Nodwyd eu bod wedi ffocysu'n flaenorol ar ffigurau cyrhaeddiad pennawd ar gyfer disgyblion FSM, ond nad oedd hyn yn darparu unrhyw wybodaeth ynghylch eu cynnydd, llesiant na'u profiadau unigol. Felly, mae'r system bresennol sydd ar waith yn caniatáu ar gyfer gwerthfawrogiad mwy sensitif o effaith GAD trwy edrych ar effaith tu hwnt i ddangosyddion academaidd.

“Mae yna lawer o'r disgyblion dan y GAD nad ydynt yn mynd i gyrraedd dipyn o'r dangosyddion (academaidd) allweddol. Felly oni bai eich bod yn mesur eu llesiant, eu hiechyd, hapusrwydd, presenoldeb, nid oes gennych unrhyw awgrym o beth sy'n digwydd a pha effaith mae'r cyllid yn ei gael."

**Barnau ar GAD fel polisi**

Dywedwyd fod y GAD yn “rhaff achub” ar gyfer awdurdodai lleol sy'n rhedeg eu cyllidebau yn uniongyrchol i wella canlyniadau FSM.

“Mae'n bolisi sydd wedi ei gynllunio'n arbennig o dda, ac mae'r arweiniad yn glir. Mae beth sy'n wariant priodol yn glir. Dwi'n meddwl fod y grid a'r siart llif yng nghefn y ddogfen yn berffaith - mae'n syml ac yn glir beth allwch ac na allwch chi wario arno. Mae'r system fonitro ar y gwariant hwnnw yn allweddol, a dyna pam fod rôl y Cynghorydd Her mor bwysig”

Dywedwyd fod y GAD wedi ei dargedu'n dda, yn bennaf oherwydd atebolrwydd cynyddol Penaethiaid, monitro gan y Cynghorwyr Her, rôl Llywodraethwyr Ysgolion ac Estyn: “gyda'r holl warchodwyr hyn, mae atebolrwydd wedi dod yn llawer mwy cadarn”. O ganlyniad, ystyrir fod data monitro a gwerthuso ysgolion wedi gwella'n arwyddocaol o gymharu â phum mlynedd yn ôl.

3.9 Nododd staff consortia rhanbarthol a gyfwelwyd eu bod wedi canfod gofynion gweinyddol y GAD o ran casglu data a chyfrifoldebau adrodd, i fod yn ymarferol. Dywedodd un bod hyn oherwydd y “system dda” a sefydlwyd i olrhain data.

3.10 Parthed effeithiolrwydd y GAD, nodwyd y byddai'n werthfawr gwybod a ellir cynnwys y cyllid GAD yn eu cynllunio tymor hir. Dywedodd aelod o staff un consortiwm fod y GAD “yn gynaliadwy cyn belled â bod gennych chi'r arian yn unig... os byddwch yn cael gwared ar yr arian yna, byddai'n rhaid i mi ddod o hyd i'r arian o rywle arall os ydw i'n ei werthfawrogi.” Roedd y teimlad hwn yn amlwg ar draws yr holl gyfweliadau consortia, yn ogystal ag ymysg staff yn yr ysgolion astudiaeth achos. Fodd bynnag, gwelwyd fod cynaliadwyedd mentrau a ariennir

trwy GAD yn ddibynnol ar beth mae'r ysgolion yn ei ddarparu: “pe byddai ysgol yn cyflogi rhywun i gael rhai sydd â ffobia o'r ysgol i ddod i'r ysgol, ni fyddai'r fenter yna'n gynaliadwy pe byddech yn cael gwared ar y grant. Ond mae addysgeg dda, gwahaniaethiad da ac ati yn gynaliadwy.” Yn ogystal â'r mentrau hyn, pwysleisiwyd trwy gael gwared ar y cyllid GAD, y gellid hefyd effeithio ar y perthnasau a phartneriaethau sydd wedi datblygu o ganlyniad.

3.11 I hybu effeithlonrwydd y GAD ymhellach, dadleuodd aelod o staff un consortiwm y dylid rhyddhau cyllid yn uniongyrchol i'r rhanbarthau, ac yna ei ddosbarthu i ysgolion yn seiliedig ar angen, arbenigedd, gwybodaeth ac arfer da. Roeddynt yn teimlo fod hyn yn arbennig o berthnasol ble roedd y swm o gyllid i ysgolion yn llai (megis cyfanswm o £800), gan ei bod yn anodd i'r Pennaeth weithredu strategaethau effeithiol yn defnyddio'r lefel yma o gyllid.

3.12 Wrth symud ymlaen, cydnabyddir fod angen i'r consortia ddeall y gwahanol anghenion yn eu rhanbarthau: “felly nid dim ond ei alw'n amddifadedd, ond treiddio ychydig yn ddyfnach.” Er enghraifft, bydd gan ddisgyblion FSM mewn ardaloedd cefnog wahanol brofiadau o gymharu â phlant FSM mewn ardaloedd o amddifadedd, neu ysgolion gwahanol.

3.13 Mae yna hefyd ffocws cynyddol ar bwysigrwydd y rôl cyswllt teulu:

> “Oni bai eich bod yn taclo'r teulu cyfan pan ddaw i dlodi ac amddifadedd, ac nid dim ond y plentyn cyfan, dwi ddim yn meddwl eich bod yn mynd i greu diwylliant fydd yn helpu pan fydd y plentyn yn mynd yn ôl adref…mae rhai o'r rhieni yma mewn tlodi enbyd…mae'r mwyafrif o'r rhieni hynny eisiau'r gorau ar gyfer eu plant, felly trwy gefnogi'r teulu, trwy fentrau iechyd, trwy wasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, gwisg ysgol…beth bynnag allwch chi ei wneud i gefnogi'r teulu - eu cael i'r ysgol, oherwydd efallai eu bod wedi cael profiad drwg eu hunain…wedyn pan fydd y plentyn yn dychwelyd adref mae'r diwylliant yn well”. (Aelod o staff consortiwm)

3.14 Yn unol â hyn, mae yna archwaeth i barhau i adeiladu ar y partneriaethau a ddatblygwyd o ganlyniad i GAD, i gynyddu buddsoddiadau mewn strategaethau llesiant, ac i ymgysylltu mwy gyda rhieni a theuluoedd trwy gael iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio.

## 4. Rheolaeth o'r Grant Amddifadedd Disgyblion

4.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar sut mae ysgolion yn rheoli eu gwariant o'r Grant, yn cynnwys y gefnogaeth a chyngor maent yn ei dderbyn, a'r dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion i hysbysu eu gwariant.

### Rheolaeth o'r Grant Amddifadedd Disgyblion

#### *Mewnbwn gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a chlystyrau*

4.2 Roedd ysgolion astudiaeth achos wedi datblygu perthnasau gweithredol agos gyda'u hawdurdodau lleol, consortia a chymunedau sydd wedi cefnogi'r GAD a gweithrediad mentrau a ariennir gan y GAD.

4.3 Nododd ysgolion astudiaeth achos eu hawdurdod lleol (ALl) fel ffynhonnell werthfawr o gyngor ar weinyddu, a sylfaen tystiolaeth ar gyfer, y GAD: Darparodd ALlau enghreifftiau o arfer da, gan eu cyfeirio at ddogfennau perthnasol, ymweld yn rheolaidd, darparu argymhellion ar wariant a sut i uchafu effaith, a gellid cysylltu â nhw am fewnbwn ar sut i ddelio â sefyllfaoedd penodol. Defnyddiodd un ysgol astudiaeth achos y ‘Mynegai Proffil Bregusrwydd’ a ddarparwyd gan ei hawdurdod lleol i nodi disgyblion mewn perygl a oedd angen cefnogaeth deilwredig.

4.4 Ar draws yr astudiaethau achos, roedd rhywfaint o dystiolaeth o ysgolion yn gweithio'n effeithiol ar draws clystyrau. Ar adegau roedd y mentrau hyn wedi eu harwain gan ALlau a chonsortia, ac weithiau'n cael eu cychwyn gan arweinwyr ysgolion eu hunain. Roedd mentrau clwstwr yn cynnwys consortia yn sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol gyda themâu megis cau'r bwlch cyrhaeddiad; arweinwyr ysgolion yn cronni GAD i ariannu aelodau staff cefnogaeth i weithio ar draws y rhanbarth; ac mewn un achos menter llythrennedd ar gyfer y clwstwr cyfan. Fodd bynnag, roedd gan ysgolion astudiaeth achos ble nad oedd cofnodion gystal o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad berthnasau adeiladol gydag ysgolion lleol eraill.

4.5 Roedd ysgolion astudiaeth achos, yn arbennig y rhai gyda ffocws ar daclo anfantais ar draws yr ysgol gyfan neu glwstwr o ysgolion, hefyd wedi creu cyswllt gyda busnesau a sefydliadau lleol i ddarparu ymyraethau a ariannwyd trwy GAD, megis cyrsiau neu hyfforddiant coginio i deuluoedd. Gweithiodd un ysgol astudiaeth achos yn agos â Gyrfa Cymru i ddarparu rhaglen gyrfaoedd i'r ysgol gyfan, gyda'r nod gyfunol o leihau'r gyfran o ddisgyblion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Roedd hyn yn cynnwys profiad gwaith a ffug gyfweliadau gyda

busnesau lleol, dyddiau datblygu, ymweliadau â Phrifysgolion, ffeiriau gyrfaoedd a sgyrsiau.

4.6 Roedd Llywodraethwyr Ysgol hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi rheolaeth o GAD, yn bennaf trwy ddarparu adborth ar y Cynllun Datblygu Ysgol. Esboniodd un ysgol nad oedd llywodraethwyr yr ysgol yn llunio'r strategaeth, ond yn hytrach yn gweithredu fel “ffrindiau beirniadol” i'r ysgol trwy ofyn cwestiynau anodd ynghylch sut oedd y strategaeth wedi ei dyfeisio a chyflawni, a'r canlyniadau a sicrhawyd.

***Thema Astudiaeth Achos: Partneriaeth a llunio ymarfer effeithiol:***

Yn rhan o'r ymweliadau astudiaeth achos a gyflawnwyd, cododd enghreifftiau pellach o nifer o agweddau o weithio mewn partneriaeth i alluogi rhannu ymarfer effeithiol:

**Daeth ysgolion ynghyd i ariannu Gweithiwr Ymgysylltu, sy’n rhannu ei amser ar draws ysgolion yn y consortia.** Gweithiodd y Gweithiwr Ymgysylltu gydag amrywiaeth o deuluoedd mewn angen, o'r rhai oedd angen cefnogaeth llythrennedd a help i lenwi ffurflenni, i gefnogaeth mewn argyfwng. Cafodd y deilliannau teuluol eu monitro ynghyd â chyrhaeddiad disgyblion.

**Datblygodd clwstwr o Ysgolion Cynradd fenter o'r enw ‘Arwr Prosiect’ i gefnogi eu disgyblion wrth iddynt drosi i ysgolion uwchradd lleol.** Ariannodd y GAD yr arweinydd ar gyfer y fenter hon, oedd yn hwyluso trafodaethau grŵp (er enghraifft, trafod ofnau'r disgyblion ynghylch symud i'r ysgol uwchradd) gyda disgyblion Blwyddyn Chwech. Dywedwyd fod y fenter wedi llwyddo i wella ymddygiad disgyblion yn eu tymor olaf o'r ysgol gynradd. Cynigiwyd cefnogaeth un i un yn y dosbarth hefyd i'r rhai oedd ei angen yn ystod y tymor cyntaf yn eu hysgol uwchradd.

**Datblygodd clwstwr o ysgol uwchradd a chwe ysgol gynradd bwydo strategaeth llythrennedd a rhifedd gyson a gafodd ei dysgu a mewnosod ar draws y cwricwlwm.** I wella llinell sylfaen sgiliau disgyblion, cronnwyd cronfeydd GAD ar draws y clwstwr i ddarparu Hyfforddwr Dysgu Llythrennedd Clwstwr oedd yn cefnogi gweithrediad y strategaeth, darparu hyfforddiant, modelu arferion addysgu, cynnig cefnogaeth unigol a chreu fframweithiau ac adnoddau dysgu. Cododd hyn y lefel sylfaenol o gyflawniad disgyblion ysgolion cynradd yn mynd i'r ysgol uwchradd, a galluogi athrawon ysgolion cynradd i elwa o hyfforddiant pwnc mwy arbenigol athrawon uwchradd. Derbyniodd Cynorthwywyr Addysgu a Llywodraethwyr Ysgolion hefyd hyfforddiant ar y strategaeth, a chafodd rhieni gyfarwyddyd ar beth oedd ynghlwm. Arddangoswyd effeithlonrwydd y strategaeth clwstwr trwy ganlyniadau cyrhaeddiad, yn ogystal â'r adroddiad Estyn diweddaraf oedd yn cydnabod y cysylltiadau cryf i sgiliau llythrennedd ar draws yr holl feysydd pwnc.

***Mewnbwn gan dimau cyllid a rheolaeth uwch***

4.7 Ar draws yr ysgolion astudiaeth achos, roedd yn arferol i'r timau rheolaeth uwch – dan arweiniad y pennaeth – i benderfynu ar y blaenoriaethau a dyraniad gwariant y GAD ar gyfer yr ysgol. Nid oedd hyn o reidrwydd yr un tîm ag oedd yn monitro effaith gwariant y GAD, gydag ysgolion astudiaeth achos yn ariannu Rheolwyr GAD, timau Cynhwysiant a Chyflawniad, Rheolwyr Ymyrraeth ac Arweinwyr Tîm i oruchwylio'r GAD ar waith. Ymgynghorwyd â'r timau hyn i ddarparu tystiolaeth oedd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Datblygu Ysgol a phroses gwneud penderfyniadau'r tîm rheoli.

4.8 Mewn rhai ysgolion astudiaeth achos, roedd Swyddogion Cyllid neu Reolwyr Busnes yn gyfrifol am fonitro costau grantiau ysgolion – er enghraifft, trwy fewnbynnu'r costau ar 'Fy Nangosfwrdd Gwella Ysgolion' (MySID, a gynlluniwyd gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg[22] yng Nghymru), ac yna darparu anfonebau ar gyfer yr amrywiol weithgareddau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. O ganlyniad i'r monitro yma, sylweddolodd un ysgol astudiaeth achos eu bod wedi tanwario'n arwyddocaol ar eu cyllid yn ystod y flwyddyn academaidd, ac felly gallai athrawon wneud cais am gyllid i'w wario ar syniadau ar gyfer eu prosiectau eu hunain.

4.9 Nododd nifer o ysgolion astudiaeth achos fod eu cyllid GAD wedi ei "glustnodi ar gyfer cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM." Rhoddodd un ysgol lumanau yn ei gyllid fel bod gwariant ar gyfer GAD ar gael yn hwylus yn ystod archwiliadau.

4.10 Mae'r timau cyllid a rheolwyr uwch yn cydweithio'n agos i ddyrannu a monitro cyllid GAD. Roedd Swyddog Cyllid un ysgol uwchradd astudiaeth achos yn eistedd ar yr uwch fwrdd rheoli, sy'n cwrdd bob pythefnos ac felly roedd yn ymwybodol o athroniaeth yr ysgol ac effaith cyllid GAD ar ymarfer yr ysgol: "mae'n ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud: mae'n ein galluogi i geisio cyrraedd y disgyblion yma a rhoi'r sgiliau iddynt y maent eu hangen."

***Y Cynllun Datblygu Ysgol***

4.11 Ar gyfer pob blwyddyn academaidd, mae ysgolion yn drafftio cynllun datblygu ysgol (SDP) sy'n amlinellu sut maent yn bwriadu dyrannu cyllideb eu hysgol er mwyn bodloni eu hamcanion. Yn flaenorol roedd y cynllun datblygu ar gyfer cyllid GAD yn ddogfen ar wahân, ond bellach mae'r dadansoddiad o wariant ar gyfer mentrau a

[22] Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) y pum awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

ariennir gan y GAD wedi ei fewnosod yn rhan o'r SDP. Derbyniodd y newid ymateb positif gan ysgolion yr astudiaeth achos: “dylai gulhau’r bwlch rhwng disgyblion eFSM a'r garfan gyfan fod yn rhan allweddol o gynllun datblygu unrhyw ysgol, felly mae cael y Cynllun Datblygu GAD yn rhan o hyn yn wych.” (Pennaeth cynorthwyol, Ysgol Uwchradd)

4.12 Yn nodedig, mae'r SDP yn cyfeirio at y flwyddyn academaidd (Medi hyd Gorffennaf), tra bod y cyllid GAD yn seiliedig ar flwyddyn ariannol (Ebrill hyd Mawrth). Felly, dywedodd un ysgol astudiaeth achos eu bod yn “cynllunio ar gyfer pedwar tymor gan obeithio y bydd cyllid ar gael ar gyfer y flwyddyn ysgol lawn”, agwedd a rannwyd ar draws yr holl ymweliadau. Byddai ysgolion astudiaeth achos yn crybwyll yn aml yr anawsterau o gynllunio'r cyllid, ac yn benodol o gynllunio staffio, cyn eu bod yn gwybod beth fydd eu dyraniad GAD ar gyfer y flwyddyn.

### *Ffactorau cyd-destunol yn effeithio ar reolaeth ysgolion o'r GAD*

4.13 Amlygodd gwaith diweddar a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg ar effaith y Premiwm Disgyblion yn Lloegr fod ysgolion wedi cyrraedd gwahanol bwyntiau ar y ‘daith wella’ o ran sut maent yn taclo anfantais addysgol. Fe welsant fod yr ysgolion oedd fwyaf effeithiol o ran cau'r bwlch wedi dechrau gweithredu strategaethau ar bwynt cynharach, a bod ganddynt strategaethau mwy aeddfed ar waith i daclo'r bwlch.[23] Mae'r patrwm hwn wedi ei ardystio trwy'r astudiaethau achos GAD.

4.14 Roedd yr ysgolion mwyaf llwyddiannus wedi rhoi pwyslais cryf ar y GAD. Roedd gweledigaeth arweinwyr yr ysgol yn cael ei fynegi'n glir, a'i rhannu a gweithredu arni'n glir gan bob aelod o staff yn yr ysgol a phartneriaethau ehangach. Er enghraifft, roedd un ysgol astudiaeth achos wedi datblygu strategaeth ysgol gyfan a chlwstwr i wella safonau llythrennedd a rhifedd dan RAISE, gan barhau i'w weithredu trwy'r GAD. Roedd y strategaethau yn darparu disgyblion â sgiliau dysgu annibynnol, a chyfres o gamau i ddadelfennu tasgau llythrennedd a rhifedd. Roedd y dirprwy bennaeth yn yr enghraifft hon wedi amlygu ymroddiad yr ysgol i sicrhau y cyflawnwyd y strategaeth yn gyson ac effeithiol: roedd pob aelod o staff yn ymwybodol o nodau'r strategaeth, a gallai ei weithredu ar draws holl bynciau a gweithgareddau'r ysgol. Roedd yr uwch dîm rheoli yn atebol i'r dysgwyr, staff yr ysgol, rhieni, llywodraethwyr a’r awdurdod lleol, oedd oll wedi eu hysbysu o beth

[23] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/473974/DFE-RR411_Supporting_the_attainment_of_disadvantaged_pupils.pdf

oedd nod y strategaeth a sut oedd am gyflawni hyn. Felly, roedd pawb dan sylw yn disgwyl ac annog diwylliant yn yr ysgol oedd yn gwerthfawrogi dysgu a gwelliant parhaus. Mae Estyn wedi cydnabod yr ysgol fel ffocws ar gyfer rhannu arfer da, ac mae'r gyfran o ddisgyblion eFSM yn cyflawni'r dangosydd ‘Lefel 2+’ (5 A-C mewn TGAU, yn cynnwys Saesneg a Mathemateg) wedi cynyddu o 14% yn 2012 i 54% yn 2015.

4.15 Roedd ysgolion astudiaeth achos gyda chofnod gwaeth yn amlwg ar bwynt llawer cynharach yn eu taith wella, ac yn yr achosion hyn roedd yr arwyddocâd neu flaenoriaeth a roddwyd i'r GAD wedi ei gyfyngu gan amgylchiadau'r ysgol a allai gyfyngu ar effaith mewn ysgolion o'r fath. Er enghraifft, roedd un ysgol astudiaeth achos yn wynebu ansicrwydd ynghylch ei dyfodol, gyda niferoedd disgyblion yn gostwng, toriadau mewn staff, rhagolygon o ddiffygion yn y gyllideb a pherfformiad academaidd gwael mewn blynyddoedd diweddar. Roedd taclo'r bwlch cyrhaeddiad yn eilaidd i rai o'r pryderon mwy dybryd yn bygwth dyfodol yr ysgol. O ganlyniad, roedd yr ysgol wedi derbyn ‘Hysbysiad i Wella’, oedd yn amlygu presenoldeb a pherfformiad disgyblion, yn arbennig ymysg disgyblion eFSM, fel maes allweddol ar gyfer gwelliant. Roedd yr ‘Hysbysiad i Wella’, yn hytrach na'r cyllid GAD, wedi cael blaenoriaeth ac yn gweithredu fel ysgogiad ar gyfer newid a chynyddu ffocws ar wella deilliannau disgyblion eFSM. Roedd strategaethau yn yr ysgol hon yn ffocysu ar ‘gael y sylfeini’n iawn’, yn cynnwys ffocws ar bresenoldeb ac ymddygiad, a gwella dynodiad a thargedu disgyblion sydd angen cefnogaeth atodol. Er ei bod yn bosib y defnyddiwyd cyllid GAD yn yr enghraifft hon i gyflawni'r newidiadau, nid oedd presenoldeb GAD y prif 'ysgogydd' yn hytrach amgylchiadau heriol iawn yr ysgol oedd wedi ysgogi'r newid.

4.16 Mae maint yr ysgol hefyd yn ystyriaeth allweddol parthed GAD a'i deilliannau arfaethedig. Roedd gan un ysgol astudiaeth achos gyfanswm o 34 o ddisgyblion, gydag wyth yn ddisgyblion eFSM. Nododd y pennaeth fod y safonau'n gyffredinol uchel ac mai anaml y gellid gweld bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM a’r rhai nad ydynt yn FSM, o bosibl oherwydd maint llai'r dosbarthiadau, gyda'r holl ddisgyblion yn cynnwys y rhai eFSM yn derbyn sylw penodol. Felly hefyd, gwelodd dadansoddiad ystadegol NFER o ffactorau yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd

ysgolion i gau'r bwlch cyrhaeddiad fod dosbarthiadau llai yn cyd-fynd â lefelau llwyddiant gwell[24].

**Targedu'r Grant Amddifadedd Disgyblion**

4.17 Dywed Canllawiau Llywodraeth Cymru[25] fod yn rhaid defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) i ariannu mesurau i wella cyrhaeddiad gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (disgyblion eFSM) a phlant sy'n derbyn gofal (LAC), ac nad yw wedi ei fwriadu i daclo tangyflawni ar draws poblogaeth yr ysgol gyfan (er y gellir mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan sy'n creu budd anghymesur i ddisgyblion eFSM). Dim ond ar gyfer disgyblion eFSM y gellir defnyddio rhaglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion unigol yn defnyddio cyllid GAD.

4.18 Roedd ysgolion yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r GAD dargedu disgyblion dan anfantais. Pan holwyd yn yr arolwg yn 2014 (cyn trefnu i gyllid GAD gael ei ddarparu i ddisgyblion eFSM ac LAC trwy ddwy ffrwd wahanol) ar gyfer pa grŵp oeddynt yn credu oedd y GAD i fod yn fuddiol, dywedodd 93% o'r ymatebwyr cynradd a 98% o ymatebwyr ysgolion uwchradd ddisgyblion eFSM, a dywedodd 15% o ymatebwyr cynradd a 23% o uwchradd LAC. Nododd ychydig dros hanner yr ysgolion (55% cynradd, 60% uwchradd) fod disgyblion eFSM ac LAC yn gymwys ar gyfer y Grant. Roedd ysgolion oedd yn adrodd cael disgyblion LAC yn eu poblogaeth yn fwy tebygol na'r rhai heb ddisgyblion LAC i adrodd fod y grant yn targedu'r grŵp hwn[26]. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, newidiwyd y mecanweithiau cyllid ar gyfer cefnogaeth i ddisgyblion eFSM a LAC yn Ebrill 2015 i ddwy ffrwd wahanol. Mae'r adroddiad hwn yn ffocysu ar eFSM a bydd gwaith pellach ar y ffrwd LAC yn dilyn yn y dyfodol.


---

24 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/473974/DFE-RR411_Supporting_the_attainment_of_disadvantaged_pupils.pdf

25 http://gov.wales/docs/dcells/publications/130426-school-effectiveness-grant-2013-2015-en.pdf

26 Er enghraifft, roedd 4% o ysgolion cynradd heb unrhyw ddisgyblion LAC yn ymwybodol o'r maen prawf LAC, o gymharu â 27% o ysgolion cynradd gyda disgyblion LAC ar y gofrestr.

**Ffigwr 4.1 Dehongliadau o fuddiolwyr arfaethedig y Grant Amddifadedd Disgyblion**




Sylfaen: 201 o ysgolion wedi eu holi, Chwe – Ebr 2014. Mae'r ffigwr yn dangos ymatebion a grybwyllwyd gan o leiaf 5% o'r ymatebwyr
Cwestiwn: *Yn gyntaf oll, yn seiliedig ar eich dealltwriaeth o ganllawiau'r Grant Amddifadedd Disgyblion, pa grwpiau o ddisgyblion y bwriedir i'r GAD fod o fudd iddynt?*


4.19 Tra bod ysgolion yn ymwybodol mai buddiolwyr targed GAD yw disgyblion eFSM, maent yn defnyddio'r meini prawf ehangach wrth dargedu ymyraethau yn eu hysgolion eu hunain: dim ond 65% o'r ymyraethau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a dargedwyd yn benodol tuag at ddisgyblion eFSM, ac roedd nifer arwyddocaol o ddisgyblion eraill yn elwa o weithgaredd a ariennir gan y Grant. Mae dau reswm allweddol dros hyn:

**1.** Roedd ysgolion yn ystyried fod y Grant yn ceisio taclo ‘anfantais’ yn hytrach nag ‘amddifadedd ariannol’, ac yn defnyddio ystod ehangach o ddangosyddion a gwybodaeth bersonol o ddisgyblion a'u teuluoedd i odi'r rhai oedd angen cefnogaeth, yn hytrach na statws FSM yn unig. Nododd un ysgol astudiaeth achos fod “eFSM yn ffordd i ddiffinio disgyblion yn gyflym – maent wedi eu hamddifadu'n economaidd, ond mae yna ystod llawer mwy o amddifadedd na hynny...p'un a yw nad yw'r rhieni yno neu os yw'n anfantais trwy gyfle.” Roedd ysgol arall yn yr astudiaeth achos yn rhannu'r farn hon: “gall rhai o'r disgyblion

mwy cefnog ddioddef anfantais oherwydd diffyg cefnogaeth yn y cartref, ac efallai y bydd plant sy'n derbyn gofal dan anfantais neu beidio yn seiliedig ar eu cefndir ar gyfer derbyn gofal... Ar y cyfan, mae anfantais yn unrhyw beth sy'n golygu nad ydynt yn gallu cael yr un cyfleoedd yn yr un modd." Pwysleisiodd yr ysgolion hyn bwysigrwydd deall cefndir y teulu ac amgylchiadau cyfredol wrth nodi os oedd y disgybl angen cefnogaeth.

**2.** Roedd ysgolion yn ystyried fod y Grant wedi ei anelu at wella cyrhaeddiad ar gyfer pob disgybl ac felly'n targedu disgyblion gyda chyrhaeddiad isel (beth bynnag fo eu statws FSM): Roedd 38% o ymyraethau cynradd a 32% o ymyraethau uwchradd wedi eu targedu at ddisgyblion gyda chyrhaeddiad isel.

**Ffigwr 4.2 Grwpiau a dargedwyd gan fentrau a ariannwyd gan GAD**




Sylfaen: 785 o ymyraethau ar draws 201 o ysgolion a holwyd (457 ymyraethau cynradd, 328 ymyraethau uwchradd), Chwe – Ebr 2014. Pob ymateb gyda 5% neu fwy (cyfanswm)
Cwestiwn: *Pa grŵp o ddisgyblion, rhieni, neu grwpiau eraill a dargedir fel rhan o'r ymyrraeth?*

4.20 Ategodd yr ymweliadau astudiaethau achos gasgliadau'r arolwg, ble roedd ysgolion yn deall mai nod y GAD oedd taclo'r blwch cyrhaeddiad trwy dargedu disgyblion difreintiedig. Roedd penaethiaid a staff addysgu yn bennaf gefnogol i nod craidd y

cyllid o helpu disgyblion amddifad yn benodol, ond maent yn parhau i ddefnyddio diffiniad ehangach o amddifadedd na statws FSM yn unig.

4.21 Teimlai penaethiaid a staff addysgu y gellir dosbarthu disgyblion fel 'difreintiedig' am sawl rheswm, yn cynnwys disgyblion nad oeddynt yn gallu cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion, disgyblion oedd yn cael anhawster gyda rhyw agwedd o ddysgu, disgyblion oedd ychydig uwchlaw'r llinell dlodi, a disgyblion oedd wedi eu heffeithio gan amgylchiadau tymor byr, fel chwalu teulu.

4.22 Roedd astudiaethau achos yn dibynnu'n helaeth ar ddealltwriaeth eu staff o ddisgyblion unigol a'u teuluoedd i dargedu'r GAD, gan deimlo fod dangosyddion megis eFSM yn "nodwr gor-syml o ddatblygiad y plant oherwydd nad yw'n dal yr holl blant sydd angen help ychwanegol". Er nad yw eFSM yn cwmpasu'r diffiniad ehangach o amddifadedd a ddefnyddiai penaethiaid a staff addysgu i dargedu dysgwyr difreintiedig, roedd nifer yn ei adnabod fel "ffon fesur" orau a oedd ar gael.

**Cynllunio gwariant y Grant Amddifadedd Disgyblion**

***Tystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer cynllunio gwariant GAD***


4.23 Mae'r GAD yn annog ysgolion i ddefnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth wrth gynllunio sut i wario'r GAD. Mae'r canllaw[27] yn gofyn i ysgolion wneud defnydd deallus o ddata, i ddefnyddio systemau olrhain data i nodi anghenion dysgwyr i dargedu ymyraethau a monitro effaith. Mae hefyd yn amlygu nifer o ffynonellau tystiolaeth allanol y gall ysgolion eu defnyddio i gynllunio eu gwariant. Yn benodol, mae'r canllaw gan Lywodraeth Cymru yn amlygu Pecyn Offer y Sutton Trust, adroddiadau thematig Estyn ac adroddiad Cymunedau, Teuluoedd ac Ysgolion Ynghyd Achub y Plant Cymru.

4.24 Ar adeg yr arolwg yn 2014, pan ofynnwyd heb gymell pa ffynonellau tystiolaeth maent yn eu defnyddio wrth benderfynu ar sut i wario'r grant, adroddodd ysgolion yn gyffredinol eu bod yn defnyddio eu systemau monitro data eu hunain (79% cynradd a 74% uwchradd), a grybwyllodd cyfran arwyddocaol eu profiad blaenorol (29% cynradd, 29% uwchradd). Crybwyllodd isafswm o ysgolion heb gymell ffynonellau tystiolaeth allanol: er enghraifft, adroddodd 12% o ysgolion cynradd a 25% o ysgolion uwchradd iddynt ddefnyddio Pecyn Offer y Sutton Trust, ac fe nododd 4% o ysgolion cynradd a 6% o ysgolion uwchradd adroddiadau Estyn. Roedd ysgolion

[27] http://gov.wales/docs/dcells/publications/130426-school-effectiveness-grant-2013-2015-en.pdf

gyda chyfradd uwch o ddisgyblion eFSM yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Pecyn Offer y Sutton Trust ac adroddiadau Estyn (defnyddiodd 27% gyda chyfran uchel o eFSM Pecyn Offer y Sutton Trust, a defnyddiodd 13% adroddiadau Estyn). Mae'r canllaw yn awgrymu y dylai ysgolion ddefnyddio eu data eu hunain ar y cyd â ffynonellau allanol, ond adroddodd 66% o ysgolion cynradd a 46% o ysgolion uwchradd iddynt ddefnyddio eu tystiolaeth eu hunain, neu ffynonellau anffurfiol yn unig, ac ni chrybwyllwyd defnyddio tystiolaeth allanol na ffurfiol heb gymell[28].

**Ffigwr 4.3 Tystiolaeth a ddefnyddiwyd gan ysgolion wrth gynllunio sut i wario'r Grant Amddifadedd Disgyblion (atebion digymell)**




Sylfaen: 201 o ysgolion a arolygwyd, Chwefror - Ebrill 2014. Dengys y ffigur atebion a grybwyllwyd gan o leiaf 5% o atebwyr

Cwestiwn: *Pa dystiolaeth neu wybodaeth, os unrhyw beth, a ddefnyddiwyd gennych wrth benderfynu sut i wario'r GAD? (Yn ddigymell)*

[28] Rydym wedi diffinio ffynonellau tystiolaeth ffurfiol / allanol fel yr hyn mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori ysgolion i'w ddefnyddio (e.e. Pecyn Offer y Sutton Trust), a thystiolaeth academaidd a gyhoeddwyd. Diffinnir ffynonellau tystiolaeth eraill, megis data ysgolion, profiad blaenorol, neu arfer da a rennir gydag ysgolion lleol fel mewnol neu anffurfiol.

4.25 Fodd bynnag, pan anogwyd hwy, adroddodd 83% o ysgolion cynradd a 85% o ysgolion uwchradd eu bod wedi defnyddio cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru; adroddodd 36% o ysgolion cynradd a 49% o ysgolion uwchradd eu bod wedi defnyddio Pecyn Offer y Sutton Trust; a dywedodd 60% o ysgolion cynradd a 74% o ysgolion uwchradd eu bod wedi defnyddio adroddiadau Estyn.

4.26 Mae hyn yn cydymffurfio â chanfyddiadau o ymweliadau'r astudiaeth achos: yn y lle cyntaf cynlluniodd ysgolion ymyriadau wedi'u hariannu gan y GAD ar sail eu data a'u profiad eu hunain. Er enghraifft, yn nodweddiadol defnyddiodd ysgolion eu systemau monitro data eu hunain ar y cyd ag adborth storïol gan ddisgyblion a staff, i ganfod disgyblion a allent elwa o gymorth ychwanegol ac/neu i nodi'r mathau o gymorth yr oedd eu hangen ar draws poblogaeth yr ysgol. Adroddodd ysgolion yr astudiaeth achos, o ganlyniad i'r cynnydd mewn ffocws ar fonitro data, bod sgiliau athrawon wedi cael eu gwella o ran rheoli data ac o ran defnyddio tystiolaeth i nodi disgyblion mewn perygl. Roedd y data a gasglwyd at y diben hwn yn cynnwys data asesiadau, sgorau prawf cenedlaethol, data CATS (Profion Gallu Gwybyddol), canfyddiadau arolwg PASS (Agweddau Disgyblion tuag at yr Ysgol a'u Hunain), a data bugeiliol. Nododd athrawon bod y cynnydd mewn ffocws ar fonitro data wedi helpu gwella eu hymwybyddiaeth eu hunain o anfantais ac eFSM, a phwysigrwydd addasu strategaethau'n benodol ar gyfer disgyblion eFSM. Cydnabu penaethiaid mewn ysgolion na fu ganddynt ffocws arwyddocaol cyn hynny ar eFSM fel problem bod y GAD a gweithgareddau monitro cysylltiedig wedi helpu newid diwylliant eu hysgolion yn eu dull o fynd ati i gau'r bwlch amddifadedd.

4.27 Mae'r GAD wedi sicrhau fod athrawon yn fwy ymwybodol o ddisgyblion eFSM fel grŵp penodol o ddysgwyr y dylid dilyn eu trywydd a'u monitro. Amlygodd llawer o ysgolion yr astudiaeth achos, o ganlyniad i GAD, bod pob aelod o'r staff erbyn hyn yn gwybod pa ddisgyblion oedd yn eFSM. Adroddodd ysgolion yr astudiaeth achos bod athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cyflawniad disgyblion unigol, ac mewn rhai achosion defnyddiodd ysgolion gymhorthion gweledol, fel hysbysfyrddau'n dangos lluniau disgyblion eFSM gydag anghenion pob disgybl wedi'u nodi arnynt,[29] neu atodi taenlenni gyda chod lliw i'r wal lle mae'r bwrdd rheolwyr uwch yn cyfarfod. Monitrwyd cynnydd, yn ogystal, trwy arsylwi; mewn un ysgol yr astudiaeth achos, aeth y pennaeth ar 'deithiau cerdded dysgu' i weld sut roedd yr ymyriadau'n gweithio'n ymarferol.

[29]mewn ardal nad oes gan ddysgwyr fynediad iddi.

4.28 Defnyddiodd ysgolion ddata ar y cyd â'u crebwyll proffesiynol a'u dealltwriaeth o ddisgyblion a'u cefndiroedd teuluol. Yn aml, cyflogodd ysgolion yr astudiaeth achos Gynorthwywyr Addysgu (TAs) mewn rolau cydgysylltwr teuluol a/neu rolau cymorth bugeiliol ar gyfer disgyblion dan anfantais: rhoddodd hyn fewnwelediad i'r TAs a'r staff addysgu ehangach i'r bywyd ar yr aelwyd a'r rhwystrau penodol a wynebir gan ddisgyblion unigol. Defnyddiodd un ysgol gynradd yr astudiaeth achos GAD i ariannu TA ar lefel uwch (HLTA) i weithio fel ei Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd. Darparodd yr ysgol 'Ystafell i'r Teulu' bwrpasol er mwyn i rieni allu dod i mewn a siarad â'r Swydd Ymgysylltu â Theuluoedd pryd bynnag roedd angen hynny arnynt. Cyfeiriodd y Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd at ei rôl fel un a oedd "fel cofleidiad mawr i'r rhan fwyaf o deuluoedd." Cynhaliodd ysgol gynradd arall yr astudiaeth achos ymweliadau cartref cyn i bob plentyn ddechrau yn yr ysgol er mwyn deall y ffactorau gwahanol a oedd yn effeithio ar fywyd pob plentyn, megis statws cyflogaeth rhieni a lefel eu haddysg, p'un ai yw'n deulu rhiant sengl, p'un ai oes unrhyw afiechyd hirsefydlog neu anabledd yn y teulu, a ph'un ai oes gan y plentyn fynediad i lyfrau, gweithgareddau allgyrsiol neu ffrwythau. Wedyn, bu iddynt addasu ymyriadau o amgylch y rhain: "mae'n darparu golwg gyffredinol, mewn gwirionedd, dim ond asesiad ciplun o'r plentyn a'r teulu er mwyn i ni allu amlygu, efallai, y plant hynny nad ydynt yn gwneud cais am FSM neu sy'n methu â chyrraedd y trothwy FSM o ryw fymryn ac y byddem yn eu hystyried fel rhai mewn perygl." Pwysleisiodd ysgolion, yn ogystal, bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol rhwng staff er mwyn sicrhau fod gwybodaeth mewn perthynas â chynnydd a lles disgyblion yn cael ei rhannu mewn dull addas. Er enghraifft, roedd gan un astudiaeth achos system o gardiau post, a ddefnyddiwyd gan Gynorthwywyr Addysgu i ychwanegu cynnydd pob plentyn i mewn i gofrestr yr athro/athrawes. Yn yr achos hwn, cafwyd cysylltau cryf hefyd rhwng cymorth bugeiliol a thimau rheolwyr uwch.

4.29 Roedd pob ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gasglu a defnyddio eu data eu hunain, yn cynnwys data o ymyriadau penodol (gweler yr adran sy'n dilyn). Fodd bynnag, roedd yr ysgolion mwyaf effeithiol yn ychwanegu ffynonellau allanol eraill at eu data a'u profiad eu hunain. Mewn cyferbyniad, roedd ysgolion gyda hanes gwaeth o gau'r bwlch naill ai'n fwy amheugar o gasgliadau tystiolaeth allanol, neu roeddent yn defnyddio tystiolaeth allanol mewn dull mwy cyfyngedig (gweler ymhellach ymlaen yn y bennod hon).

### *Gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau*

4.30 Mabwysiadodd y rhan fwyaf o ysgolion yr astudiaeth achos agwedd feirniadol tuag at werthuso ymyriadau roeddent wedi'u rhoi ar waith yn ystod blynyddoedd blaenorol er mwyn pennu p'un ai i barhau i'w defnyddio ai peidio neu aildrefnu eu gweithgareddau – er enghraifft, defnyddiodd llawer ohonynt brofion cyn ac ar ôl ymyriad yn ogystal â chymysgedd o gasglu adborth gan fuddiolwyr ac/neu arsylwi ar weithgareddau. Crybwyllodd un ysgol uwchradd yr astudiaeth achos ei bod wedi defnyddio dull hirdymor o fynd ati i dreialu, mireinio a chyflwyno ymyriadau fesul camau: bu iddi lunio a phrofi ei strategaeth llythrennedd yn yr adran Saesneg, cyn ei chyflwyno i'w phrofi yn yr adran Dyniaethau (adran yr oedd ganddi lefelau uwch o hyder eisoes mewn llythrennedd mewn cymhariaeth ag adrannau eraill), ac wedyn ei chyflwyno i'r ysgol gyfan cyn ei chyflwyno yn y pen draw ar draws y clwstwr. Esblygodd y strategaeth llythrennedd drwy gydol y cyfnod hwn ar sail tystiolaeth o'i heffeithiolrwydd.

4.31 Ar ben hyn, dangosodd ysgolion eu bod yn barod i dynnu ymyriadau nad oeddent yn gweithio neu nad oeddent yn darparu gwerth ychwanegol. Er enghraifft, nid oedd un ysgol yr astudiaeth achos yn ariannu'r ymyriad Place2Be ar gyfer lles mwyach, oherwydd amlygodd Estyn er ei fod yn cael effaith bositif ar les, nid oedd yn ychwanegu gwerth i gyrhaeddiad nac i gau'r bwlch. Ail-ddyrannodd ysgol arall yr astudiaeth achos wariant GAD a ddefnyddiwyd i ariannu cwrs oddi ar y safle ar gyfer teuluoedd, oherwydd nid oedd unrhyw dystiolaeth bod teuluoedd yn ymgysylltu â'r syniad hwn ar ôl tair wythnos.

4.32 Bu defnyddio data'n effeithiol o gymorth i ysgolion gael yr effaith orau bosibl o'r ymyriadau a gynhaliwyd ganddynt. Er enghraifft, nododd un ysgol gynradd, bod ymyriadau a gynhaliwyd yn union ar ôl cinio hanner dydd yn llai effeithiol, a bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau ymddygiadol yn yr ysgol yn digwydd yn ystod yr un cyfnod hefyd. Yn dilyn hyn, canfu'r ysgol bod yr un ymyriad yn fwy effeithiol o lawer os cynhaliwyd ef yn gynharach yn niwrnod yr ysgol.

### *Tystiolaeth allanol, yn cynnwys Pecyn Offer y Sutton Trust*

4.33 Mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru'n argymell rhoi Pecyn Offer y Sutton Trust ar waith, a dulliau eraill o fynd ati wedi'u seilio ar dystiolaeth, er mwyn sicrhau fod buddsoddiad GAD yn cael effaith barhaol ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr dan

anfantais. Mae'r pecyn offer yn grynodeb o astudiaethau effaith cadarn sy'n darparu cyfarwyddyd ynghylch effaith a chost gymharol nifer o strategaethau i wella cyrhaeddiad disgyblion dan anfantais.

4.34 Roedd ysgolion yr astudiaeth achos yn gwybod am Becyn Offer y Sutton Trust, gyda llawer ohonynt wedi cael clywed am y cyfarwyddyd hwn gan eu hawdurdod addysg a'u consortiwm. Roedd un ysgol yr astudiaeth achos wedi clywed am Becyn Offer y Sutton Trust trwy gyrsiau hyfforddi penaethiaid. Yn y gyfres ddiweddaraf o ymweliadau'r astudiaeth achos, cyfeiriodd ysgolion, na wyddent am y Pecyn Offer yn flaenorol, ato'n aml; cyflwynwyd y Pecyn Offer i lawer ohonynt trwy gyfrwng gweithgareddau eu consortiwm rhanbarthol.

4.35 Yn nodweddiadol, adroddodd penaethiaid mewn ysgolion gyda hanes gwaeth o gau'r bwlch, bod cyfarwyddyd y pecyn offer yn cael ei gymryd â "phinsiad o halen" – ymddangosai bod y farn hon yn deillio o unrhyw dystiolaeth nad oedd yn alinio â'u profiad eu hunain o ymyriadau a thrwy gymhwyso eu dyfarniad eu hunain o lwyddiant. Enghraifft a grybwyllwyd ar nifer o achlysuron oedd y gefnogaeth gyfyngedig yn y llenyddiaeth ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu yn cyflawni gorchwylion neu rolau penodol. Mae'r cyhoeddiad '*Making Best Use of Teaching Assistants Guidance Report*'[30] yn dweud "nid yw sut y trefnir ac y defnyddir TAs yn nodweddiadol, dan amgylchiadau bob dydd, yn arwain i welliannau mewn canlyniadau." Mae hyn yn cyfeirio at TAs a ddefnyddir mewn rolau mwy anffurfiol, heb gefnogaeth ac er mwyn hyfforddi. Mae'r adroddiad yn nodi'n ogystal "bod tystiolaeth yn ymddangos y gall TAs ddarparu gwelliannau amlwg yng nghyrhaeddiad disgyblion. Yma, mae TAs yn gweithio'n dda ochr yn ochr ag athrawon yn y gwaith o ddarparu cymorth dysgu cyflenwol rhagorol er bod hyn yn digwydd, yn arwyddocaol, mewn lleiafrif yn unig o ystafelloedd dosbarth ac ysgolion." Yn ôl pob golwg, roedd arweinwyr ysgol mewn ysgolion mwy llwyddiannus yn llai amheugar o'r Pecyn Offer ac yn wir, cyfeiriodd nifer fach ohonynt at y pecyn offer fel rhywbeth a ffurfiai sail i'w penderfyniadau i symud i ffwrdd o ddefnyddio TAs, a mynd yn ôl i ddefnyddio athrawon ar gyfer rhai ymyriadau penodol (fel Penaethiaid Mathemateg yn arwain ymyriadau wedi'u targedu er mwyn gwella cyrhaeddiad mewn mathemateg).

4.36 Yn ogystal â'r Pecyn Offer, defnyddiwyd ffynonellau allanol eraill hefyd. Er enghraifft, soniodd ysgolion yr astudiaeth achos, a oedd yn ymddangos fel rhai mwy

[30] https://v1.educationendowmentfoundation.org.uk/uploads/pdf/TA_Guidance_Report_Interactive.pdf

agored i arloesi newidiadau, eu bod wedi defnyddio ymchwil academaidd John Hattie[31] i ffurfio sail i'w gwaith o weithredu arferion 'dysgu gweladwy.' Yn nodweddiadol, dysgodd yr ysgolion hyn am 'ddysgu gweladwy' trwy gyflwyniadau mewn cynadleddau.

4.37 O ben bwygilydd, ymddangosai bod ysgolion yn fwy parod i dderbyn tystiolaeth o ysgolion a rhwydweithiau lleol eraill ynghylch beth sy'n gweithio'n dda wrth godi cyrhaeddiad dysgwyr dan anfantais. Mae hyn yn cyd-ddigwydd â beth sy'n ymddangos fel rhwydweithiau cryfach o ysgolion lleol yn dod i'r amlwg dros oes y gwerthusiad, weithiau wedi'u sefydlu trwy gyfrwng consortia rhanbarthol. Bydd rôl y consortia o ran hyn yn parhau i fod yn bwysig, oherwydd bod gan rai ysgolion ac arweinwyr (yn aml yn yr ysgolion mwy llwyddiannus) gysylltiadau gwell â rhwydweithiau lleol nag eraill, a bydd sicrhau y gall pob arweinydd gyrchu rhwydweithiau er mwyn rhannu arfer da yn helpu hyn.

[31] Mae John Hattie yn Athro Addysg ac yn Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Addysg Melbourne ym Mhrifysgol Melbourne. Mae ei ymchwil yn cynnwys dros 800 meta-ddadansoddiad o fesurau meintiol sy'n edrych ar effaith ffactorau gwahanol ar ganlyniadau addysgol. Deilliodd ei gyhoeddiad o hyn, sef 'Visible Learning', sy'n rhoi crynodeb o arferion addysgol wedi'u seilio ar dystiolaeth ar gyfer gwella dysgu myfyrwyr. Am fwy o wybodaeth, gweler http://visible-learning.org/

# 5. Gweithgareddau

5.1 Mae'r bennod hon yn gosod allan y gweithgareddau allweddol a wneir gan ysgolion sy'n defnyddio arian GAD, yn cynnwys y mathau o ymyriadau maent yn eu rhoi ar waith; y disgyblion y mae ysgolion wedi penderfynu y dylent dderbyn ymyriadau wedi'u hariannu gan GAD; a sut a chan bwy y cyflenwir yr ymyriadau hyn.

## Mathau o ymyriadau a ariennir gan GAD

5.2 Dywed Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru[32] mai bwriad y GAD "yw goresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais rhag gwireddu eu potensial llawn." Mae'r adran hon yn amlinellu nifer o strategaethau allweddol y mae ysgolion wedi'u gweithredu er mwyn cyflawni hyn yn effeithiol, ac enghreifftiau o'r ymyriadau a'r dulliau o fynd ati a ddefnyddiwyd i gefnogi'r strategaethau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd dysgwyr, eu rhifedd a'u sgiliau dysgu er mwyn gwella cyrhaeddiad
- Strategaethau er mwyn defnyddio staff yn effeithiol
- Gwella presenoldeb ac ymddygiad
- Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dysgwyr dan anfantais
- Defnyddio technoleg i ennyn diddordeb dysgwyr a'u rheini
- Datblygu a chefnogi sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais
- Darparu cwricwlwm amgen
- Targedu cynnar

### *Canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd dysgwyr, eu rhifedd a'u sgiliau dysgu er mwyn gwella cyrhaeddiad*

5.3 Yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol ac fel y gwelir yn yr adroddiadau gwerthuso blaenorol, parhaodd ysgolion yr astudiaeth achos i arddangos penderfyniad i wella cyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd. Yn yr ymweliadau astudiaeth achos diweddaraf, canolbwyntiwyd yn arbennig ar lythrennedd gan mai hwn yw'r allwedd sy'n galluogi plant i gyrchu gweddill y cwricwlwm.

[32] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150323-pdg-essential-guidance-cy.pdf

5.4 Roedd ysgolion yr astudiaeth achos yn amrywio yn eu dulliau o fynd ati i godi cyrhaeddiad, ac yn y mathau o ddisgyblion a dargedwyd. Yn gyffredinol, canolbwyntiodd ysgolion gyda bylchau cyrhaeddiad lletach a lefelau is o gyrhaeddiad ar ddisgyblion sy'n tangyflawni neu ddisgyblion eFSM sy'n tangyflawni; roedd ysgolion gyda lefelau uwch o gyrhaeddiad hefyd yn canolbwyntio ar uchafu potensial pob disgybl eFSM, yn cynnwys disgyblion eFSM Mwy Galluog a Dawnus (MAT) yn ogystal â'r rheiny ar lefelau gallu is. Yn nodweddiadol, defnyddiodd ysgolion yr astudiaeth achos GAD i ariannu TAs i ddarparu ymyriadau mewn grwpiau bach ar gyfer disgyblion yr oedd arnynt angen cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd. Roedd gan ysgolion yr astudiaeth achos gyda hanes cryf o gau'r bwlch cyrhaeddiad strategaethau yn eu lle'n ogystal i wella ansawdd addysgu a dysgu ar draws yr ysgol, a defnyddiwyd GAD gan nifer fach o ysgolion i ariannu athrawon tra medrus – fel Penaethiaid Saesneg neu Fathemateg – yn hytrach na TAs i gyflenwi ymyriadau.

5.5 Y buddion a gafwyd o ddefnyddio ymyriadau mewn grwpiau bach oedd caniatáu i ddulliau o fynd ati gael eu haddasu ar gyfer anghenion disgyblion penodol, darparu gwell gwybodaeth i athrawon neu TAs ynghylch sut i ennyn diddordeb bob disgybl, monitro cyrhaeddiad ac ymddygiad yn agosach, a rhoi mwy o sylw ac adborth i ddisgyblion. Mynegodd disgyblion a oedd yn gyfrannog yn y grwpiau hyn eu bod yn teimlo fod maint llai y dosbarthiadau'n rhoi amgylchedd diogel iddynt a oedd o gymorth i fagu eu hyder: *"Mewn dosbarthiadau normal os ydych yn cael trafferth, bydd llawer o bobl yn parhau i chwerthin am eich pen, a bod yn gas. Mewn llythrennedd a rhifedd gyda'r dosbarth bach a phobl ar yr un lefel â chi mae'n haws gofyn am help"* ac *"Oherwydd bod [llai] o bobl yn y dosbarth mae'n fy ngwneud yn fwy hyderus ac mae'r athro'n rhoi mwy o help i chi."* (Disgybl, Ysgol Uwchradd) Nododd un ysgol ei bod wedi symud o hyfforddiant un-i-un i hyfforddiant mewn grwpiau bach er mwyn darparu gwell gwerth am arian gyda deilliannau tebyg ar gyfer disgyblion.

5.6 Yn aml, defnyddiodd ysgolion arian GAD i brynu adnoddau dysgu i TAs neu athrawon i'w cyflenwi yn y sesiynau hyn. Crybwyllwyd nifer o raglenni ar draws yr ysgolion cyfrannog, yn cynnwys Fresh Start, Read Write Inc. a Cumbria Reading Intervention. Dywedodd plant cyfrannog yn Fresh Start bod eu hyder wedi tyfu o ganlyniad i'r ymyriad, gydag un myfyriwr penodol yn symud ei oedran darllen o naw i un ar ddeg. Yn nodweddiadol, y bobl a oedd yn gyfrifol am roi ymyriadau ar waith

oedd y rhai â'r gorchwyl o fonitro ac asesu eu heffeithiolrwydd (yn bennaf drwy sgorio cyn ac ar ôl ymyriad ar fesurau fel oedran darllen), gydag ysgolion yn addasu eu dulliau o fynd ati a defnyddio cymysgedd o adnoddau i deilwra eu dulliau yn ôl yr angen.

5.7 Trefnodd ysgolion ymyriadau er mwyn iddynt beidio â tharfu ar yr amserlen ar gyfer pynciau craidd, wrth geisio sicrhau nad oedd disgyblion yn colli dosbarthiadau mewn pynciau heb fod yn rhai craidd y maent yn cael y mwynhad mwyaf ohonynt. Gwnaethpwyd hyn, yn nodweddiadol, trwy amrywio'r amser a'r diwrnod o'r wythnos pryd cynhaliwyd yr ymyriad, er mwyn peidio â cholli'r un pwnc neu wers bob wythnos. Roedd ysgolion yr astudiaeth achos hefyd yn cynnig sesiynau ar ôl yr ysgol mewn llythrennedd a rhifedd y gallai'r plentyn a'i riant eu mynychu. Sicrhaodd hyn y gellid atgyfnerthu'r strategaethau er mwyn gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y cartref.

5.8 Yn y gyfres ddiweddaraf o ymweliadau'r astudiaeth achos, ymddangosai bod mwy o ffocws ar ddatblygu sgiliau dysgu a metawybyddol, ochr yn ochr â thargedu cyrhaeddiad yn y pynciau craidd.

***Deilliannau ymyriad 1: Datblygu sgiliau dysgu a metawybyddol***

Cafodd **'Dysgu gweladwy'** (wedi'i seilio ar yr ymchwil academaidd gan John Hattie), ei roi ar waith ar draws ysgolion a oedd yn fwy agored i arloesi newid. Rhoddodd hwn fwy o bwyslais ar blant (a'u rhieni) yn deall beth yw dysgwr effeithiol. Dywedodd Pennaeth un o'r ysgolion hyn y gallai weld gwahaniaethau anferth, gyda phlant nawr yn gallu mynegi mewn geiriau beth yw hanfod dysgu: esboniodd un plentyn ei fod yn "rhywun sy'n gallu canolbwyntio, sy'n weithiwr caled, sy'n gwneud camgymeriadau ond nid yw'n rhoi'r ffidil yn y to."

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth plant o'u harddulliau dysgu, nod yr ysgolion oedd rhoi **strategaethau dysgu y gallant eu defnyddio ar draws bob pwnc** i blant, fel tynnu darnau o destun ar led er mwyn iddynt ddeall elfennau allweddol ysgrifennu da a dyblygu hyn yn eu gwaith eu hunain. Er enghraifft, mewn gwers Wyddoniaeth, dangoswyd enghraifft i blant o fethodoleg arbrawf a chyda'i gilydd bu iddynt ddadansoddi beth weithiodd yn dda. Wedyn, bu iddynt lunio eu methodoleg eu hunain ar gyfer arbrawf a wnaethpwyd yn y dosbarth.

*Strategaethau er mwyn defnyddio staff yn effeithiol*

5.9 Yn fras, ymddangosai bod dwy brif strategaeth ar gyfer trefnu sut i ddefnyddio staff ar draws ysgolion yr astudiaeth achos.

**1. Ariannu cynorthwywyr addysgu (TAs):** Ar sail ymweliadau'r astudiaeth achos hyd yma, un o'r dulliau mwyaf cyffredin o ddefnyddio'r GAD oedd ariannu TAs i ddarparu gweithgareddau un-i-un neu mewn grwpiau bach, er mwyn cefnogi dysgu yn y dosbarth, neu mewn rolau bugeiliol.

**2. Staff addysgu ychwanegol:** Dros amser, mae'n debyg bod symudiad wedi digwydd mewn ysgolion yr astudiaeth achos, gyda strategaethau llythrennedd a rhifedd mwy sefydlog, gan symud i ffwrdd o ariannu TAs yn unig tuag at ariannu athrawon gyda gwybodaeth benodol am bwnc i gyflenwi ymyriadau (Deilliannau ymyriad 2).

***Deilliannau ymyriad 2: Astudiaeth achos staff addysgu ychwanegol***

Mewn un ysgol uwchradd, y newid mwyaf arwyddocaol ers yr ymweliad yn 2015 oedd yn narpariaeth cymorth ychwanegol ar draws y cwricwlwm craidd; datblygwyd y cynllun hwn gryn dipyn ymhellach yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn yr ymweliad diweddaraf, roedd y GAD wedi cael ei ddefnyddio er mwyn ariannu:

- Athro ychwanegol ar amserlen 0.6 (mewn cyferbyniad â dau gyflog TA) i ddarparu gwersi pwrpasol mewn llythrennedd a rhifedd i un neu ddau o unigolion ar y tro.
- Nid oes gan y Pennaeth Mathemateg ddosbarth, ac yn lle hynny mae'n cymryd disgyblion nad ydynt eto wedi cyflawni gradd C am dri bore bob wythnos am sesiwn o gwestiynau mathemateg cyflym.
- Pedwar athro mathemateg i roi cymorth ychwanegol i ddisgyblion eFSM nad ydynt eto wedi cyflawni gradd C, a gynhelir ar Ddydd Sadwrn. Mae'r athrawon yn gosod stondinau gweithgareddau cysylltiedig â mathemateg, ac mae'r disgyblion yn symud o gwmpas y stondinau mewn cylchdaith.
- TAs lefel uwch i gymryd dosbarthiadau bach er mwyn creu amser rhydd yn

amserlenni athrawon mathemateg.

- Athro mathemateg yn darparu cymorth rheolaidd i'r disgyblion galwedigaethol - cynyddwyd yr oriau a neilltuwyd i hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Awr ychwanegol o fathemateg ar yr amserlen ar gyfer bob disgybl, sy'n cyfateb i saith awr bob pythefnos.
- Gorstaffio'r adrannau Saesneg a Mathemateg gan athro a hanner er mwyn lleihau maint dosbarthiadau.
- Dyrannu amser er mwyn i athrawon allu cyflenwi ymyriadau penodol, er enghraifft ar gyfer disgyblion sydd wedi cael trafferth gyda phrawf algebra diweddar, pan nad ydynt wedi'u hamserlennu i addysgu.

Pan gynhaliwyd yr ymweliad astudiaeth achos diweddaraf, roedd 53% o ddisgyblion eFSM wedi cyflawni o leiaf gradd C mewn mathemateg. Hwn oedd yr un cyfartaledd a welwyd ar draws eu teulu o ysgolion bryd hynny (yn nodedig, oherwydd bod yr ysgol yn y categori isaf roedd hyn yn cynnwys ysgolion heb unrhyw ddisgybl eFSM neu â niferoedd isel ohonynt).

5.10 Nododd ysgolion yr astudiaeth achos bwysigrwydd paru sgiliau staff i gydweddu â'r rolau y gofynnid iddynt eu cyflawni. Fel yn yr enghraifft uchod, roedd hyn yn golygu defnyddio'r athrawon gyda'r sgiliau gorau - fel y Pennaeth Mathemateg neu Saesneg - i gyflenwi ymyriadau rhifedd a llythrennedd neu ddosbarthiadau dal-i-fyny, yn hytrach na TAs. Pwysleisiodd ysgolion sut roedd TAs yn cydweddu'n ddelfrydol â rolau penodol roeddent yn ymgymryd â hwy: er enghraifft, cyflogodd un ysgol TA a oedd hefyd yn athro Mathemateg hyfforddedig i gyflenwi ymyriadau rhifedd mewn grwpiau bach; a defnyddiodd ysgol arall TA a oedd yn gynghorwr hyfforddedig mewn rôl fugeiliol i gefnogi disgyblion nad enynnwyd eu diddordeb. Amlygodd ysgolion yr astudiaeth achos y ffaith bod TAs, yn aml, mewn sefyllfa well o lawer nag athrawon i wneud gwaith estyn allan, ymgysylltu â theuluoedd, a gwaith cymorth ymddygiadol a bugeiliol. Mae hyn oherwydd, mewn llawer o ardaloedd, bod y TAs yn dod o'r un cymunedau â'r teuluoedd - roeddent yn adnabod y teuluoedd a'u cefndiroedd, ac yn cael eu gweld fel rhai llai bygythiol neu swyddogol nag athro.

5.11 Yn unol â sicrhau fod yr aelod mwyaf addas o'r staff yn cyflenwi'r ymyriad cywir, canolbwyntiodd ysgolion mwyaf effeithiol yr astudiaeth achos ar wella sgiliau staff

(athrawon a TAs fel ei gilydd) trwy hyfforddiant arbenigol. Hyfforddwyd athrawon ar draws yr ysgolion hyn ar strategaethau ysgol gyfan, yn cynnwys strategaethau llythrennedd a rhifedd, dulliau gwell o roi adborth i ddisgyblion, a thechnegau metawybyddol. Mewn achosion eraill, cysylltwyd hyfforddiant ag anghenion penodol dysgwyr cyfredol. Er enghraifft, roedd un ysgol yr astudiaeth achos yn hyfforddi aelod o'r staff i gyflenwi ymyriadau llythrennedd a rhifedd yn benodol i blant â dyslecsia. Gwelwyd tystiolaeth, yn ogystal, o ddefnyddio hyfforddiant i barhau datblygiad proffesiynol athrawon, a sicrhau fod eu harferion addysgu yn gyfoes yn unol â strategaethau'r ysgol. Er enghraifft, darparodd un ysgol yr astudiaeth achos hyfforddiant ar 'ddysgu gweladwy' ar gyfer yr holl athrawon ar ddiwrnodau HMS.

5.12 Cefnogir hyn gan ganfyddiadau o'r arolwg: roedd 70% o ymyriadau mewn ysgolion cynradd a 58% o ymyriadau mewn ysgolion uwchradd yn ymwneud â rhyw fath o hyfforddiant neu ddatblygiad staff. Disgrifiodd ysgolion amrywiaeth o arferion hyfforddi, yn cynnwys hyfforddiant mewnol ac allanol, yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar lythrennedd/rifedd a chymorth bugeiliol.

**Tabl 5.1 Hyfforddiant a datblygiad staff sydd ynghlwm wrth gyflenwi prif ymyriadau GAD (gan ddangos y chwech ateb pwysicaf)**

| Math o hyfforddiant | % Ymyriadau cynradd | %Ymyriadau uwchradd |
|---|---|---|
| Hyfforddiant allanol/ hyfforddiant Awdurdod Lleol/cwrs byr/diwrnod i ffwrdd | 26 | 13 |
| Hyfforddiant mewnol/ hyfforddiant yn y swydd | 11 | 13 |
| Hyfforddiant llythrennedd a rhifedd arbenigol | 9 | 8 |
| Hyfforddwyd un aelod / nifer fach o aelodau o'r staff, ac wedyn hyfforddwyd eraill ganddynt ('Hyfforddi'r hyfforddwr') | 5 | 5 |
| Hyfforddiant meddalwedd neu DG | 3 | 3 |
| Hyfforddiant cymorth bugeiliol arbenigol | 2 | 5 |
| Hyfforddiant arall (heb ei fanylu) | 14 | 12 |
| Dim hyfforddiant/ anghymwys | 30 | 42 |

Ffynhonnell: arolwg Ipsos MORI
Sylfaen: 457 o ymyriadau cynradd a 328 o ymyriadau uwchradd a ariannwyd gan GAD, Chwefror - Ebrill 2014.

### *Gwella presenoldeb ac ymddygiad*

5.13 Mae Cyfarwyddyd GAD Llywodraeth Cymru'n[33] amlinellu sail resymegol glir ar gyfer targedu presenoldeb ac ymddygiad.

> "Dengys tystiolaeth fod ffactorau penodol sy'n bodoli ym mywydau plant a phobl ifainc yn eu rhoi mewn mwy o berygl o ymddieithrio rhag yr ysgol. Mae plant a phobl ifainc a amlygwyd i'r ffactorau hyn wedi'u gorgynrychioli ymysg y rheiny sy'n absennol o'r ysgol, sy'n ymddwyn yn wael, ac sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol. Gall ymddieithrio rhag yr ysgol waethygu amgylchiadau sydd eisoes yn anodd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc".

5.14 Mae'r cyfarwyddyd hefyd yn datgan disgwyliad y bydd ysgolion yn defnyddio'r grant i wella presenoldeb ymysg disgyblion eFSM. Roedd ysgolion yr astudiaeth achos i gyd yn monitro ymddygiad a phresenoldeb yn agos, ac roedd ganddynt strategaethau ysgol gyfan yn eu lle i'w gwella. Gwelwyd amrywiaeth yn y strategaethau a ddefnyddiwyd i wella presenoldeb. Ymddangosai bod ysgolion yr astudiaeth achos gyda phroblemau presenoldeb mwy difrifol yn fwy tebygol o ddefnyddio dulliau cosbol o fynd ati, tra bod ysgolion eraill yn pwysleisio ennyn diddordeb disgyblion yn amgylchedd yr ysgol er mwyn annog presenoldeb. Dros amser, ymddangosai bod symudiad ar waith yn yr ysgolion â phroblemau presenoldeb dybryd, sef i ffwrdd o strategaethau cosbol a thuag at ddealltwriaeth well o'r ffactorau a allai fod yn arwain at ymddieithriad disgyblion. Dywedwyd bod hyn yn fwy buddiol oherwydd bod y dull newydd o fynd ati'n archwilio'r rhesymau pam nad oedd disgyblion yn mynd i'r ysgol, yn hytrach na gwneud dim ond disgyblu hanes gwael o bresenoldeb.

5.15 Yn ôl pob golwg, roedd ystod o ddulliau'n llwyddiannus yn y gwaith o feithrin ymgysylltiad disgyblion. Darparodd un ysgol yr astudiaeth achos weithgareddau tîm amser cinio, wedi'u harwain gan gynorthwywr addysgu ym maes chwarae'r ysgol, er mwyn hybu cynhwysiad a sgiliau mwy meddal, fel magu hyder a gwytnwch, y gellid eu trosi'n ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ysgol arall wedi sefydlu Tŷ Dysgu fel pont rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer unrhyw ddisgybl a oedd yn profi anawsterau - yn y fan hon byddai disgyblion yn cadw'n gyfoes gyda deunydd a addysgwyd yn eu prif wersi ysgol, gyda'r nod o'u hintegreiddio nôl i mewn i'r ystafell ddosbarth.

---

[33] http://www.cscjes.org.uk/getattachment/efaad54c-1950-497d-a005-33e969df5526/130426-school-effectiveness-grant-2013-2015-en.pdf.aspx;

5.16 Roedd ysgolion gyda niferoedd uwch o ddisgyblion eFSM yn aml yn cyflogi Swyddogion Presenoldeb, Swyddogion Ymddygiad, a/neu Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a ariannwyd gan y GAD.

***Deilliannau ymyriad 3: Gwella presenoldeb ac ymddygiad***

Mewn un ysgol uwchradd:

- Ffoniodd y Swyddog Presenoldeb y rhieni pan roedd plant yn hwyr neu'n absennol. Roedd hon yn rôl newydd wedi'i chreu trwy ddefnyddio arian GAD. Yn ystod ymweliad diweddaraf yr astudiaeth achos, cyfeiriodd y Pennaeth at y Swyddog Presenoldeb fel "rôl sy'n dal i fod yn effeithiol", ond adroddodd bod presenoldeb yn parhau i fod tri phwynt canran yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol o 93%.
- Cafwyd gwobrau hefyd, fel nosweithiau *pizza* a ffilm, ar gyfer plant â phresenoldeb o 100%, ac anfonwyd cardiau presenoldeb adref i rieni unwaith y tymor.

Nododd y Pennaeth y byddai rôl y Swyddog Presenoldeb yn newid yn fuan:

> "Aethom ati o chwith gyda hyn... wnaethom ni ddim canolbwyntio ar [gysylltu â theuluoedd] a pham nad oedd plant yn dod i'r ysgol."

Cafwyd y newid hwn yn ffocws rôl y Swyddog Presenoldeb o ganlyniad i lwyddiant eu Swyddog Gwytnwch Emosiynol blaenorol (terfynwyd y rôl hon oherwydd daeth cyllido gan Gymunedau yn Gyntaf i ben), ac fe'i hysbrydolwyd gan glywed am y 'Dull Arwyddiant Dysgu fel Teulu', sy'n sgorio agweddau teuluoedd tuag at ddysgu ac sy'n helpu i ffocysu dulliau o ennyn diddordeb teuluoedd.

**Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dysgwyr dan anfantais**

5.17 Mae Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru'n[34] amlygu bod "ymchwil yn dangos y gall ymgysylltiad effeithiol â theuluoedd a'r gymuned gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer pawb ond yn enwedig ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig." Roedd gan lawer o ysgolion yr astudiaeth achos strategaethau yn eu lle i ennyn diddordeb a chefnogi rhieni a gofalwyr. Arweiniwyd y rhain yn aml gan Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yr ysgol, a oedd yn meddu ar hyfforddiant arbenigol mewn gweithio gyda theuluoedd i greu ymdeimlad o gysylltiad, cydberthnasau a sgiliau. Cynigiwyd y rhaglenni hyn i deuluoedd a nodwyd fel y rhai â'r anghenion mwyaf, yr oedd cyfran fawr ohonynt yn deuluoedd gyda phlant eFSM.

***Deilliannau ymyriad 4:*** **Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dysgwyr dan anfantais**

**Cyfathrebu'n uniongyrchol â rhieni a gofalwyr:** adroddodd ysgolion eu bod yn defnyddio aps, negeseuon e-bost, y ffôn a'r post i gysylltu â rhieni. Anogodd un ysgol yr athrawon i wneud 'un galwad ffôn euraid' ar ddiwedd pob diwrnod ysgol er mwyn dilyn trywydd unrhyw bryderon ynghylch presenoldeb, neu roi adborth calonogol ynghylch ymddygiad neu gyflawniad.

**Darparu dosbarthiadau a chyrsiau ar gyfer rhieni a gofalwyr:** cynigiodd sawl ysgol hyfforddiant mewn sgiliau ymarferol i rieni, er mwyn helpu ennyn diddordeb rhieni yn yr ysgolion a'u hannog i ddod i mewn i'r ysgolion, yn ogystal ag i roi sgiliau bywyd iddynt ac i gefnogi dysgu eu plant. Cynigiwyd ystod eang o hyfforddiant ar draws ysgolion yr astudiaeth achos. Roedd y rhain yn cynnwys dosbarthiadau a chyrsiau ar sgiliau cyffredinol, fel coginio, cadw'n heini, cyllidebu a sgiliau yng nghyswllt gwaith. Cynhwyswyd sgiliau hefyd i helpu rhieni gefnogi dysgu eu plant, gan gynnwys rhifedd a llythrennedd, rheoli ymddygiad rhieni a phlant, a chydberthnasau teuluol. Nododd athrawon bod gan y cyrsiau, yn ychwanegol i'r sgiliau a addysgwyd, y nod o fodelu dulliau o ymddwyn a strategaethau y gallai rhieni eu defnyddio eu hunain ar yr aelwyd. Roedd rhieni'n bositif ynghylch y cyrsiau hyn:

[34] http://dera.ioe.ac.uk/23239/1/150615-face-main-guidance-en.pdf

> "Mae'n ddolen gyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref – gallwch weld beth mae athrawon yn addysgu'r plant. Roedd y plantos arfer dod â gwaith cartref adref a byddech yn meddwl, beth yw hynny?"
>
> "Rydych chi'n gwylio'r fideo [ynghylch sut i atal sefyllfa rhag dwysáu] gan feddwl 'wrth gwrs, gallwn i wneud hyn gartref', ond ni fyddech yn gwybod am hynny petaech heb weld y fideo."

**Mewn rhai ysgolion, bu rhieni a phlant yn gyfrannog mewn cyrsiau gyda'i gilydd** er mwyn gwella eu cydberthynas. Mewn un ysgol, dywedodd disgyblion cyfrannog bod y cwrs wedi eu helpu i fagu ymddiriedaeth a'u dysgu i gyfaddawdu gyda'u rhieni:

> "Dydw i a'm mam ddim yn dadlau rhagor, buodd y grŵp yn help gwirioneddol i wella'r gydberthynas rhyngof i a'm mam, gan fagu ymddiriedaeth."
>
> "Buom ni'n chwarae llawer o gemau ac roedd hynny'n hwyl, ond â dweud y gwir, roeddwn i'n hoff iawn o dreulio amser gyda hi, roedd yn rhywbeth i fi a'm mam wneud gyda'n gilydd."

**Cysylltau gyda sefydliadau a'r gymuned:** cyflenwodd un ysgol gwrs 'arwyddiant teulu' trwy sefydliad sy'n helpu teuluoedd i nodi eu cryfderau a'u gwendidau. Roedd hyn o gymorth i'r ysgol sefydlu ac olrhain trywydd meysydd yr oedd angen i deuluoedd eu datblygu. Cynhaliodd y sefydliad y cwrs gyda'r un teuluoedd bedair blynedd yn ddiweddarach i weld a wnaethpwyd unrhyw gynnydd. Dywedwyd bod y cyrsiau hyn a arweiniwyd gan y teulu'n gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion, yn ogystal â chydberthnasau teuluol. Defnyddiodd yr ysgol gysylltau gyda'r gymuned leol hefyd er mwyn rhoi lleoedd i ymweld â hwy i deuluoedd. Helpodd y rhieni yn un ysgol yr astudiaeth achos i ddylunio'r maes chwarae ar gyfer amgueddfa leol.

**Adeiladu cydberthnasau rhwng yr ysgol a'r teulu:** cafwyd ffocws ar agor sianelau cyfathrebu gyda theuluoedd. Roedd gan un ysgol 'Ystafell i'r Teulu' yn yr ysgol, y gallai teuluoedd ymweld â hi pryd bynnag roeddent eisiau siarad â'r Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd. Ar ben hyn, roedd yr ysgol wedi cychwyn caffi teuluol a roddodd gyfle i deuluoedd gyfarfod yn rheolaidd a sgwrsio gyda'r Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd a rhieni eraill.

**Cynnig cymorth arbenigol i deuluoedd:** yn ogystal â chyflenwi hyfforddiant ar ystod eang o sgiliau, rhoddwyd cymorth arbenigol i deuluoedd. Ariannodd un ysgol Weithiwr Ymgysylltu gydag ysgolion yn y consortia i gynnig cymorth mewn argyfwng a gosod nodau penodol gyda theuluoedd. Gweithiodd ysgol arall yn yr astudiaeth achos gyda *Team Around the Family* i ddarparu cymorth bugeiliol yn yr ysgol.

5.18 Cynhaliodd un ysgol yn yr astudiaeth achos raglen 'Cyflawniad i Bawb'[35], lle darparwyd adnoddau dysgu ar gyfer rhieni chwech o ddisgyblion a oeddent yn tangyflawni ym mhob dosbarth a dangoswyd iddynt sut i'w defnyddio gartref i helpu plant gyflawni eu targedau. Nod y rhaglen oedd helpu disgyblion wneud cynnydd pedwar pwynt mewn sgorau darllen, ysgrifennu a mathemateg ym mhob blwyddyn academaidd, yn ogystal â gwella hyder ac annibyniaeth yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhaglen yn ei hail flwyddyn. I gydnabod gwelliannau dros yr ysgol gyfan mewn llythrennedd a mathemateg, fel y dangoswyd gan ddata'r rhaglen, dyfarnwyd y 'Nod Ansawdd Cynradd' [36] i'r ysgol yn Rhagfyr 2015.

***Defnyddio technoleg i ennyn diddordeb dysgwyr a'u rheini***

5.19 Roedd nifer o ysgolion yr astudiaeth achos wedi buddsoddi mewn adnoddau TGCh er mwyn ennyn diddordeb plant trwy ddefnyddio technoleg. Er enghraifft, cafodd iPads eu defnyddio i ysgogi dysgu yn yr ysgol trwy alluogi dysgwyr i wneud ymchwil eilaidd a chwblhau rhaglenni llythrennedd a rhifedd digidol. Gellid addasu'r rhaglenni hyn i anghenion bob dysgwr, a gallent ddarparu data monitro ac adborth gwerthfawr.

[35] Ni nodwyd a luniwyd y rhaglen hon, sef 'Cyflawniad i Bawb' gan yr ysgol neu gan y rhaglen a gefnogir gan Lywodraeth Cymru https://afaeducation.org/

[36] http://www.qm-alliance.co.uk/Towards-the-Quality-Mark/Primary/Primary.html

***Deilliannau ymyriad 5: Defnyddio technoleg i ennyn diddordeb dysgwyr a'u rheini***

Roedd un ysgol uwchradd wedi **tanysgrifio i'r wefan 'My Maths'**, sy'n adnodd dysgu ar-lein llwyr ryngweithiol a ysgrifennwyd gan athrawon mathemateg gweithredol.
Cafodd y **disgyblion** enw defnyddiwr a chyfrinair er mwyn cyrchu'r wefan. Gosodwyd gorchwylion i'r disgyblion eu cwblhau gan eu hathrawon neu TAs ar sail wythnosol, wedi'u haddasu i anghenion penodol yr unigolyn. Roedd gorchwylion dewisol hefyd y gallai'r disgybl eu dewis er mwyn ymarfer eu sgiliau.

Roedd gan **rieni'r** cyfleuster i olrhain trywydd cynnydd eu plant ar y wefan, a oedd yn nodweddu system o oleuadau traffig ar gyfer bob un o'r gorchwylion er mwyn dangos pa mor llwyddiannus fu eu plant:

- Os ymddangosodd golau gwyrdd yn ymyl pwnc, roedd ganddynt sgiliau da yn y maes.
- Os ymddangosodd golau melyngoch roeddent yn dal i brofi anawsterau.
- Os ymddangosodd golau coch, dylent roi cynnig arall ar y wers neu ofyn i'w hathro am help gyda'r pwnc.

Dywedodd y wefan yn ogystal wrth rieni pa gwestiynau y gallai ac nad allai eu plant eu gwneud, sawl gwaith roeddent wedi rhoi cynnig ar y dasg, a'r tro diwethaf roeddent wedi rhoi cynnig arni.

Roedd gan **staff addysgu'r** gallu i fonitro cynnydd y disgyblion ar-lein; gallent weld pwy oedd wedi cwblhau eu gorchwylion a sut roeddent wedi gwneud. Cydgasglwyd y data hwn ochr yn ochr ag asesiadau ysgol a data profion cenedlaethol Llywodraeth Cymru gan olygu y gallai'r ysgol bennu'r angen am ymyriadau rhifedd pellach er mwyn gwella cyrhaeddiad.

5.20 Hefyd, defnyddiwyd technoleg er mwyn goresgyn rhwystrau a hwyluso cynhwysiad. Er enghraifft, roedd gan un ysgol yr astudiaeth achos e-lyfrgell a ddosbarthodd e-ddarllenwyr i ddisgyblion oherwydd bod rhai disgyblion wedi dweud eu bod yn teimlo chwithigrwydd wrth gymryd llyfr o'r llyfrgell a ddangosai bod eu lefelau darllen

yn is na rhai eu cyd-ddisgyblion. Caniataodd yr e-ddarllenydd iddynt ddarllen deunydd addas heb fod eu cyd-ddisgyblion yn gallu gweld beth roeddent yn ei ddarllen. Roedd ysgol arall yn yr astudiaeth achos wedi sefydlu system talu trwy sganiwr olion bysedd, er mwyn i blant beidio â gwybod pwy oedd a phwy nad oedd yn eFSM.

5.21 Adroddodd ysgolion bod technoleg o gymorth hefyd yn y gwaith o ennyn diddordeb rhieni. Roedd dulliau o fynd ati a oedd wedi gweithio'n dda yn cynnwys gosod posau mathemateg ar gyfer rhieni a phlant ar dudalen Gweplyfr yr ysgol; a gofyn i rieni dreialu pecynnau llythrennedd newydd gyda'u plant er mwyn annog rhieni a phlant i ddarllen gyda'i gilydd. Mewn rhai achosion gwnaethpwyd hyn gan ddefnyddio iPads a gyflenwyd gan yr ysgol. Nododd ysgolion fod cyfryngau cymdeithasol wedi eu helpu i gadw mewn cysylltiad â rhieni na fyddent, o bosib, eisiau dod i mewn i'r ysgol ei hun.

***Datblygu a chefnogi sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais***

5.22 Yn unol â Chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru sy'n gofyn i ysgolion "gydnabod y gydberthynas rhwng lles a safonau", roedd llawer o ysgolion yr astudiaeth achos wedi rhoi rhaglenni ar waith er mwyn datblygu a chefnogi sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais.

***Deilliannau ymyriad 6: Datblygu a chefnogi sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais***

Mewn un ysgol uwchradd, ariannodd y GAD Gydlynydd Cymorth i Fyfyrwyr a nododd ddysgwyr dan anfantais. Gwnaethpwyd hyn gan ddefnyddio data o'r arolwg PASS (Agweddau Disgyblion Tuag atynt eu Hunain a'r Ysgol), y gofrestr eFSM a'r Mynegai Agored i Newid, yn ogystal ag ymddygiad risg a phroblemau yn yr ystafell ddosbarth. Wedyn, gofynnwyd i'r disgyblion hyn gwblhau cwrs wyth wythnos yr oedd ganddo'r nod o feithrin y sgiliau gofynnol er mwyn symud ymlaen yn effeithiol drwy'r ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys sgiliau cymdeithasol, problemau gyda chyfeillgarwch, ac anghenion emosiynol. Cafodd ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad eu monitro trwy gydol y cwrs, a hyd at 12 wythnos ar ôl yr ymyriad. Cwblhaodd y cyfranogion ffurflenni hunanwerthuso'n ogystal ar ddechrau a diwedd

y cwrs i amlygu newidiadau mewn canfyddiadau. Roedd yr adborth gan ddisgyblion a fu'n gyfrannog yn bositif:

> "Roeddwn i'n hoffi'r ffaith y gallwn siarad am unrhyw beth."
>
> "Helpodd fi gyda llawer o broblemau."
>
> "Os oedd gennych broblemau, weithiau ni allech fynd at athro normal, ond gallech fynd at (y Cydlynydd Cymorth i Fyfyrwyr)."
>
> "[Oni bai am y Rhaglen Cymorth i Fyfyrwyr] dwi ddim yn credu y byddwn i yma."

Roedd y fenter hon yn ei lle yn ystod ymweliad cyntaf yr astudiaeth achos â'r ysgol, ac roedd yn parhau adeg yr ymweliad dilynol diweddarach o ganlyniad i'w llwyddiant.

5.23 Mewn ysgol arall yr astudiaeth achos, roedd Cynorthwywyr Addysgu ar lefel uwch (HLTA) yn derbyn hyfforddiant arbenigol gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg lleol er mwyn cyflenwi'r rhaglen ELSA (Cynorthwywyr Cefnogi Llythrennedd Emosiynol) i blant gyda phroblemau bychan i ganolig. Cawsai hyn ei addasu ar gyfer anghenion pob myfyriwr, a byddai goruchwyliaeth glinigol yn cael ei darparu bob hanner tymor.

***Darparu cwricwlwm amgen***

5.24 Cynigiodd nifer o ysgolion yr astudiaeth achos ddull amgen o weithredu'r cwricwlwm er mwyn gwella presenoldeb ac ymddygiad grwpiau o ddisgyblion. Roedd sut gwnaethpwyd hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y cyfnod ysgol.

***Deilliannau ymyriad 7: Darparu cwricwlwm amgen***

**Ar lefel gynradd**, darparodd un ysgol ddosbarthiadau 'Ysgol Goedwig' ar gyfer disgyblion eFSM (a disgyblion eraill lle'r oedd argaeledd) - o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 3. Cynhaliwyd y rhain yn yr awyr agored ar diroedd yr ysgol, a'u diben oedd defnyddio natur a'u hamgylchedd i atgyfnerthu'r maes pwnc roeddent yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Adroddodd yr ymarferwr a arweiniodd y

dosbarthiadau hyn am arsylwi ar welliant yn lles meddyliol a chorfforol y disgyblion, yn ogystal â lefelau gostyngedig o bryder.

**Ar lefel uwchradd** symudodd ffocws y ddarpariaeth o gwricwlwm amgen tuag at sgiliau cyflogadwyedd allweddol. Mewn un ysgol yr astudiaeth achos, mynegodd yr Hyfforddwr Dysgu'r farn "nad yw amgylchedd academaidd yn siwtio pawb." Treuliodd rhai disgyblion ddau ddiwrnod yr wythnos ar leoliad gwaith er mwyn cynnal eu hymgysylltiad â dysgu. Mewn ysgol arall cynigiwyd hyfforddiant galwedigaethol sy'n arwain at gymhwyster Lefel 2 i grŵp o bobl ifainc eFSM a NEET ('heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant'). Adroddwyd bod cychwyn y cymhwyster hwn wedi rhoi ysgogiad a hyder newydd i lawer o'r disgyblion hyn, a oedd yn ei dro wedi gwella presenoldeb cyffredinol yn yr ysgol. Ar ben hyn, derbyniodd rhai disgyblion sesiynau mentora unigol trwy'r Prosiect Siop Beic lle, ochr yn ochr â sgiliau galwedigaethol a thechnegol, dysgodd y disgyblion sgiliau rhifedd a llythrennedd trwy gwblhau gorchwylion ymarferol fel cyfrifo anfonebau. Roedd yr hyfforddiant galwedigaethol yn yr ysgol hon yn bodoli cyn GAD, a bu'n weithredol ers nifer o flynyddoedd ar yr ymweliad cyntaf.

5.25 Ar draws y ddau gyfnod, adroddodd ysgolion yr astudiaeth achos bod y math hwn o weithgarwch amgen yn helpu adeiladu dyheadau eu disgyblion: "mae angen i ni ysgogi plant a chodi dyheadau, nid yn unig yn academaidd."

5.26 Yn ogystal â darparu cwricwlwm amgen, roedd ysgolion yr astudiaeth achos wedi gosod strategaethau yn eu lle i roi'r cyfle i bob disgybl brofi gweithgareddau cyfoethogi. Roedd hyn yn cynnwys cymorthdalu ymweliadau addysgol i leoliadau fel amgueddfeydd. Sicrhaodd yr ysgolion mwyaf effeithiol fod gan weithgareddau cyfoethogi, yn hytrach na gweithredu fel 'achlysuron pleserus' arunig, gysylltiad agos â'r cwricwlwm a'u bod yn gweithredu fel astell ddeifio ar gyfer cyfleoedd dysgu yn y dyfodol.

*Mwy o ffocws ar dargedu cynnar*

5.27 Mewn cymhariaeth â'r gyfres gyntaf o ymweliadau'r astudiaeth achos, ymddangosai bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar dargedu cynnar ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr ymweliadau diweddaraf. Yn ogystal â chodi safonau disgyblion cynradd cyn iddynt symud i'r ysgol uwchradd, roedd astudiaethau achos nawr yn targedu disgyblion mewn cyfnodau allweddol cynharach, ar y sail resymegol y gall ymyriad cynharach gael mwy o effaith gronnus.

| ***Deilliannau ymyriad 8: Mwy o ffocws ar dargedu cynnar*** |
|---|
| Ar lefel gynradd, roedd hyn yn **cynnwys darparu cymorth iaith un-i-un i ddisgyblion blynyddoedd cynnar**, gyda ffocws ar y rheiny o gefndiroedd dan anfantais. Gweithiodd un ysgol gyda dysgwyr dan anfantais (yn cynnwys eFSM a Phlant mewn Gofal (LAC)) a'r rheiny a gyfeiriwyd gan therapyddion lleferydd ac iaith o'r Ysgol Feithrin, y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1. Arweiniwyd y cymorth hwn gan TA ac roedd yn canolbwyntio ar addysgu plant sut i lunio brawddegau a sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol. Er mwyn monitro cynnydd, aseswyd y plant ar ramadeg ac amseroedd berfau gan ddefnyddio asesiad Renfrew[37] unwaith y tymor. Nododd arweinydd yr ymyriad "ei bod yn bosibl na fyddai plentyn yn sgorio'n uchel yn yr asesiad weithiau, ond gallai ei ramadeg fod wedi gwella – er enghraifft, gallent fynd o ddweud 'dyn dringo ar to' i 'mae'r dyn yn dringo ar y to.'" <br><br> Ar lefel uwchradd, **roedd ymyriadau llythrennedd a rhifedd mewn grwpiau bach yn ehangu er mwyn canolbwyntio'n ogystal ar ddisgyblion cyfnod allweddol tri**. Cyflogodd un ysgol bedwar o swyddogion wedi'u hyfforddi mewn Llythrennedd a Rhifedd i gyflenwi cymorth adferol mewn sgiliau sylfaenol. Mae un o'r rhain yn athro darllen a weithiodd gyda grwpiau bach y canfuwyd bod ganddynt lefelau darllen fymryn islaw'r safon dderbyniol arferol ar gyfer oedran y disgybl. Targedwyd cymorth rhifedd ar sail sgorau oedran rhifiadol disgyblion. Cafodd disgyblion eu monitro ar sail dymhorol ar ôl yr ymyriad. Roedd 85 o ddisgyblion o gyfnod allweddol tri wedi derbyn cymorth llythrennedd, gyda chynnydd cyfartalog yn eu hoedran darllen o 15 mis, ac roedd 144 o ddisgyblion wedi derbyn cymorth rhifedd, |

[37] Mae Profion Graddfa Iaith Renfrew, a ddyluniwyd gan Catherine Renfrew, yn darparu dull norm-gyfeiriol o asesu lleferydd ac iaith plant.

gyda disgyblion blwyddyn saith ac wyth yn gwneud cynnydd cyfartalog o 15 mis o ran eu sgorau oedran rhifiadol. Adroddodd y disgyblion am brofiadau positif o'r cymorth hwn:

> "Roedd yn helpu oherwydd cafodd ei addysgu'n arafach."
>
> "Mwynheais fod pobl eraill yno sy'n rhannu anawsterau tebyg."
>
> "Mae'n rhoi'r hyder i chi siarad yn uwch a defnyddio ansoddeiriau."

# 6. Allbynnau

6.1 Mae’r bennod hon a’r bennod sy’n dilyn yn ceisio archwilio effaith bosibl cyflwyno’r GAD ar gyflawniad disgyblion. Gwneir hyn mewn dau ddull: yn gyntaf, trwy ddadansoddi sut yr ystyrir effaith ymyriadau a ariennir gan GAD yn ôl y rheiny oedd yn gyfrannog yn yr arolwg ac, yn ail, trwy ddadansoddiad manwl o ddeilliannau disgyblion gan ddefnyddio’r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion (fel y trafodir yn y bennod nesaf). Mae’r bennod hon yn edrych hefyd ar gynaliadwyedd ymyriadau a ariennir gan GAD i helpu gwella cyrhaeddiad a chau’r bwlch yn y tymor hir rhwng disgyblion eFSM a’r rheiny nad ydynt yn gymwys i dderbyn FSM.

### Mesur Effaith

6.2 Mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru’n gofyn bod ysgolion yn defnyddio’r mesurau canlynol o ddeilliannau o fuddsoddiad GAD:


- Asesiad athrawon;
- Data o brofion darllen a rhifedd;
- Data cyflawniad blynyddol o gyrraedd Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Saesneg/Cymraeg (L2) a diwedd Cyfnod Allweddol 4;
- Data presenoldeb a gwaharddiad;
- Adroddiadau Estyn.

6.3 Canfu ein harolwg a’n hastudiaethau achos bod ysgolion yn defnyddio cymysgedd o ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn mesur effaith. Ar adeg yr arolwg yn 2014, defnyddiwyd systemau monitro data gan ysgolion cynradd i fesur effaith 88% o’r ymyriadau a chan ysgolion uwchradd i fesur 94% o’r ymyriadau. Defnyddiwyd canlyniadau profion i fonitro 86% o’r ymyriadau mewn ysgolion cynradd a 77% mewn ysgolion uwchradd. Yn ychwanegol i hyn, mae 85% o ysgolion cynradd a 79% o ysgolion uwchradd yn adrodd eu bod yn defnyddio adborth anffurfiol gan athrawon. Gwelwyd nifer o wahaniaethau bach, ond pwysig, yn y dull o fesur effaith rhwng ymyriadau gyda gwahanol ddeilliannau bwriadol. Cefnogwyd y canfyddiad hwn gan ysgolion yr astudiaeth achos:

> “[mae mesur effaith y GAD] yn dibynnu ar y rhesymau amdano, mae’n dibynnu ar ba ymyriad y rhoddwyd ac am ba reswm. Gallai fod yn un academaidd... os allwn gyrraedd dy oedran darllen, byddai’n wych, ond os wyt ti wedi bod yn derbyn yr

ymyriad am flwyddyn ac mae'r disgyblion wedi gwneud cynnydd o fis yn unig, mae'n rhaid bod ffyrdd gwell o wneud hyn yn bodoli."

**Ffigwr 6.1 Sut mae ysgolion yn mesur effaith GAD**




Sylfaen: 785 o ymyriadau ar draws 201 o ysgolion a arolygwyd (457 o ymyriadau cynradd, 328 o ymyriadau uwchradd), Chwefror – Ebrill 2014. Dengys y ffigwr atebion a roddwyd gan o leiaf 1% o'r atebwyr.
Cwestiwn: *Ym mha un/rai o'r dulliau canlynol (os unrhyw un) ydych chi'n monitro effaith [yr ymyriad]?*

**Canfyddiadau am effaith**

6.4 Mae effeithiau bwriadedig y GAD yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ymysg staff ysgol o arwyddocâd eFSM o safbwynt dilyniant academaidd a phresenoldeb disgyblion, a gwella effeithiolrwydd addysgu a dysgu ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

***Yr effaith ar staffio ac addysgu***

6.5 Awgryma tystiolaeth yr astudiaeth achos mai effaith fwyaf y GAD yn nhermau staffio mewn ysgolion fu'r nifer o TAs a gyflogwyd mewn ysgolion a lefel yr arbenigaeth a chyfrifoldeb sydd ganddynt. Datganodd un pennaeth 'Pe na bai gen i'r [arian GAD] ni fyddwn yn gallu cael y lefel o gymorth TA sydd gen i ar hyn o bryd.' Yn

nodweddiadol, TAs sy'n gyfrifol am gynnal ymyriadau; ym mron i bob un o ysgolion yr astudiaeth achos TAs sy'n gyfrifol am gyflenwi ymyriadau llythrennedd, ac fel rheol byddant yn gwneud hyn trwy dynnu grwpiau bach neu ddisgyblion unigol allan o'u gwersi arferol a gweithio gyda'r disgyblion hyn ar ymyriad llythrennedd penodol. Roedd TAs yn gyfrifol hefyd am gyflenwi ymyriadau rhifedd, mentrau ymddygiadol a bugeiliol, ac ystod o ymyriadau eraill fel cyrsiau coginio ar gyfer rhieni. Fel rheol, roedd TAs yn gyfrifol, yn ogystal, am fonitro effaith yr ymyriadau roeddent yn eu cynnal ar gynnydd disgyblion a helpu gwerthuso llwyddiant yr ymyriadau. Mewn enghraifft drawiadol o sut mae rolau TAs yn dod yn fwy medrus, esboniodd un ysgol bod un o'u hymyriadau a ariennir gan GAD mewn bodolaeth ers y cyfnod cyn cyflwyno'r grant, ond ei fod, bellach, yn cael ei gyflenwi gan TA yn hytrach nag athro. Fel mewn ymweliadau blaenorol yr astudiaeth achos, amlygodd nifer fach o benaethiaid y cyfrifoldebau ychwanegol yr ymgymerir â hwy gan TAs nawr, a'r pwysau cynyddol sydd ynghlwm wrth eu gwaith. Esboniodd un athro bod rôl y TA yn 'fwy dwys o lawer, yn fwy anodd o lawer' nag yn y gorffennol. Mae TAs yn cwblhau hyfforddiant i gyflenwi ymyriadau ac maent yn dod yn aelodau hynod arbenigol o staff yr ysgol. Esboniodd un TA ei bod yn ymchwilio i ymyriadau a dulliau addysgol ar-lein ac yn dod â'i chanfyddiadau i gyfarfodydd staff. Roedd yn amlwg o siarad gyda staff addysgu eraill fod ganddynt barch mawr i TAs.

6.6 Cafwyd tystiolaeth fwy cyfyngedig o ymchwil yr astudiaeth achos bod y GAD yn effeithio ar arfer athrawon dosbarth i'r un graddau, er yn yr astudiaethau achos diweddaraf, cyfeiriodd nifer fach o ysgolion at gynnydd mewn buddsoddiadau mewn hyfforddi staff a symudiad i ffwrdd o ddefnyddio TAs i gyflenwi ymyriadau gan ddefnyddio eu hathrawon mwyaf arbenigol yn eu lle (gweler hefyd 'Strategaethau ar gyfer defnyddio staff yn effeithiol'). Er enghraifft, defnyddiodd un ysgol y GAD i ryddhau athrawon i ymweld ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arfer da; defnyddiodd ysgol arall driawdau o athrawon i arsylwi ar wersi ei gilydd a darparu adborth; yr ysgol hon hefyd roddodd y gorchwyl i'r cydlynwyr llythrennedd a rhifedd o gyflenwi hyfforddiant i'r holl athrawon a TAs ar fframwaith llythrennedd a rhifedd yr ysgol. Fodd bynnag, defnyddiwyd y GAD yn fwy aml i gyflogi TAs i gyflenwi ymyriadau penodol yn hytrach na newid arfer athrawon dosbarth.

6.7 Un o'r effeithiau mwyaf ar athrawon dosbarth a oedd yn amlwg o'r astudiaethau achos oedd eu cyfranogiad yn y gwaith o fonitro cynnydd y disgyblion yn eu dosbarthiadau. Rydym yn trafod, mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, effaith y GAD

ar arferion monitro ysgolion. Fel rheol, mae athrawon dosbarth (ynghyd ag aelod o'r uwch dîm arwain sy'n goruchwylio'r GAD a chynnydd grwpiau dan anfantais) yn gyfrifol am fonitro cynnydd disgyblion ar sail reolaidd. Defnyddiodd ysgolion yr astudiaeth achos systemau a oeddent yn caniatáu cryn hyblygrwydd wrth addasu ymyriadau ar gyfer anghenion disgyblion penodol: er enghraifft, roedd athrawon (yn aml ar y cyd ag aelodau o'r Uwch Dîm Arwain a/neu TAs) yn gallu defnyddio arian GAD i roi ymyriadau yn eu lle yn ystod y flwyddyn ysgol fel ymateb i anghenion disgyblion wrth iddynt ymddangos. Er enghraifft, mewn un ysgol mae arweinydd bugeiliol pob grŵp blwyddyn yn gweithredu fel porthladd galw ar gyfer disgyblion gydag unrhyw anghenion emosiynol. Gan ddibynnu ar natur yr angen, bydd pennaeth y flwyddyn yn gweithio gydag athrawon a TAs i roi ymyriad yn ei le i fodloni anghenion y disgybl penodol a'r broblem(problemau) a wynebir ganddynt. Mewn ysgol arall yr astudiaeth achos, mae TA yn bresennol ym mhob dosbarth i ddarparu cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd, gyda ffocws ar ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn GAD. Mae athrawon dosbarth yn gweithio gyda'r TAs i ddarparu cynllun wythnosol o weithgareddau, fel ymateb i gyflawniad datblygol disgyblion.

### *Yr effaith ar ddisgyblion*

6.8 Adroddodd ysgolion am lawer o enghreifftiau lle'r oeddent wedi arsylwi ar ddeilliannau gwell ymysg disgyblion, nid yn gyfan gwbl mewn dangosyddion mesuradwy fel cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd, ond hefyd mewn deilliannau 'mwy meddal' fel ymddygiad a dangosyddion seicogymdeithasol eraill. Roedd yn amlwg bod penaethiaid yn credu bod y GAD wedi cael effaith bositif yn gyffredinol, ac ni fyddai ond ychydig, neu mewn rhai achosion dim, o'r ymyriadau wedi digwydd heb y GAD.

6.9 I un pennaeth, bu arian y GAD yn drawsnewidiol o safbwynt y gwelliannau yn yr ysgol: "Dwi ddim yn gwybod lle byddem ni hebddo – mae'n hollbwysig … Mae'n ein caniatáu i roi ymyriadau yn eu lle, mentrau un-i-un, prosiectau ... er mwyn ceisio ennyn brwdfrydedd y disgyblion hyn … mae'n amhrisiadwy." Yn yr ysgol hon, dyblodd y gyfran o ddisgyblion eFSM a gyrhaeddodd y trothwy lefel 2 yn ystod y flwyddyn gyntaf o fonitro (o 14% i 28%). Ar yr un pryd, cafodd y gyfran o ddisgyblion a waharddwyd bron ei haneru, rhywbeth yr oedd staff yn ei briodoli i'r ymyriadau ymddygiad a phresenoldeb a roddwyd ar waith dros yr ysgol gyfan. Soniodd ysgolion eraill yr astudiaeth achos am effeithiau a oeddent yr un mor drawiadol: er

enghraifft, roedd y gyfran o ddisgyblion eFSM a gyflawnodd y dangosydd lefel 2+ mewn un achos wedi treblu a mwy, o 14% i 54% o 2012-15 (gyda rhai gwelliannau'n cael eu priodoli i welliant hirdymor a ddechreuodd cyn y GAD, yn ogystal â chynnydd a wnaethpwyd yn ystod oes y grant ei hun).

6.10 Mae'r profiad hwn yn adleisio canfyddiadau a darganfyddiadau ysgolion eraill yr astudiaeth achos, a adroddodd hefyd am effeithiau pwysig ar raddau Saesneg a mathemateg, a chulhau'r bwlch rhwng disgyblion eFSM a disgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn FSM. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer o ysgolion yr astudiaeth achos hyd yr amser sy'n angenrheidiol er mwyn cael effaith wirioneddol ar gyrhaeddiad, gan amlygu bod llawer o'r deilliannau mwyaf arwyddocaol ar gyfer disgyblion yn welliannau mewn hyder a hunan-barch sy'n fwy anodd eu mesur.

6.11 Mae enghreifftiau o'r gwelliannau hyn nad ydynt yn academaidd yr arsylwyd arnynt ar draws nifer o ysgolion yr astudiaeth achos yn cynnwys:

- Gwelliant mewn presenoldeb – yn gyffredinol ac mewn gwersi penodol (fel mathemateg),
- Disgyblion yn tyfu mewn hyder, ac yn falch o'u cyflawniadau,
- Plant na fyddent wedi gwneud hynny'n flaenorol yn cyfranogi'n weithredol mewn gwersi,
- Disgyblion sy'n gallu canolbwyntio'n well,
- Cynnydd yn y lefel o gydymffurfio â gwneud gwaith cartref,
- Gwell cydberthnasau gyda theuluoedd (a'r cyfle i ffocysu mwy ar deuluoedd),
- Staff addysgu mwy hyderus,
- Cynnydd yn y gymhareb athro/disgybl sydd o fudd i ddeilliannau. Er enghraifft, roedd un ysgol uwchradd yn defnyddio GAD i ariannu aelodau ychwanegol o staff (mewn rolau TA ac athro) i gyflenwi ymyriadau rhifedd. Bu iddynt nodi'r ffaith bod yr arian hwn wedi helpu i leihau maint dosbarthiadau. Caniataodd hyn iddynt lunio mwy o ymyriadau pwrpasol, cynyddodd y sylw a roddwyd i anghenion disgyblion ac yn y pen draw, gwellodd gynnydd pawb yn y dosbarth. Yn nodedig, bu iddynt drefnu'r dosbarthiadau hyn ar sail gallu. Dywedodd y Pennaeth Mathemateg yn yr ysgol astudiaeth achos hon bod y myfyrwyr yn siarad mewn modd positif iawn am yr hyfforddi pwrpasol, yn enwedig mewn perthynas â'u hyder yn y pwnc.

6.12 Teimlai nifer o ysgolion yr astudiaeth achos bod budd i'r disgyblion nas targedwyd yn ogystal ag i fuddiolwyr uniongyrchol y gweithgareddau a ariannwyd gan GAD. Pan dynnwyd disgyblion â chyrhaeddiad is (a oedd yn aflonyddgar hefyd mewn rhai achosion), o ddosbarth er mwyn iddynt dderbyn cymorth ychwanegol, cawsai gweddill y dosbarth ei addysgu ar y lefel gyffredinol o allu a chyflymder, a lle'r oedd hynny'n berthnasol, heb aflonyddiad. Datganodd un pennaeth fod cymorth ychwanegol ar gyfer plant difreintiedig 'yn cael effaith ganlyniadol ar yr ysgol gyfan.'

6.13 Mynegodd nifer fach o benaethiaid bryderon ynghylch y ffocws ar gau'r bwlch cyrhaeddiad, neu sut cafodd targedau eu cyflwyno i fonitro cyrhaeddiad. Datganodd un, er enghraifft: 'Rydw i'n cefnogi'r [syniad] 100% bod yn rhaid i bob plentyn gyrraedd ei botensial llawn, ond ni all bob plentyn wireddu cyrhaeddiad pawb arall, ac mae pwysau anhygoel ar hyn o bryd y gallwch chi, gyda'r arian hwn, wneud i blentyn gyflawni.' Roedd nifer fach o benaethiaid eraill yn pryderu am y posibilrwydd y gallai targedau newydd Cyfnod Allweddol 4 gynnig anogaethau gwrthnysig i ysgolion gulhau eu ffocws ar ddisgyblion eFSM sydd ar drothwy cyflawni yn hytrach na'r garfan gyfan o ddisgyblion eFSM.

***Yr effaith ar arfer a diwylliant ysgol***

6.14 Roedd yn amlwg bod y GAD, mewn llawer o ysgolion, yn hollbwysig o ran ariannu cyflogau, yn nodweddiadol ar gyfer TAs, ac ymyriadau. Fodd bynnag, mae'n rhan o set o ffrydiau a mentrau ariannu sy'n newid arferion ysgolion. Er enghraifft, ariannwyd llawer o fentrau a gynhaliwyd gan ysgolion ar y cyd â grantiau eraill. Mewn rhai amgylchiadau, roedd penaethiaid yn gallu gwahaniaethu rhwng deilliannau o ganlyniad i arian GAD a deilliannau o ganlyniad i arian EIG oherwydd bod ffocws penodol iawn gan yr ymyriadau a ariannwyd gan bob un ohonynt. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyffredin ac yn y rhan fwyaf o achosion nid oedd modd gwahaniaethu rhwng ac arwahanu deilliannau ar sail pa ffrwd cymorth ariannol a ddefnyddiwyd.

6.15 Awgryma'r astudiaethau achos bod y GAD wedi effeithio ar ddiwylliant ysgolion i raddfeydd amrywiol. Dywed llawer o ysgolion y bu ganddynt eisoes bwyslais cryf ar gynorthwyo disgyblion dan anfantais, a bod y GAD yn rhoi'r gallu iddynt leihau'r gymhareb athro: disgybl er mwyn gwella effeithiolrwydd addysgu, a buddsoddi mewn adnoddau. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yr astudiaeth achos yn cydnabod gwir bwysigrwydd yr effaith: mae'r GAD wedi codi proffil anfantais fel problem a chyfrifoldeb ysgolion tuag at ddisgyblion dan anfantais.

'Mae'r egwyddor wedi newid… pe baech yn mynd yn ôl pum mlynedd, i grantiau eraill fel RAISE a PREVENT (sic)[38], ni fyddai'r syniad y byddem yn monitro a dilyn trywydd cyflawniad eFSM fel grŵp ar wahân yn digwydd… Byddem yn rhoi sylw arwynebol iddo ond ni fyddem o reidrwydd yn ffocysu arno. Rydw i'n credu ein bod i gyd wedi tanamcangyfrif effaith eFSM ar gyflawniad… Mae'r pwrpas moesol mor bwysig â'r arian, deall effaith tlodi a beth y gallwn ni ei wneud yn ei gylch' – Pennaeth.

6.16 Yn yr achos hwn, yn ôl pob golwg, y gwaith monitro a defnyddio data a wnaeth proffil eFSM yn fwy amlwg, cymaint â (os nad mwy na) bodolaeth y GAD ei hun.

6.17 Cydnabu nifer fach o ysgolion bod eu ffocws wrth gynllunio a gwario GAD yn fwy cul o lawer ar ddisgyblion eFSM nag y bu'n gynharach yn oes y grant. Priodolodd ysgolion hyn i gyfarwyddyd mwy eglur oddi wrth Lywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol. Trefnwyd bod cyfarwyddyd newydd ar gyfer ysgolion ar gael: cyhoeddwyd 'Grant Amddifadedd Disgyblion: canllaw byr i Ymarferwyr' yn Rhagfyr 2013, a chyhoeddwyd 'Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol' ym Mawrth 2015.[39]

6.18 Amlygodd sawl ysgol bod y GAD wedi symbylu newidiadau yn eu dulliau o gasglu a defnyddio data monitro, ac mewn nifer fach o ysgolion cafwyd gwahaniaethau yn sut y defnyddiwyd data i gynllunio ymyriadau. Er enghraifft, esboniodd un ysgol eu bod wedi monitro disgyblion unigol bob amser, ond nid oeddent wedi monitro effaith ymyriadau penodol o'r blaen. Esboniodd ysgol arall nad oedd eu systemau monitro data blaenorol wedi tynnu sylw at ddisgyblion eFSM, felly nid oeddent wedi monitro cynnydd y grŵp hwn yn benodol hyd nes y cyflwynwyd y GAD. Mae'n amlwg bod dadansoddi data'n fanylach yn cael effaith: galluogwyd ysgolion i leoli enghreifftiau o lwyddiannau penodol yn fanwl, ac esboniodd nifer fach ohonynt fod ymyriadau wedi cael eu haddasu neu rhoddwyd y gorau iddynt o ganlyniad i adolygu data monitro.

6.19 Mae ysgolion yn defnyddio systemau data soffistigedig i ddilyn trywydd cynnydd disgyblion unigol yn erbyn targedau wedi'u cytuno. Mae systemau'n nodweddiadol yn dod o gyfnod cyn cyflwyno'r GAD ond defnyddir hwy nawr i ddilyn trywydd

[38] Mae Prevent yn rhan o strategaeth gwrth-derfysgaeth Llywodraeth y DU. Ei nod yw atal pobl rhag dyfod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

[39] http://dera.ioe.ac.uk/19051/1/131216-pdg-short-guidance-for-practitioners-en.pdf
http://gov.wales/docs/dcells/publications/150323-pdg-essential-guidance-en.pdf

cynnydd dysgwyr dan anfantais yn agosach. Amlygodd y systemau hyn ddangosyddion posibl sy’n gysylltiedig â’r perygl o ddisgyblion yn methu â chyflawni eu potensial llawn, fel eFSM, LAC (Plant mewn Gofal), EAL (Saesneg fel Iaith Ychwanegol), SEN (Anghenion Addysgol Arbennig) ac yn y blaen. Monitrwyd data ar gyfer cyrhaeddiad yn erbyn targedau ar draws ystod o bynciau, presenoldeb ac, mewn rhai achosion, ymddygiad. Adolygwyd y data hwn yn rheolaidd, fel rheol bob tymor neu hanner tymor. Yn aml, roedd y gwaith monitro’n ymwneud â chyfarfodydd athrawon dosbarth ac aelod o’r Uwch Dîm Arwain neu aelod o’r staff sy’n gyfrifol am anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig, er mwyn adolygu cynnydd bob disgybl a phennu’r cymorth ychwanegol addas ar gyfer bob un. Adroddodd y rhan fwyaf o ysgolion am gasglu mesurau o les a hunan-barch disgyblion yn ogystal â mesurau o bresenoldeb a chyrhaeddiad. Er enghraifft, adroddodd llawer ohonynt am ddefnyddio Asesiadau Boxall, neu’r arolwg Agweddau Disgyblion tuag atynt eu Hunain a’r Ysgol (PASS).

6.20 Mae rhai ysgolion yn cydnabod eu bod yn defnyddio data a thystiolaeth yn fwy wrth gynllunio gwariant GAD nag yr oeddent yn y gorffennol. Roedd ysgolion a fu’n gyfrannog mewn astudiaethau achos diweddarach yn gwybod, fel rheol, am Becyn Offer y Sutton Trust [40], yn aml trwy eu consortia rhanbarthol. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yr astudiaeth achos yn dal i beidio â defnyddio’r Pecyn Offer, roedd nifer fach ohonynt yn ystyried ei fod yn ddefnyddiol ‘fel canllaw’, neu i symbylu gwelliant yn ansawdd arfer addysgu. Parhaodd pennaeth un ysgol roeddem wedi ymweld â hi o’r blaen i ddisgrifio ei ysgol fel ‘ysgol gweithredu ymchwil’ gyda phwyslais mawr ar fonitro effaith eu gweithgareddau, dysgu gan ysgolion eraill, dysgu o arsylwi ar wersi ei gilydd, a defnyddio data allanol o ymchwil gyhoeddedig. Cyflogodd ysgol arall ymgynghorwr allanol er mwyn deall yn well sut gallai’r ysgol helpu i symud plant ymlaen, ac wedyn bu iddynt hyfforddi athrawon mewn arferion penodol a ddylai fod o gymorth.

> ‘[Roeddem] wedi edrych yn y Pecyn Offer y Sutton Trust am syniadau, yn enwedig y rheiny sy’n cyflenwi mwy am fuddsoddiad bach i’w gosod o fewn neu o gwmpas eu prif ymyriad. Nid yw’r pecyn offer yn canolbwyntio ar yr ymyriadau bach, ond yn hytrach ar y darlun ehangach. Mae’n ffocysu ar fod â chynlluniau da yn eu lle er mwyn cael effaith bositif gyffredinol ar ddisgyblion difreintiedig. Nid

[40] Mae The Sutton Trust-EEF Teaching and Learning Toolkit yn grynodeb o ymchwil addysgol sy’n darparu canllaw ar gyfer athrawon ac ysgolion ynghylch sut i ddefnyddio eu hadnoddau i wella cyrhaeddiad disgyblion dan anfantais. Anogir ysgolion i gyfeirio at a defnyddio’r dystiolaeth yn y Pecyn Offer wrth gynllunio sut i wario eu harian PDG.


yw'r ysgol mewn gwirionedd wedi defnyddio Pecyn Offer y Sutton Trust wrth gynllunio sut i wario'r grant GAD, oherwydd mae'n anodd defnyddio'r GAD ar ymyriadau Pecyn Offer y Sutton Trust.' (Pennaeth, Ysgol Uwchradd)

**Cynaliadwyedd ymyriadau a ariennir gan y GAD**

6.21 Gofynnwyd i ysgolion a fyddent yn gallu parhau i gyflenwi eu hymyriad ar yr un raddfa, ar raddfa lai, neu ddim o gwbl pe cwtogwyd ar ariannu'r GAD. Ar adeg yr arolwg yn 2014 adroddwyd nad ellid parhau â thraean o'r ymyriadau (32% o ymyriadau cynradd ac uwchradd fel ei gilydd) pe cwtogwyd ar ariannu'r GAD. Roedd hyn gryn dipyn yn uwch ymhlith ysgolion gyda chyfran fawr o ddisgyblion eFSM (38%). Roedd rhai o ysgolion yr astudiaeth achos yn cydweld â'r syniad hwn hefyd:

> "Ni allem wneud heb [y GAD]. Ni fyddem yn gallu gwneud unrhyw ran o'n gwaith ymyrryd. Ni fyddem yn gallu talu am y staff na'r adnoddau i'w wneud, a fyddai'n golygu yn y pen draw na fyddai'r plant hynny'n gallu cael y cyfleoedd bywyd hynny."

**Ffigwr 6.2 Cynaliadwyedd ymyriadau a ariennir gan y GAD**




Sylfaen: 578 o ymyriadau ar draws 201 o ysgolion a arolygwyd (344 ymyriad cynradd, 243 ymyriad uwchradd), Chwefror- Ebrill 2014.
Cwestiwn: *Pe cwtogwyd ar ariannu'r GAD, a fyddech yn gallu ...?*

6.22 Pan holasom am gynaliadwyedd ymyriadau a ariennir gan y GAD yn yr arolwg yn 2014, credwyd bod 16% o ymyriadau cynradd a 14% o ymyriadau uwchradd yn gynaliadwy ar yr un raddfa ag yr oeddent yn cael eu cyflenwi, a byddai angen i dros hanner yr ymyriadau gael eu cyflenwi ar raddfa lai (51% o ymyriadau cynradd a 53% o ymyriadau uwchradd). Dylid nodi hefyd y cynhaliwyd yr arolwg ar yr union adeg pryd cynyddodd lefel ariannu GAD o £450 i £918 y disgybl, er ei fod cyn y codiad pellach dilynol i £1,050 y disgybl.

6.23 Dylid ystyried y ffaith bod oddeutu dwy ran o dair o'r gweithgarwch yn cael ei weld fel rhywbeth cynaliadwy i ryw raddau pe bai'r GAD yn cael ei dorri yng ngolau'r swm sylweddol o ariannu atodol mae ysgolion yn ei ddarparu ar hyn o bryd. Fel y cyfryw, mae'n anodd dehongli i ba raddau y mae ysgolion wedi datblygu gweithgareddau sy'n hunangynhaliol - er enghraifft, oherwydd bod staff yn cael eu hyfforddi nawr mewn dulliau newydd o addysgu neu o fentora, mae adnoddau ar gael, neu systemau yn eu lle - yn erbyn y graddau i'r pa un y byddai dulliau eraill o ariannu'n parhau i gael eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'r arolwg a'r astudiaethau achos yn tueddu i awgrymu bod cryn dipyn o amser staff yn cael ei ariannu trwy ddefnyddio'r GAD, a byddai angen dull ariannu cyfredol er mwyn cynnal yr un lefel o weithgarwch. Yn ôl data arolwg 2014, cyflenwir 46% o ymyriadau cynradd a 50% o ymyriadau uwchradd gan staff sydd wedi'u recriwtio'n benodol i gyflenwi'r ymyriad. Mae tystiolaeth o'r ymweliadau astudiaethau achos diweddaraf yn cefnogi'r canfyddiadau hyn: ym mron i bob ysgol yr astudiaeth achos defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r arian ar staffio. Er enghraifft, mewn un ysgol gwariwyd ei holl ddyraniad GAD (£90,000) ar staffio, yn bennaf ar ystod o rolau TA er mwyn cyflenwi ceinciau penodol o weithgarwch. Mewn ysgolion eraill defnyddiwyd y dyraniad GAD i gyflogi athrawon ychwanegol, yn enwedig mewn Saesneg a Mathemateg, er mwyn darparu cymorth dal-i-fyny yn ystod oriau wedi'u hamserlennu, yn ogystal â hyfforddiant gyda'r nos ac ar y penwythnos. Mae'r astudiaeth achos hefyd yn amlygu fod ysgolion yn cronni arian o grantiau amrywiol gydag amcanion tebyg er mwyn cymorthdalu ymyriadau, ac yn/neu'n talu'n rhannol am ymyriadau o gyllideb gyffredinol yr ysgol. Er enghraifft, siaradodd nifer o ysgolion am gronni'r EIG a'r GAD er mwyn gwella effaith y ddau grant, gyda'r EIG yn cael ei ddefnyddio i ariannu ymyriadau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn FSM yn ogystal â disgyblion eFSM, er mwyn i'r GAD allu cael ei ddefnyddio i ariannu mentrau eraill.

6.24 Fodd bynnag, yn erbyn hyn gosodir buddsoddiad pwysig mewn hyfforddi staff. Pennir cynaliadwyedd hyn gan ehangder y raddfa o roi'r hyfforddiant ar waith. Pan hyfforddir unigolion i arbenigo mewn strategaeth benodol, mae'r buddsoddiad yn dibynnu ar gadw'r unigolion hyn. Mae enghreifftiau o hyn o ysgolion yr astudiaeth achos yn cynnwys darparu hyfforddiant arbenigol mewn dyslecsia i un aelod o'r staff a HLTA'n derbyn hyfforddiant gan y gwasanaethau Seicoleg Addysg lleol i gyflenwi ymyriad lles penodol. Os yw'r staff hyn yn gadael yr ysgol, mae eu gwybodaeth arbenigol yn gadael gyda hwy. Ar y llaw arall, gall hyfforddiant a gyflenwir fel strategaeth ysgol gyfan arwain at welliant cynaliadwy yn ansawdd arferion addysgu. Er enghraifft, roedd un ysgol yr astudiaeth achos wedi gweithredu agwedd ysgol gyfan a chlwstwr tuag at wella safonau llythrennedd a rhifedd - fel strategaeth hirdymor, ni roddodd yr ymyriad hwn hwb i ganlyniadau ar unwaith. Fodd bynnag, adroddwyd bod y gwelliannau disgwyliedig yn dechrau dod i'r amlwg ar ôl i garfan lawn fynd drwy'r ysgol dan y system hon.

6.25 Hefyd, mae data'r arolwg yn dangos bod dros hanner yr ymyriadau a ariannwyd gan y GAD wedi golygu buddsoddi mewn adnoddau a deunyddiau. Yn fwyaf cyffredin, roedd buddsoddiadau mewn deunyddiau'n cwmpasu llyfrau; adnoddau a deunyddiau addysgu; ac adnoddau TG ac ar-lein. Nododd un pennaeth, fodd bynnag, fod anarferiant cyflym technoleg yn golygu nad oedd buddsoddi mewn TG bob amser yn gynaliadwy.

# 7. Dadansoddiad effaith

## Rhagarweiniad

7.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn archwilio effaith bosibl y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) ar ddeilliannau addysgol. Yn benodol, rydym yn ymdrin â gwahaniaethau yn neilliannau addysgol disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM) yn erbyn disgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (anghymwys i dderbyn FSM) cyn y cyflwynwyd y GAD ac ar ôl i'r GAD gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, trwy'r holl ddadansoddiad rydym hefyd yn bwriadu adrodd am newidiadau mewn deilliannau addysgol cyffredinol, oherwydd mae angen gweld p'un ai yw unrhyw gulhau yn y bwlch deilliannau rhwng disgyblion eFSM a rhai sy'n anghymwys i dderbyn FSM yn ganlyniad gwelliannau cymharol fwy mewn deilliannau ar gyfer disgyblion eFSM neu'n ostyngiad cymharol yn neilliannau addysgol disgyblion sy'n anghymwys i dderbyn FSM.

7.2 Wrth asesu effaith bosibl y Grant Amddifadedd Disgyblion, defnyddiwn ystod eang o ddeilliannau addysgol gwahanol (Tabl 1). Mae'r dadansoddiad yn dechrau gydag effaith bosibl y GAD ar bresenoldeb yn/absenoldeb o'r ysgol. Wedyn, mae'n edrych ar fesurau cyrhaeddiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 mlwydd oed) a chyrhaeddiad TGAU ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (15 mlwydd oed). Yn olaf, mae hefyd yn ystyried y cynnydd cymharol a wnaethpwyd mewn asesu disgyblion rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4.

7.3 Er mwyn nodi effaith bosibl y GAD rydym yn ymdrin yn bennaf â deilliannau addysgol disgyblion eFSM cyn ac ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Gan y cyflwynwyd y GAD yn ystod 2012/13, golyga hyn y gallwn gymharu'r deilliannau addysgol yn 2010/11 a 2011/12 gyda 2012/13, 2013/14 a 2014/15 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae deilliannau addysgol ar gael ar ei chyfer ar hyn o bryd wrth wneud y dadansoddiad). Oherwydd bod pob ysgol sydd â disgybl sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn derbyn y Grant, a chan fod maint y grant yr un peth ar gyfer bob disgybl eFSM, nid oes unrhyw grŵp 'cymharu' o ysgolion (ac oherwydd hyn o ddisgyblion) sydd â disgyblion eFSM ond na dderbyniodd y Grant. Yn lle hynny, y prif ddull dadansoddol o fynd ati yw cymharu cyflawniad cymharol disgyblion eFSM yn erbyn disgyblion sy'n anghymwys i dderbyn FSM – y gallai llawer ohonynt fod yn yr un ysgolion â disgyblion eFSM. Felly, yr hyn a gyflwynir yma yw cymhariaeth genedlaethol dros amser – h.y. effaith bosibl y GAD ar draws

yr holl sector addysg a gynhelir yng Nghymru. Nid yw'n darparu dadansoddiad o effaith y GAD ym mhob ysgol.

**Tabl 7.1 Mesurau o ddeilliannau addysgol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presenoldeb** | | | |
| | % o sesiynau ½ diwrnod gydag absenoldeb wedi'i awdurdodi | % o sesiynau ½ diwrnod gydag absenoldeb diawdurdod | |
| **Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2** | | | |
| *Cyflawni Lefel 4* | Mathemateg | *Cyflawni Lefel 5* | Mathemateg |
| | Saesneg/Cymraeg | | Saesneg/Cymraeg |
| | Gwyddoniaeth | | Gwyddoniaeth |
| | Dangosydd Pwnc Craidd* | | Dangosydd Pwnc Craidd* |
| **Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4** | | | |
| *Graddau A* | TGAU Mathemateg | *Graddau C neu'n uwch* | TGAU Mathemateg |
| | TGAU Saesneg/Cymraeg | | TGAU Saesneg/Cymraeg |
| | TGAU Gwyddoniaeth | | TGAU Gwyddoniaeth |
| | TGAU Mathemateg, Gwyddoniaeth *a* Saesneg/Chymraeg | | C+ mewn TGAU Mathemateg, Gwyddoniaeth *a* Saesneg/Chymraeg |
| | 3 Gradd A – unrhyw bwnc TGAU | *Pwyntiau TGAU* | Wedi'u capio i'r wyth gradd TGAU gorau |
| | | *Lefel 2 (cynhwysol)* | TGAU Gradd C (neu gyfwerth) mewn Saesneg/Cymraeg *a* Mathemateg |
| **Cynnydd CA2-CAS4** | | Iaith (h.y. Saesneg neu Gymraeg) | |
| | Mathemateg | Gwyddoniaeth | |

* Mae Dangosydd Pwnc Craidd yn cynnwys Mathemateg, Saesneg/Cymraeg a Gwyddoniaeth. Mae'r dangosydd yn mesur canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu uwch mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Saesneg/Cymraeg.

7.4 Mae hyn yn tybio'n ogystal fod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithio ar ddisgyblion eFSM yn unig ym mhob ysgol, y mae ein dadansoddiad uchod yn dangos nad yw bob amser yn wir, oherwydd ceir rhai achosion o ddisgyblion sy'n anghymwys i dderbyn FSM yn derbyn cymorth a ariannwyd gan GAD. Er gwaethaf hyn, prif amcan y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella deilliannau disgyblion

eFSM a thrwy hyn leihau'r 'bwlch' rhwng deilliannau addysgol disgyblion eFSM a'r rhai sy'n anghymwys i dderbyn FSM - felly, dyna beth mae'r dadansoddiad hwn yn ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae arwahanu 'effaith' y GAD yn anhygoel o anodd ac mae'n dal i fod yn bosibl y gallai unrhyw leihad yn y 'bwlch' mewn deilliannau (mae'n well gennym ddefnyddio'r ymadrodd differyn canran (%)) dros y ddwy flynedd hyn fod o ganlyniad i effaith ymyriadau eraill neu welliannau cyffredinol yn y system addysgol.

7.5 Adroddodd yr adroddiad cyntaf a'r ail o'r gwerthusiad hwn (Pye *et al.* 2014 a 2015) am newidiadau yn y differyn % mewn deilliannau addysgol rhwng disgyblion eFSM a'r rhai sy'n anghymwys i dderbyn FSM cyn cyflwynwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion, h.y. rhwng 2010-11 a 2011-12. Dangosodd hyn fod y differyn % mewn deilliannau addysgol rhwng disgyblion eFSM a'r rhai sy'n anghymwys i dderbyn FSM eisoes yn gwella (h.y. roedd y 'bwlch' yn culhau) fymryn cyn y cyflwynwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'n bosibl bod hyn yn awgrymu y gallai unrhyw welliant yn neilliannau addysgol disgyblion eFSM o'i gymharu â'r rhai sy'n anghymwys i dderbyn FSM fod wedi digwydd heb gyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion (h.y. roedd taflwybr o welliant eisoes yn digwydd mewn ysgolion). Felly, mae'r dadansoddiad dilynol yn canolbwyntio ar ddau beth. Yn gyntaf, y gwahaniaeth cymharol mewn deilliannau addysgol cyn ac ar ôl cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion ac yn ail, graddfa'r gwelliant (neu i'r gwrthwyneb) ar ôl cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion o'i chymharu â graddfa'r gwelliant cyn ei gyflwyno.

7.6 Oherwydd hyn, seilir y dadansoddiad canlynol ar bum mlynedd o ddeilliannau addysgol yn 2011 (blwyddyn ysgol 2010/11), 2012 (2011/12), 2013 (2012/13), 2014 (2013/14) a 2015 (2014/15). Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o'r data o'r Gronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion (NPD) ar gyfer disgyblion unigol a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4 yn y bum mlynedd hynny. Yn nodweddiadol, mae hyn yn cynnwys cyflawniadau addysgol dros 30,000 o ddisgyblion ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol ac ym mhob blwyddyn. Mae Tabl 7.2 hefyd yn rhoi crynodeb o ddata presenoldeb disgyblion unigol. Mewn cyferbyniad â data asesu, mae hyn ar gael ar gyfer pob disgybl mewn pob grŵp blwyddyn (1,801,445 o ddisgyblion dros y bum mlynedd) (gweler Tabl 3 am ddadansoddiad manwl o'r niferoedd hyn fesul Grŵp Blwyddyn).

**Tabl 7.2 Nifer y disgyblion sydd ar gael ar gyfer dadansoddiadau o gyrhaeddiad addysgol fesul blwyddyn**

| Blwyddyn | Data cyrhaeddiad diwedd cyfnod | | Dyddiad presenoldeb |
|---|---|---|---|
| | CA2 | CA4 | |
| 2010/11 | 32,227 | 34,138 | 362,515 |
| 2011/12 | 31,675 | 33,510 | 360,547 |
| 2012/13 | 30,764 | 34,932 | 359,606 |
| 2013/14 | 31,543 | 33,490 | 359,449 |
| 2014/15 | 32,014 | 32,335 | 359,737 |
| CYFANSWM | 189,898 | 201,915 | 1,801,854 |

7.7 Mae'r dadansoddiad o ddeilliannau addysgol wedi ei strwythuro yn y ffordd ganlynol. Yn gyntaf, y lefelau cyffredinol o ddeilliannau addysgol a'r % gwahaniaethol rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM ar gyfer absenoliaeth, cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2 a chyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4. Yn olaf, yr archwiliad o ddylanwad amcangyfrifol bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim ar yr holl ddeilliannau hyn wedi rheoli ar gyfer nodweddion eraill sydd hefyd yn gysylltiedig gyda gwahaniaethau mewn deilliannau addysgol. Y ‘rheoliadau’ hyn yw:

- Rhyw (Benyw, Gwryw)
- Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig, Gwyn Arall, Cymysg, Asiaidd, Du, Arall)
- Cofnodwyd anghenion addysgol arbennig (Gweithredu, Gweithredu Mwy, Â Datganiad)
- Tymor geni (Hydref, Gaeaf, Gwanwyn, Haf)
- Y gyfran o fenywod yn nerbyniad yr ysgol
- Y gyfran o ddisgyblion Gwyn yn nerbyniad yr ysgol
- Y gyfran o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- Y gyfran o ddisgyblion gydag unrhyw anghenion addysgol arbennig cofnodedig

**Tabl 7.3. Nifer o ddisgyblion a ddefnyddir i ddadansoddi presenoldeb fesul Grŵp Blwyddyn**

| Blwyddyn Astudiaeth | Cam | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | CA1/CS | 32,783 | 33,202 | 34,014 | 35,492 | 34,628 | 170,119 |
| Blwyddyn 2 | CA1/CS | 32,099 | 32,863 | 33,228 | 34,025 | 35,591 | 167,806 |
| Blwyddyn 3 | CA2 | 31,512 | 32,055 | 32,854 | 33,265 | 34,067 | 163,753 |
| Blwyddyn 4 | CA2 | 30,813 | 31,527 | 32,013 | 32,925 | 33,286 | 160,564 |
| Blwyddyn 5 | CA2 | 31,766 | 30,858 | 31,496 | 32,038 | 32,957 | 159,115 |
| Blwyddyn 6 | CA2 | 32,318 | 31,773 | 30,782 | 31,590 | 32,045 | 158,508 |
| Blwyddyn 7 | CA3 | 33,111 | 31,988 | 31,427 | 30,475 | 31,263 | 158,264 |
| Blwyddyn 8 | CA3 | 34,123 | 33,096 | 31,981 | 31,413 | 30,452 | 161,065 |
| Blwyddyn 9 | CA3 | 35,430 | 34,078 | 32,962 | 31,910 | 31,332 | 165,712 |
| Blwyddyn 10 | CA4 | 34,290 | 35,451 | 34,024 | 32,913 | 31,841 | 168,519 |
| Blwyddyn 11 | CA4 | 34,163 | 33,555 | 34,763 | 33,337 | 32,202 | 168,020 |
| CYFANSWM | | 362,408 | 360,446 | 359,544 | 359,383 | 359,664 | 1,801,445 |

7.8 Wrth archwilio'r ystod o ddeilliannau addysgol, bydd y dadansoddiad yn datblygu ‘darlun’ cyffredinol o effaith bosibl y GAD, yn hytrach na chanolbwyntio ar fesurau cyflawniad addysgol unigol.

**Presenoldeb**

7.9 Rydym yn parhau i weld gwelliant cyffredinol yn y gyfran o sesiynau hanner diwrnod gydag absenoldeb wedi ei gofnodi yn ystod y pum mlynedd (Tabl 7.4). Mae’r ganran o sesiynau gydag absenoldeb wedi gostwng o 7.6% yn 2011 i 5.5% yn 2015. Mae'r gwelliant yma wedi digwydd ar gyfer disgyblion eFSM ac nad ydynt yn eFSM. Er bod y ‘bwlch’ rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn ymddangos i fod wedi lleihau gydag amser (h.y. y gwahaniaeth pwynt % rhwng y ddau grŵp) mae'r gwahaniaeth cymharol rhwng y ddau grŵp wedi bod yn weddol gyson yn ystod y pedair blynedd diwethaf (h.y. y % gwahaniaethol) ac mewn gwirionedd mae'n fwy yn 2015 nag yr oedd yn 2011.

**Tabl 7.4. Absenoldeb fesul blwyddyn (pob oed)**

| Blwyddyn | % o sesiynau gydag absenoldeb | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | Gwahaniaeth pwynt % | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *7.6* | 6.8 | 11.2 | 4.4 | 65.6% |
| 2012 | *7.0* | 6.1 | 10.4 | 4.2 | 69.0% |
| 2013 | *6.8* | 6.0 | 10.1 | 4.1 | 67.2% |
| 2014 | *5.7* | 5.0 | 8.8 | 3.7 | 74.4% |
| 2015 | *5.5* | 4.9 | 8.4 | 3.5 | 71.4% |

7.10 Mae hyn wedi ei gadarnhau yn Nhabl 7.5 sy'n dangos y cynnydd ym mhresenoldeb disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM dros gyfnod o amser. Mae hyn yn dangos rhwng 2011 a 2015 fod cyfradd y lleihad yn y gyfran o sesiynau gydag absenoldeb ymysg disgyblion nad ydynt yn FSM ychydig yn fwy nag yr oedd ar gyfer disgyblion eFSM (lleihad o 27.6% mewn diffyg presenoldeb ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM o gymharu â lleihad o 25.0% ar gyfer disgyblion eFSM). Mae hefyd yn werth nodi fod y gyfradd gwelliant mewn presenoldeb wedi amrywio yn ystod y cyfnod o bum mlynedd. Er bod ffigurau presennol cyffredinol yn parhau i wella, roedd y gyfradd o welliant rhwng 2014 a 2015 yr isaf yn y cyfnod o bum mlynedd.

7.11 Byddai'r dadansoddiad yma'n awgrymu fod presenoldeb wedi gwella yn gyffredinol pob blwyddyn (cyn ac wedi cyflwyno'r GAD) ac wedi gwella ar gyfer disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM ar yr un gyfradd. Er ei bod yn bosibl fod GAD yn cael rhywfaint o effaith ar bresenoldeb cyffredinol (e.e. o ran atal y bwlch rhag ehangu ymhellach), ymddengys fod polisïau ac arferion eraill a fabwysiadwyd i wella presenoldeb yn cael mwy o effaith. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r polisi presenoldeb ers 2011, cyhoeddwyd y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan; a rhoddwyd y grant presenoldeb i gonsortia rhwng 2013-2015.

**Tabl 7.5. Newid mewn cyfran o sesiynau gydag absenoldeb (pob oed)**

| | 2011-2015 | 2011-2012 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|
| *Oll* | *-27.9%* | *-8.8%* | *-15.7%* | *-4.3%* |
| Dim FSM | -27.6% | -9.1% | -16.5% | -2.8% |
| FSM | -25.0% | -7.2% | -12.9% | -4.4% |

7.12 Mewn cyferbyniad, fe ymddengys y gallai'r GAD fod yn cael effaith bwysig ar absenoldeb heb awdurdod. Mae hyn wedi gwella'n arwyddocaol ar gyfer disgyblion eFSM rhwng 2011 a 2015. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r gyfradd o absenoldeb heb awdurdod ymysg disgyblion nad ydynt yn FSM wedi parhau i fod yn weddol gyson (Tabl 7.6 a Thabl 7.7). Er bod y gyfradd o welliant ar gyfer disgyblion eFSM wedi arafu, efallai y gellid disgwyl hyn pan fydd lefelau cyffredinol o absenoldeb (wedi awdurdodi a heb ei awdurdodi) wedi gostwng yn sylweddol yn y cyfnod amser hwn.

7.13 Y trydydd mesur o absenoldeb a ystyrir yma yw absenoldeb cyson. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r ddau fesur arall gan mai dyma'r nifer (a'r gyfran) o ddisgyblion a oedd yn absennol ar gyfer o leiaf 20% o'r sesiynau hanner diwrnod yn ystod y flwyddyn academaidd[41].

**Tabl 7.6 Absenoldeb heb awdurdod fesul blwyddyn (pob oed)**

| **Blwyddyn** | **% o sesiynau gydag absenoldeb heb awdurdod** | | | **Bwlch FSM / Dim FSM** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Oll*** | **Dim FSM** | **FSM** | **Gwahaniaeth pwynt %** | **% Gwahaniaethol** |
| 2011 | *1.2* | 0.8 | 2.8 | 2.0 | 249.3% |
| 2012 | *1.0* | 0.7 | 2.5 | 1.8 | 250.2% |
| 2013 | *1.1* | 0.7 | 2.5 | 1.7 | 239.5% |
| 2014 | *1.1* | 0.8 | 2.4 | 1.5 | 187.2% |
| 2015 | *1.1* | 0.8 | 2.3 | 1.5 | 187.5% |

[41] “Ar gyfer 2013-14 mae hyn yn golygu fod disgyblion sy’n absennol yn gyson mewn ysgolion uwchradd wedi colli o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod” (Llywodraeth Cymru 2014:16).

**Tabl 7.7 Newid mewn cyfran o sesiynau gydag absenoldeb heb awdurdod (pob oed)**

| | 2011-2015 | 2011-2012 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| *Oll* | *-6.3%* | *-10.6%* | *5.8%* | *-1.7%* |
| Dim FSM | 1.3% | -10.1% | 14.3% | -3.2% |
| FSM | -16.6% | -9.8% | -3.3% | -3.1% |

7.14 Mae'r gwahaniaeth yn y gyfran o ddisgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM gydag absenoldeb cyson yn fawr iawn – yn 2015 roedd disgyblion eFSM bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson na disgyblion nad ydynt yn FSM. Dengys Tabl 8 fod y gyfran o ddisgyblion eFSM sy’n absennol yn gyson wedi gostwng pob blwyddyn rhwng 2011 a 2015. Fodd bynnag, mae'r gyfradd welliant ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM wedi bod yn fwy na'r gyfradd ar gyfer disgyblion eFSM (gweler Tabl 7.9). O ganlyniad, mae'r gwahaniaeth canrannol rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu mewn gwirionedd rhwng 2011 a 2015 – h.y. mae'r bwlch wedi lledaenu'n anghymesur (gweler Tabl 7.8). Yn y flwyddyn ddiwethaf (h.y. rhwng 2014 a 2015) roedd y gyfradd gwelliant ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM yn sylweddol fwy nag ar gyfer disgyblion eFSM (-12.4% o gymharu â -8.5% yn y drefn honno).

**Tabl 7.8 Absenoldeb cyson fesul blwyddyn (pob oed)**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion gydag absenoldeb cyson | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | Gwahaniaeth pwynt % | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *6.8* | 4.7 | 15.6 | 10.9 | 232.8% |
| 2012 | *5.9* | 4.0 | 13.8 | 9.8 | 247.7% |
| 2013 | *5.2* | 3.4 | 12.8 | 9.4 | 277.2% |
| 2014 | *4.1* | 2.6 | 10.5 | 7.9 | 299.5% |
| 2015 | *3.7* | 2.3 | 9.6 | 7.3 | 317.4% |

**Tabl 7.9 Newid yn y gyfran o ddisgyblion gydag absenoldeb cyson**

| | 2011-2015 | 2011-2012 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|
| *Oll* | *-45.9%* | *-14.2%* | *-21.2%* | *-10.5%* |
| Dim FSM | -51.0% | -15.4% | -22.8% | -12.4% |
| FSM | -38.5% | -11.6% | -18.2% | -8.5% |

7.15 Cafwyd gwelliant arwyddocaol yn y lefelau o absenoldeb cyson yng Nghymru ar gyfer pob disgybl, yn cynnwys disgyblion eFSM, yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, ac o ystyried y materion a nodwyd yn gynharach o ran ynysu effaith y GAD, efallai fod y canlyniadau yma yn awgrymu fod polisïau eraill i wella presenoldeb hefyd yn cael effaith yn hytrach na dim ond y GAD.

**Cyflawniad Cyfnod Allweddol 2**

7.16 Mae tablau 7.10 i 7.13 yn cynrychioli'r gyfran o ddisgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig (Lefel 4 neu uwch) yn ystod Cyfnod Allweddol 2 mewn Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, Gwyddoniaeth a'r tri phwnc craidd yn ôl eu trefn.

7.17 Ym mhob un o'r tri phwnc, mae'r ‘bwlch’ cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y cyfnod o bum mlynedd (gweler hefyd Ffigwr 7.1). Yn bwysig iawn, mae hyn wedi cyd-fynd â gwelliant cyffredinol yn y gyfran o ddisgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Sy'n golygu fod y gyfradd welliant ymysg disgyblion eFSM wedi bod yn fwy nag oedd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM. Mae hyn i'w weld yn glir yn Nhabl 7.14 trwy gymharu disgyblion eFSM a rhai nad ydynt yn FSM rhwng 2011 a 2015.

7.18 Fel y dengys Ffigwr 7.1, ac fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd y ‘bwlch’ cyrhaeddiad yn ystod CA2 rhwng disgyblion eFSM a rhai nad ydynt yn FSM yn cau cyn cyflwyno'r GAD yn 2012-13. Beth sydd fwyaf arwyddocaol i'r dadansoddiad newydd hwn yw'r gyfradd welliant yn y flwyddyn ddiwethaf (h.y. rhwng 2014 a 2015). Dengys Tabl 7.14 fod y gyfradd welliant ar gyfer disgyblion eFSM wedi cynyddu'n nodedig yn y flwyddyn ddiwethaf hon, ac ar gyfradd uwch na rhwng 2013 a 2014. Gallai hyn awgrymu fod gwelliannau yng nghyrhaeddiad CA2 disgyblion eFSM yn dechrau cyflymu.

**Tabl 7.10 Cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 Mathemateg**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 4 neu uwch | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Oll*** | **Dim FSM** | **FSM** | **Gwahaniaeth pwynt %** | **% Gwahaniaethol** |
| 2011 | *85.7* | 89.1 | 71.9 | -17.2 | -19.3% |
| 2012 | *87.6* | 90.7 | 74.7 | -16.0 | -17.7% |
| 2013 | *88.4* | 91.3 | 76.6 | -14.7 | -16.1% |
| 2014 | *89.8* | 92.5 | 78.4 | -14.1 | -15.3% |
| 2015 | *91.0* | 93.4 | 80.9 | -12.5 | -13.4% |

**Tabl 7.11 Cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 Saesneg neu Gymraeg**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 4 neu uwch | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Oll*** | **Dim FSM** | **FSM** | **Gwahaniaeth pwynt %** | **% Gwahaniaethol** |
| 2011 | *84.5* | 88.2 | 69.6 | -18.6 | -21.1% |
| 2012 | *86.4* | 89.9 | 72.0 | -17.8 | -19.9% |
| 2013 | *88.3* | 91.4 | 75.8 | -15.5 | -17.0% |
| 2014 | *89.6* | 92.5 | 77.0 | -15.5 | -16.7% |
| 2015 | *90.7* | 93.3 | 79.6 | -13.7 | -14.7% |


**Tabl 7.12 Cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 Gwyddoniaeth**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 4 neu uwch | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Oll*** | **Dim FSM** | **FSM** | **Gwahaniaeth pwynt %** | **% Gwahaniaethol** |
| 2011 | *88.0* | 91.3 | 74.8 | -16.4 | -18.0% |
| 2012 | *89.5* | 92.5 | 77.1 | -15.3 | -16.6% |
| 2013 | *90.7* | 93.4 | 79.8 | -13.6 | -14.6% |
| 2014 | *91.3* | 93.9 | 80.0 | -13.9 | -14.8% |
| 2015 | *92.3* | 94.6 | 82.5 | -12.1 | -12.8% |

**Tabl 7.13 Cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 Mathemateg, Saesneg/Cymraeg a Gwyddoniaeth**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 4 neu uwch | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Oll*** | **Dim FSM** | **FSM** | **Gwahaniaeth pwynt %** | **% Gwahaniaethol** |
| 2011 | *80.9* | 85.0 | 64.5 | -20.4 | -24.0% |
| 2012 | *83.5* | 87.4 | 67.7 | -19.6 | -22.5% |
| 2013 | *85.4* | 88.8 | 71.2 | -17.6 | -19.8% |
| 2014 | *87.1* | 90.4 | 73.2 | -17.2 | -19.1% |
| 2015 | *88.7* | 91.5 | 76.4 | -15.1 | -16.5% |

**Ffigwr 7.1 Cyflawniad cymharol disgyblion eFSM o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM fesul pwnc CA2**




**Tabl 7.14 Newid yn y gyfran o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 4 neu uwch yn ystod CA2**

| | | 2011-2015 | 2011-2012 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Mathemateg* | | | | | |
| | Dim FSM | 4.8% | 1.8% | 1.3% | 1.0% |
| | FSM | 12.6% | 4.0% | 2.3% | 3.2% |
| *Saesneg/Cymraeg* | | | | | |
| | Dim FSM | 5.8% | 1.9% | 1.2% | 0.8% |
| | FSM | 14.3% | 3.4% | 1.6% | 3.3% |
| *Gwyddoniaeth* | | | | | |
| | Dim FSM | 3.6% | 1.3% | 0.6% | 0.7% |
| | FSM | 10.2% | 3.0% | 0.4% | 3.1% |
| *Pob un o'r tri phwnc craidd* | | | | | |
| | Dim FSM | 7.7% | 2.8% | 1.8% | 1.2% |
| | FSM | 18.4% | 5.0% | 2.7% | 4.4% |

**Cyflawniad Cyfnod Allweddol 4**

7.19 Mae Tablau 7.15 i 7.17 yn amlinellu'r ganran o ddisgyblion yn cyflawni graddau TGAU o C neu uwch mewn Mathemateg, Saesneg (neu Gymraeg) a Gwyddoniaeth. Mae Tabl 7.18 yn darparu ffigurau cyfatebol ar gyfer disgyblion yn cyflawni graddau C neu uwch ym mhob un o'r tri phwnc craidd.

7.20 Fel y dangoswyd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r ‘bwlch’ cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn y tri phwnc TGAU ‘craidd’ wedi culhau gydag amser. Dengys ffigurau ar gyfer 2015 fod y tuedd yma'n parhau. Maent hefyd yn dangos fod y gyfradd uwch o welliant yng nghyrhaeddiad disgyblion eFSM wedi parhau ar gyfradd uwch wedi cyflwyno'r GAD nag yr oedd cyn ei gyflwyno. Mae hyn wedi ei arddangos orau yn Ffigwr 7.2, sy'n dangos newid amlwg gweladwy yn y lleihad o'r ‘bwlch’ ym mhob un o'r tri phwnc.

7.21 Dangosodd yr adroddiad gwerthusiad blaenorol (Pye *et al.* 2015) welliant arwyddocaol yn y gyfran o ddisgyblion eFSM yn cyflawni gradd C neu uwch mewn Gwyddoniaeth TGAU. Yn yr adroddiad hwn, gyda data ar gyfer 2015, gellir nawr gweld gwelliant cyfatebol mewn Mathemateg (Tabl 7.15) a Saesneg/Cymraeg (Tabl 7.16). Mae hyn hefyd i'w weld yn glir yn Nhabl 19. Mae'r data yma hefyd yn dangos er bod y ‘bwlch’ cyrhaeddiad mewn Gwyddoniaeth yn parhau i leihau, mae'r gyfradd welliant mewn Gwyddoniaeth TGAU a welwyd rhwng 2013 a 2014 ac a adroddwyd yn yr adroddiad blaenorol wedi arafu'n sylweddol. Mae'r ‘bwlch’ cyrhaeddiad yn dal i leihau fodd bynnag, gan fod y gyfradd welliant ar gyfer disgyblion eFSM yn dal i fod yn fwy nag yw ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM.

7.22 Er bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn parhau i fod yn ystyfnig o fawr ar ddiwedd CA2, mae yna dystiolaeth fod hyn yn dechrau gwella a bod llawer o'r gwelliant yma yn ymddangos i fod wedi digwydd yn dilyn cyflwyno'r GAD.

**Tabl 7.14 Cyflawni TGAU Mathemateg Gradd C neu uwch**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion yn cyflawni Gradd C neu uwch | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | Gwahaniaeth pwynt % | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *60.2* | 64.7 | 33.5 | -31.2 | -48.2% |
| 2012 | *61.5* | 65.8 | 35.2 | -30.7 | -46.6% |
| 2013 | *62.8* | 67.5 | 36.9 | -30.6 | -45.4% |
| 2014 | *64.3* | 69.1 | 37.6 | -31.4 | -45.5% |
| 2015 | *67.0* | 71.3 | 42.3 | -29.0 | -40.7% |

**Tabl 7.15 Cyflawni TGAU Saesneg neu Gymraeg Gradd C neu uwch**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion yn cyflawni Gradd C neu uwch | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | Gwahaniaeth pwynt % | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *68.1* | 72.4 | 41.8 | -30.6 | -42.2% |
| 2012 | *67.3* | 71.7 | 41.1 | -30.6 | -42.7% |
| 2013 | *67.4* | 72.1 | 41.6 | -30.5 | -42.3% |
| 2014 | *70.4* | 75.0 | 44.2 | -30.8 | -41.1% |
| 2015 | *73.0* | 77.2 | 50.0 | -27.2 | -35.2% |


**Tabl 7.16 Cyflawni TGAU Gwyddoniaeth Gradd C neu uwch**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion yn cyflawni Gradd C neu uwch | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | Gwahaniaeth pwynt % | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *68.5* | 72.9 | 40.8 | -32.1 | -44.1% |
| 2012 | *69.9* | 73.9 | 43.1 | -30.8 | -41.7% |
| 2013 | *67.1* | 70.9 | 40.3 | -30.6 | -43.2% |
| 2014 | *71.1* | 74.1 | 47.5 | -26.6 | -35.9% |
| 2015 | *72.8* | 75.7 | 49.2 | -26.5 | -35.0% |

**Tabl 7.17 Cyflawni Gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg, Saesneg/Cymraeg *a* Gwyddoniaeth**

| Blwyddyn | % o ddisgyblion yn cyflawni Gradd C neu uwch | | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | Gwahaniaeth pwynt % | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *56.2* | 60.3 | 28.3 | -32.1 | -53.2% |
| 2012 | *57.5* | 61.5 | 29.6 | -31.9 | -51.8% |
| 2013 | *59.9* | 63.5 | 33.2 | -30.3 | -47.7% |
| 2014 | *65.1* | 68.1 | 40.4 | -27.7 | -40.7% |
| 2015 | *67.6* | 70.5 | 43.4 | -29.8 | -38.4% |

**Ffigwr 7.2 Cyflawniad cymharol disgyblion eFSM o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM yn cyflawni gradd C neu uwch fesul pwnc TGAU**




**Tabl 7.18 Newid cymharol yn y gyfran o ddisgyblion yn cyflawni Graddau C neu uwch mewn pynciau TGAU 'craidd'**

| Pwnc TGAU | | 2011-2015 | 2011-2012 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Mathemateg* | | | | | |
| | Dim FSM | 10.3% | 1.8% | 2.3% | 3.2% |
| | FSM | 26.3% | 5.0% | 1.9% | 12.5% |
| *Saesneg/Cymraeg* | | | | | |
| | Dim FSM | 6.6% | -1.0% | 4.0% | 3.0% |
| | FSM | 19.5% | -1.8% | 6.2% | 13.2% |
| *Gwyddoniaeth* | | | | | |
| | Dim FSM | 3.8% | 1.3% | 4.5% | 2.2% |
| | FSM | 20.7% | 5.8% | 17.8% | 3.6% |
| *Pob un o'r tri phwnc 'craidd'* | | | | | |
| | Dim FSM | 16.9% | 1.9% | 7.2% | 3.5% |
| | FSM | 53.6% | 4.8% | 21.5% | 7.4% |

7.23 Mae'r gyfran o ddisgyblion FSM yn cyflawni'r trothwy Lefel 2 (cynhwysol) (h.y. yn cyflawni gradd C neu uwch mewn TGAU – neu gyfatebol – mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg) wedi codi'n arwyddocaol o 22.0% yn 2011 i

31.8% yn 2015 (Tabl 20). Fodd bynnag, mae lefel debyg o welliant hefyd wedi digwydd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM, ac felly mae'r gwahaniaeth pwynt canrannol rhwng y ddau grŵp wedi parhau'n weddol sefydlog. Ond yna yn nhermau'r gyfradd welliant (fel y mesurwyd gan y ganran wahaniaethol) gallwn weld fod y gyfran o ddisgyblion FSM yn cyflawni'r mesur Lefel 2 (cynhwysol) wedi cynyddu ar gyfradd gyflymach na disgyblion nad ydynt yn FSM, gan arwain at leihad cymharol yn y bwlch cyflawni. Mae hefyd yn werth nodi fod y gyfradd cynnydd wedi bod yn weddol gyson gydag amser – roedd y bwlch cyflawni yn lleihau ar yr un gyfradd cyn sefydlu'r GAD ac y mae wedi lleihau ers ei gyflwyno.

**Tabl 7.19 Cyflawni Lefel 2 (cynhwysol)**


| **Blwyddyn** | **% o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 2 (Cynhwysol)** | | | **Bwlch FSM / Dim FSM** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***Oll*** | **Dim FSM** | **FSM** | **Gwahaniaeth pwynt %** | **% Gwahaniaethol** |
| 2011 | 50.5% | 55.8% | 22.0% | -33.8 | -60.5% |
| 2012 | 51.6% | 56.7% | 23.4% | -33.3 | -58.8% |
| 2013 | 53.3% | 58.6% | 25.8% | -32.7 | -55.9% |
| 2014 | 56.3% | 61.7% | 27.9% | -33.8 | -54.8% |
| 2015 | 59.1% | 64.2% | 31.8% | -32.5 | -50.6% |

7.24 Hyd yma, mae'r dadansoddiad wedi ymwneud â chyflawni o leiaf gradd C (neu gyfatebol) yn y meysydd pwnc craidd. Yn gyffredinol, fe ystyrir fod hyn yn angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i addysg yn dilyn addysg orfodol ac ati. Fodd bynnag, mae'r GAD wedi ei gynllunio i “drechu'r rhwystrau atodol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu *llawn* [ein pwyslais ni] botensial.” (Llywodraeth Cymru 2015:3). Gellid dweud felly fod yna ganlyniad anfwriadol posibl o ffocysu ar y trothwy gradd C fod y gwerthusiad (a chyflawniad y GAD) yn anwybyddu'r effaith bosibl ar lefelau cyflawniad eraill (a allai fod yn uwch).

7.25 Mae Ffigwr 3 yn arddangos y ‘bwlch’ cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM wrth gyflawni graddau A neu A* mewn pynciau TGAU ‘craidd’. Mae hyn yn dangos fod y gwahaniaeth rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM ar y

lefel hon yn sylweddol fwy nac y mae ar gyfer cyflawni graddau C neu uwch (o gymharu â Ffigwr 2). Er enghraifft, yn 2015 cyflawnodd 20.7% o ddisgyblion nad ydynt yn FSM radd A/A* mewn TGAU Cymraeg/Saesneg o gymharu â 5.8% o ddisgyblion eFSM – mae disgyblion nad ydynt yn FSM bron i bedair gwaith yn fwy tebygol i gyflawni'r graddau uchaf na disgyblion eFSM. Fel y dengys Ffigwr 7.3 mae hyn yn amlwg wedi newid ers 2011. Mae'r darlun yn debyg ar gyfer TGAU Mathemateg. Fodd bynnag, ac yn fwy calonogol, mewn TGAU Gwyddoniaeth roedd nifer cyfatebol fwy o ddisgyblion eFSM wedi cyflawni graddau A/A* gydag amser. Yn bwysig, mae'r gyfradd welliant yn y graddau uchaf ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth wedi bod yn fwy ar gyfer disgyblion eFSM nag ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM pob blwyddyn rhwng 2011 a 2015. Mae hyn wedi arwain at gulhau'r bwlch cyrhaeddiad o ychydig yn y pwnc hwn ar y graddau uchaf, fel y gwelir yn Ffigwr 7.3. Fodd bynnag, dylid nodi i lawer o'r gwelliant yma ddigwydd rhwng 2012 a 2013, yn y flwyddyn gyntaf wedi cyflwyno'r GAD, a gallai fod wedi ei effeithio gan y nifer o ddisgyblion oedd yn cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth. Fel yr adroddwyd yn adroddiad Blwyddyn 2, roedd y nifer o ddisgyblion a gofrestrwyd ar gyfer Gwyddoniaeth BTEC wedi cynyddu. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer disgyblion eFSM. Fodd bynnag, yn 2016 cyflwynodd Llywodraeth Cymru derfyn ar werth cyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU o ran mesurau perfformiad. Mae hyn yn golygu y bydd gan unrhyw gymhwyster unigol lefel 1 neu lefel 2 uchafswm gwerth cyfatebol, o ran perfformiad, o ddau TGAU, ar gyfer pob mesur. Gallai hyn effeithio ar y nifer o ddisgyblion a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau amgen yn y dyfodol.

**Ffigwr 7.3 Cyflawniad cymharol disgyblion eFSM o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM yn cyflawni gradd A/A* fesul pwnc TGAU**





7.26 Os byddwn yn ystyried y canlyniadau hyn ar sail yr *holl* ddisgyblion yn dod i ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (p'un a oeddynt wedi eu cofrestru ar gyfer cymwysterau neu beidio) yn hytrach na dim ond eu cofrestru ar gyfer TGAU, fe welwn batrwm gwahanol iawn. Mae Ffigwr 7.4 yn dangos y cyflawniad gwahaniaethol o ran cyflawni gradd C neu uwch mewn TGAU Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM dros gyfnod o amser. Mae un mesur yn seiliedig ar yr oll ddisgyblion CA4 Blwyddyn 11 ac mae'r mesur arall yn seiliedig ar ddim ond y disgyblion Blwyddyn 11 hynny a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau TGAU. Fel y dangoswyd eisoes yn Ffigwr 2, ar sail y disgyblion hynny a gofrestrwyd mae'r 'bwlch' cyflawniad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn amlwg wedi lleihau yn ystod y cyfnod o bedair blynedd, ac yn arbennig o 2012-13 (pan gyflwynwyd y GAD). Tra bod ffigwr 7.4 yn dangos y cafwyd gwelliant cymedrol yn y 'bwlch' cyflawniad yn seiliedig ar bob disgybl CA4 Blwyddyn 11, nid yw hyn wedi bod cymaint â'r hyn sy'n seiliedig ar y rhai a gofrestrwyd ar gyfer TGAU yn unig (sail y dadansoddiad a ddefnyddiwyd uchod).

7.27 Esboniad posibl ynghylch y gwahaniaeth hwn yw'r gyfran gynyddol o ddisgyblion nad oedd yn cael eu cofrestru ar gyfer Gwyddoniaeth TGAU ar y pryd ac, yn

allweddol, y gyfran cymharol fwy o ddisgyblion eFSM nad oedd yn cael eu cofrestru ar gyfer Gwyddoniaeth TGAU. O'r pynciau craidd, Gwyddoniaeth yw'r pwnc ble gall disgyblion gyflawni cymhwyster gwahanol i TGAU. Y prif ddewisiadau amgen ar gyfer disgyblion yw cymwysterau Gwyddoniaeth BTEC. Er fel y nodwyd uchod, gallai'r newidiadau mewn mesurau perfformiad ysgol effeithio ar y niferoedd a gofrestrwyd mewn cymwysterau amgen.

**Ffigwr 7.4 Cyflawniad gwahaniaethol mewn TGAU gradd C neu uwch mewn Saesneg/Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, 2011 i 2015**




7.28 Felly, ar gyfer 2015 rydym hefyd yn ystyried canlyniadau Gwyddoniaeth BTEC. Gan ddefnyddio cymwysterau Lefel 2 BTEC a gyfrannodd i'r trothwyon Lefel 2, mae'n bosibl cyfuno lefelau cyflawniad ar gyfer Gwyddoniaeth TGAU a BTEC. Mae Tabl 7.20 yn cynrychioli tri set o ganlyniadau: Gwyddoniaeth TGAU yn unig, Gwyddoniaeth BTEC yn unig; a TGAU a BTEC Gwyddoniaeth cyfunol. Mae'r gyfran o ddisgyblion ar gyfer pob un o'r tri chanlyniad yma yn seiliedig ar bob disgybl ym Mlwyddyn 11 yn cyrraedd diwedd CA4. Yn gyntaf mae hyn yn dangos fod y ‘bwlch cyflawniad’ rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM mewn Gwyddoniaeth TGAU yn llawer mwy nag y mae yn defnyddio dim ond disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer cyrsiau TGAU (gweler y canlyniadau cyfatebol ar gyfer 2015 yn Nhabl 7.17); -58.5% o gymharu â -35.0%. Yna, mae Tabl 7.20 yn dangos y lefel o gyflawniad

mewn BTEC Gwyddoniaeth ar gyfer disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM. Yn seiliedig ar ddisgyblion a gofrestrwyd ar gyfer BTEC Gwyddoniaeth, does yna bron i ddim gwahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM; 98.1% a 98.5% yn y drefn honno. Fodd bynnag, ar sail yr holl ddisgyblion CA4 Blwyddyn 11, roedd disgyblion eFSM yn llawer mwy tebygol o gyflawni Lefel 2 mewn BTEC Gwyddoniaeth nad oedd disgyblion nad ydynt yn FSM; 50.3% o ddisgyblion eFSM o gymharu â dim ond 33.1% o ddisgyblion nad ydynt yn FSM.

7.29 Mae Tabl 7.21 yn cynrychioli'r lefelau o gyflawniad a'r ‘bwlch’ cyflawniad cysylltiedig ar gyfer TGAU a BTEC Gwyddoniaeth *wedi eu cyfuno*. Mae'r fantais o gynnwys cymwysterau Gwyddoniaeth BTEC yn y gymhariaeth rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn glir i'w gweld. Mae'r % wahaniaethol ar gyfer y mesur cyfunol yn ddim ond -16.9% o gymharu â -58.5% ar gyfer Gwyddoniaeth TGAU yn unig. Byddai hyn yn awgrymu bod yna fantais i gynnig cymwysterau amgen, yn arbennig i rai dysgwyr. Ond o ystyried y gyfradd basio bron yn gyffredinol ar gyfer y rhai a gofrestrwyd ar gyfer Gwyddoniaeth BTEC (trydedd res Tabl 7.21) gallai awgrymu nad yw cyrhaeddiad Lefel 2 mewn Gwyddoniaeth BTEC a Gwyddoniaeth TGAU yn gymaradwy, casgliad a ategwyd mewn dadansoddiad atodol o'r canlyniadau PISA 2015 a gyflawnwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru.[42]

[42] http://gov.wales/docs/dcells/publications/170706-additional-analysis-of-pisa-2015-en.pdf


**Tabl 7.20 Cyflawniad cymharol holl ddisgyblion CA4 Blwyddyn 11 (oni bai y nodwyd fel arall) mewn Gwyddoniaeth TGAU a BTEC, 2015**

| | % o ddisgyblion yn cyflawni Gradd C neu gyfatebol | | Bwlch FSM / Dim FSM | |
|---|---|---|---|---|
| | **Dim FSM** | **FSM** | **Gwahaniaeth pwynt %** | **% Gwahaniaethol** |
| Gwyddoniaeth TGAU | 56.0% | 23.3% | -32.7 | -58.5% |
| Gwyddoniaeth BTEC[1] | 33.1% | 50.3% | 17.2 | 52.1% |
| Gwyddoniaeth BTEC[1 a 2] | 98.5% | 98.1% | -0.4% | -0.4% |
| Gwyddoniaeth TGAU a BTEC[1] cyfunol | 87.0% | 72.4% | -14.7 | -16.9% |

[1] Dim ond BTEC Lefel 2 sy'n cyfrannu i'r trothwy Lefel 2
[2] Fel canran o'r disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau Gwyddoniaeth BTEC yn unig

7.30 Mesur amgen o ddeilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yw defnyddio sgôr pwyntiau wedi'i chapio TGAU (neu gyfatebol) gorau disgyblion. Ar yr adeg pan gyflawnwyd y dadansoddiad hwn, cafodd hyn ei gyfrifo ar sail wyth cymhwyster TGAU (neu gyfatebol) gorau disgybl, ac fe addaswyd hyn i fod yn seiliedig ar y naw cymhwyster TGAU (neu gyfatebol) gorau yn 2017. Ceir crynodeb o gyfartaledd sgôr pwyntiau disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn Ffigwr 7.5. Mae hyn yn dangos, ar gyfartaledd, roedd disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn cyflawni graddau uwch yn eu wyth cymhwyster TGAU neu gyfatebol gorau dros amser. Felly, ar yr un pryd a gwelliannau ar gyfer pob disgybl, lleihaodd y 'bwlch' yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer y ddau grŵp dros y pum mlynedd. Er enghraifft, yn 2011 cyflawnodd disgyblion eFSM ar gyfartaledd 24.8% yn llai o bwyntiau na disgyblion nad ydynt yn FSM. Erbyn 2015 roedd y 'bwlch' hwn wedi lleihau i 15.3%.

**Ffigwr 7.5 Cyfartaledd sgôr pwyntiau wedi'i chapio TGAU**




7.31 Yn unol â'r casgliadau ynghylch lefelau cyflawniad yn y pynciau TGAU craidd, roedd y gwelliant hwn yn digwydd cyn cyflwyno'r GAD. Mae i ba raddau mae'r GAD wedi cyfrannu'n uniongyrchol i'r gwelliant yn llai eglur felly.

7.32 Y set olaf o ganlyniadau addysgol a ystyriwyd yw cynnydd cymharol disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM rhwng diwedd Cyfnod Allweddol 2 a diwedd cyfnod Allweddol 4 ym mhob un o'r tri maes pwnc ‘craidd’: Mathemateg (Tabl 7.21), Saesneg/Cymraeg (Tabl 7.22) a Gwyddoniaeth (Tabl 7.23). Er mwyn cyfrifo mesur o gynnydd disgybl, neu werth a ychwanegwyd, rydym yn cymharu eu lefel cyflawniad yn ystod Cyfnod Allweddol 2[43] gyda'u gradd TGAU[44] ym mhob pwnc.

[43] Mae lefelau cyflawniad yn ystod Cyfnod Allweddol 2 wedi eu sgorio o 0 i 5, yn ôl pa lefel a gyflawnodd disgybl. O ystyried y nifer fechan o ddisgyblion a gyflawnodd Lefel 6 yn ystod Cyfnod Allweddol 2, mae'r rhain wedi eu hail godio i 5.
[44] I ddibenion cyfrifo cynnydd o Gyfnod allweddol 2 i TGAU, rydym yn ail godio graddau TGAU o 0 i 10; 0=X, 1=U hyd at 10=A*. Er nad yw'r sgorau ar gyfer cyflawniad yn ystod Cyfnod Allweddol 2 ac mewn TGAU yn gymesur â'i gilydd, nid yw'r gwahaniaeth rhifyddol yn y ddau sgôr yn darparu mesur ar gyfer cynnydd cymharol disgybl.

**Tabl 7.21 Cynnydd cymharol mewn Mathemateg rhwng Cyfnod Allweddol 2 a TGAU**

| Blwyddyn | Mesur cynnydd | | | Bwlch FSM / Dim FSM |
|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *2.42* | 2.57 | 1.47 | -42.8% |
| 2012 | *2.49* | 2.64 | 1.57 | -40.6% |
| 2013 | *2.48* | 2.65 | 1.53 | -42.0% |
| 2014 | *2.51* | 2.68 | 1.55 | -42.2% |
| 2015 | *2.60* | 2.80 | 1.70 | -39.3% |

**Tabl 7.22 Cynnydd cymharol mewn Saesneg/Cymraeg rhwng Cyfnod Allweddol 2 a TGAU**

| Blwyddyn | Mesur cynnydd | | | Bwlch FSM / Dim FSM |
|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *2.94* | 3.04 | 2.29 | -24.7% |
| 2012 | *2.94* | 3.05 | 2.27 | -25.6% |
| 2013 | *2.93* | 3.06 | 2.24 | -26.8% |
| 2014 | *3.00* | 3.12 | 2.31 | -26.2% |
| 2015 | *3.00* | 3.20 | 2.40 | -25.0% |

**Tabl 7.23 Cynnydd cymharol mewn Gwyddoniaeth rhwng Cyfnod Allweddol 2 a TGAU**

| Blwyddyn | Mesur cynnydd | | | Bwlch FSM / Dim FSM |
|---|---|---|---|---|
| | *Oll* | Dim FSM | FSM | % Gwahaniaethol |
| 2011 | *2.71* | 2.85 | 1.79 | -37.5% |
| 2012 | *2.80* | 2.94 | 1.87 | -36.4% |
| 2013 | *2.61* | 2.75 | 1.64 | -40.4% |
| 2014 | *2.75* | 2.86 | 1.85 | -35.2% |
| 2015 | *2.80* | 2.90 | 1.90 | -34.5% |

7.33 Fel yr ydym wedi adrodd yn flaenorol (Pye *et al.* 2014 a 2015) mae'n bwysig nodi fod y cynnydd hwn o ganlyniad i bum mlynedd o addysg (rhwng 11 a 15 oed), ac nid dim ond effaith y blynyddoedd pan fu'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gael. Fodd bynnag, gyda thair blynedd o gyllid GAD, fe ddylai fod yna rywfaint o fantais gronnol ar gynnydd disgyblion eFSM. Mantais arall i astudio cynnydd cymharol rhwng CA2 a CA4 yw eithrio (neu beidio) y posibiliad y gallai unrhyw welliant mewn cyflawniad yn ystod CA4 fod o ganlyniad i welliannau yn addysg y disgyblion hyn cyn cyflwyno'r GAD.

7.34 Y prif gyfyngiad i'r dadansoddiad hwn yw na allwn reoli am faint o flynyddoedd oedd disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac felly am ba hyd y bwriadwyd iddo neu iddi dderbyn cefnogaeth atodol (gan y gall statws cymhwyster disgybl newid gydag amser a hyd yn oed o fewn blwyddyn academaidd). Yn hytrach, fe wneir cymariaethau rhwng eFSM a rhaid nad ydynt yn FSM yn seiliedig ar eu cymhwyster ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

7.35 Fel y gwyddom yn gyffredinol ac fe mae tystiolaeth yn parhau i ddangos, yn gyffredinol mae disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig yn gwneud llai o gynnydd rhwng CA2 a CA4 na disgyblion gyda mwy o fanteision mewn bywyd. Mae hyn yn wir yng Nghymru fel y mae mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn dueddol o adlewyrchu'r anfantais gronnol o fyw mewn cartrefi incwm isel.

7.36 Mae Tablau 22 i 24 yn dangos fod disgyblion nad ydynt yn FSM yn gwneud mwy o gynnydd yn y tri phwnc craidd rhwng CA2 a CA4 na disgyblion eFSM. Mae hyn yn wir ar gyfer y pum mlynedd lawn a ystyrir yma. Fodd bynnag, rhwng 2011 a 2015 mae'r 'bwlch' (neu % gwahaniaethol) yn y sgorau cynnydd hyn rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM wedi lleihau mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth. Byddem yn awgrymu fod disgyblion eFSM yn raddol 'ddal i fyny' gyda'u cyfoedion nad ydynt yn FSM yn y pwnc yma, er yn y ddau bwnc mae rhai nad ydynt yn FSM yn dal i wneud cynnydd oddeutu un lefel yn uwch neu fwy na'u cyfoedion eFSM. Yn Saesneg/Cymraeg, mae'r 'bwlch' mewn cynnydd rhwng 2011 a 2015 wedi ehangu ychydig. Ond ym mhob un o'r tri phwnc, cafwyd gwelliant nodedig yn y 'bwlch' mewn cynnydd rhwng disgyblion eFSM a rhai nad ydynt yn FSM yn ystod y tair blynedd diwethaf (2013 i 2015).

**Modelu effaith bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar gyrhaeddiad addysgol**

7.37 Mae'r drafodaeth derfynol yn yr adran flaenorol yn amlygu cyfyngiad allweddol i'r defnydd o ystadegau disgrifiadol i bennu effaith y GAD. Mae yna nifer o ffactorau y gwyddom sy'n helpu pennu lefelau cyrhaeddiad disgyblion, yn arbennig anghenion addysgol arbennig, rhyw ac ethnigrwydd waeth beth yw eu statws FSM. Mae cydberthynas agos rhwng rhai o'r ffactorau hyn a bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n golygu fod y ffactorau hyn yn gwneud disgyblion yn fwy tebygol o fod yn eFSM. O ganlyniad, i brofi cadernid yr arsylwadau disgrifiadol a nodir uchod, mae angen cyflawni atchweliad lluosog ar y deilliannau addysgol dibynnol. Mae hyn yn ein galluogi i reoli ar gyfer y ffactorau annibynnol eraill sy'n hysbysi hefyd helpu pennu deilliannau disgyblion.

7.38 Fel gydag adroddiadau blaenorol (Pye *et al.* 2014 a 2015) rydym yn cynrychioli nifer o fodelau atchweliad ar nifer o wahanol ddeilliannau addysg ar gyfer pob blwyddyn. Mae pob model yn cynnwys yr un newidynnau rheolaeth. Sef:

- Newidynnau lefelau disgyblion: rhywedd, ethnigrwydd[45], anghenion addysgol arbennig a thymor geni.

[45] Mae Saesneg fel iaith atodol hefyd yn cael ei ystyried i fod yn gysylltiedig gyda deilliannau addysgol. Fodd bynnag, oherwydd bod yna yn aml gydberthynas rhwng Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac ethnigrwydd, dim ond ethnigrwydd a ddefnyddiwn yn y modelau hyn.

- Newidynnau lefel ysgol: cyfran o ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig, y gyfran o ddisgyblion Prydeinig gwyn, cyfansoddiad rhyw carfan yr ysgol a'r gyfran o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

7.39 Mae'r modelau atchweliad hefyd yn cynnwys dangosydd o a oedd disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac 'ymdrech' amcangyfrifol y newidyn hwn sydd o brif ddiddordeb, o ystyried presenoldeb nodweddion eraill, yn 2011, 2012, 2013, 2014 a 2015.

7.40 O ganlyniad, mae pob model atchweliad yn ceisio rhagweld i ba raddau mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gysylltiedig gyda deilliannau addysgol 'da' neu wedi gwella. Defnyddir yr un newidynnau rhagweld mewn 20 gwahanol fodel, pob un yn profi'r cysylltiad gyda gwahanol fesur o ddeilliant addysgol, yn cynnwys presenoldeb, cyflawniad Cyfnod Allweddol 2, cyflawniad Cyfnod Allweddol 4 a mesurau cynnydd addysgol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4. Mewn rhai achosion, mae atchweliad logisteg yn amcangyfrif y tebygolrwydd o gyflawni lefel benodol o ddeilliannau os yw disgybl yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM (e.e. cyflawni Lefel 4 mewn Mathemateg). Mewn achosion eraill, defnyddir atchweliad llinol i amcangyfrif pa mor wahanol yw'r deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM (e.e. pwyntiau TGAU (neu gyfatebol) wedi capio). Rydym hefyd yn defnyddio atchweliad Sgwariau Cyffredin Lleiaf (OLS) ar gyfer dadansoddi absenoldeb. Yna, rydym yn ailadrodd y modelau hyn ar gyfer deilliannau addysgol yn 2011, 2012, 2013, 2014 a 2015 (100 model atchweliad i gyd). Yna, rydym yn defnyddio'r casgliadau o'r modelau hyn i gymharu dylanwad cymharol bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar draws y tair blynedd. Yn benodol, rydym am weld a yw'r cysylltiad a ganfuwyd rhwng cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim yn mynd i fyny, i lawr neu'n parhau i fod yr un fath gydag amser.

7.41 Ceir crynodeb o ganlyniadau'r 100 model ystadegol yma yn Nhabl 7.24. Mae hyn yn cyflwyno'r gymhareb tebygolrwydd (ar gyfer atchweliadau logisteg) neu gyfernod amcangyfrifol (ar gyfer atchweliadau llinol ac OLS) ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM.

7.42 Darparodd yr adroddiadau blaenorol rai casgliadau cyffredinol ynghylch y berthynas rhwng ffactorau lefel disgyblion a lefel ysgol a'r deilliannau hyn (Pye *et al.* 2014 a 2015). Y prif ffocws yn yr adroddiad hwn yw pennu a yw'r cysylltiad rhwng bod yn

gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r deilliannau addysgol wedi ei gryfhau neu wanhau gydag amser. Os yw'r GAD yn cael effaith bositif a gwahaniaethol ar gyrhaeddiad disgyblion eFSM, yna efallai y gallem ddisgwyl gweld 'effaith' amcangyfrifol bod yn gymwys i gael eFSM yn lleihau gydag amser.

7.43 I helpu dehongli'r casgliadau o Dabl 25, mae'r cymarebau tebygolrwydd neu gyfernodau amcangyfrifol wedi eu cyflwyno yn defnyddio cod lliwiau. Maent mewn print **Trwm** os ydynt yn arddangos gwelliant o'r flwyddyn flaenorol o ran y tebygolrwydd o ddisgyblion eFSM yn cyflawni deilliannau addysgol penodol o gymharu â disgyblion nad ydynt yn FSM, ac mewn print *italig* os ydynt yn arddangos dirywiad o'r flwyddyn flaenorol yn y tebygolrwydd perthnasol fod disgyblion eFSM yn cyflawni'r deilliannau addysgol hyn.

**Tabl 7.24 Crynodeb o 'effeithiau' prydau ysgol am ddim unigol ar ddeilliannau addysgol, 2011 i 2015**

| | Effaith eFSM Unigol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
| **Absenoldeb (OLS)** | | | | | |
| Sesiynau Absennol | 0.038 | **0.036** | **0.034** | **0.031** | **0.030** |
| Sesiynau o Absenoldeb heb ei Awdurdodi | 0.015 | **0.014** | 0.014 | **0.012** | 0.012 |
| Absenoldeb Cyson | 1.123 | *1.147* | *1.209* | **1.193** | *1.209* |
| **Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2** | | | | | |
| Cyflawni Lefel 4 neu uwch (logisteg) | | | | | |
| CA2 Mathemateg Lefel 4+ | 0.526 | **0.557** | **0.574** | *0.538* | **0.623** |
| CA2 Saesneg/Cymraeg Lefel 4+ | 0.513 | **0.536** | **0.551** | *0.498* | **0.586** |
| CA2 Gwyddoniaeth Lefel 4+ | 0.489 | **0.520** | **0.539** | *0.488* | **0.577** |
| CA2 CSI[2] Lefel 4+ | 0.516 | **0.530** | **0.553** | *0.506* | **0.595** |
| **Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4** | | | | | |
| Cyflawni gradd A/A* (logisteg) | | | | | |
| Mathemateg TGAU A/A* | 0.307 | *0.296* | **0.304** | **0.335** | *0.304* |
| Saesneg/Cymraeg TGAU A/A* | 0.312 | 0.293 | **0.316** | **0.348** | *0.330* |
| Gwyddoniaeth TGAU A/A* | 0.316 | **0.322** | **0.389** | **0.412** | **0.414** |
| A/A* mewn TGAU Mathemateg, Gwyddoniaeth *a* Saesneg/Cymraeg | 0.237 | **0.263** | **0.283** | **0.385** | *0.285* |
| 3 x Gradd A/A*s yn CA4 (unrhyw bwnc) | 0.370 | **0.393** | *0.371* | **0.375** | **0.476** |
| Cyflawni gradd C neu uwch (logisteg) | | | | | |
| Mathemateg TGAU C+ | 0.382 | **0.387** | *0.382* | *0.379* | **0.415** |
| Saesneg/Cymraeg TGAU C+ | 0.356 | **0.359** | 0.359 | *0.346* | **0.385** |
| Gwyddoniaeth TGAU C+ | 0.362 | **0.371** | *0.362* | **0.436** | *0.420* |
| C+ mewn TGAU Mathemateg, Gwyddoniaeth *a* Saesneg/Cymraeg | 0.352 | *0.350* | **0.363** | **0.414** | *0.412* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CA4 pwyntiau wedi'i chapio (llinol) | -49.87 | **-43.89** | **-40.58** | **-36.14** | **-30.40** |
| **Cynnydd CA2-CA4 (llinol)** | | | | | |
| Mathemateg | -0.733 | **-0.703** | *-0.745* | **-0.734** | **-0.664** |
| Saesneg/Cymraeg | -0.513 | *-0.514* | *-0.553* | **-0.536** | **-0.483** |
| Gwyddoniaeth | -0.708 | **-0.694** | *-0.787* | **-0.671** | **-0.644** |

1 – Llythrennedd, Iaith a Chyfathrebu (LLC).
2 – Dangosydd Pwnc Craidd (CSI) yn cyflawni'r lefelau gofynnol mewn Saesneg/Cymraeg, Mathemateg *a* Gwyddoniaeth.

7.44 O'r ugain o ganlyniadau a grynhowyd ar gyfer 2015, mae tair ar ddeg yn arddangos gwelliant o'r flwyddyn flaenorol, gan ddangos y bu llai o effaith andwyol o fyw mewn cartrefi economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig. Dim ond ar gyfer chwe mesur canlyniad oedd 'effaith' ymddangosiadol niweidiol byw mewn cartref economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig yn waeth yn 2015 nag yr oedd yn 2014.

7.45 O ystyried y cyflwynwyd y GAD yn 2012-13, roedd gennym hefyd ddiddordeb os oedd yna duedd yn codi o welliant dros gyfnod o amser, ac nid dim ond mewn un flwyddyn benodol. Er enghraifft, mae'r berthynas rhwng bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phresenoldeb yn yr ysgol wedi gwella'n gyson o 2012 ymlaen. Felly hefyd mae'r berthynas rhwng bod yn gymwys am eFSM a'r sgôr pwyntiau TGAU wedi'i chapio yn ystod CA4 a'r tebygolrwydd o gyflawni A/A* mewn TGAU Gwyddoniaeth yn 15 oed. Ar fesurau cyflawniad eraill yn ystod CA4 mae'r darlun yn fwy cymysg – mae'r tebygolrwydd o gyflawni gradd C neu uchod mewn TGAU Saesneg neu Fathemateg wedi cynyddu ar gyfer disgyblion eFSM yn 2015 wedi dwy flynedd heb fawr ddim newid, ond mae'r tebygolrwydd o gyflawni gradd C neu uwch mewn TGAU Gwyddoniaeth ar gyfer disgyblion eFSM (ac yna'n cyflawni gradd C neu uwch yn y tri phwnc craidd) wedi lleihau yn y flwyddyn ddiwethaf.

7.46 Er gwaethaf y canlyniadau cymysg ar draws gwahanol fesurau, mae yna bellach batrwm yn dod i'r amlwg o lwyddiant yn lleihau 'effaith' bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim ar fesurau cynnydd addysgol rhwng CA2 a CA4 mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

7.47 Nid yw'r un o'r canlyniadau yn cael dylanwad ymddangosiad o'r ffaith bod cymhwystra am eFSM wedi gwaethygu'n gyson ers cyflwyno'r GAD.

# 8. Casgliadau

8.1 Mae dadansoddiad o ddata deilliant disgyblion o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn cyflwyno darlun calonogol parthed effaith y GAD ar ddeilliannau addysgol. Mae perfformiad disgyblion eFSM wedi gwella ar nifer o fesurau; mae rhai o'r dadansoddiadau mwy diweddar yn dangos fod y 'bwlch' cyrhaeddiad wedi lleihau, ac mewn rhai achosion mae arwyddion ei fod yn lleihau ar raddfa gyflymach. Ar y llaw arall, mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod rhai o'r gwelliannau mwyaf yn dyddio'n gynharach na chyflwyniad y GAD ac, mewn rhai achosion, gwelwyd gwelliannau tebyg os nad mwy ymysg disgyblion nad ydynt yn FSM ag y gwelwyd yn y disgyblion eFSM. Gan i'r GAD gael ei gyflwyno ar draws Cymru ar yr un adeg, nid oes grŵp cymhariaeth o ysgolion ar gael i amcangyfrif sut y byddai deilliannau disgyblion wedi datblygu yn absenoldeb y GAD. Fel y nodom trwy gydol yr adroddiad, mae'r GAD yn un o gyfres o bolisïau sy'n ceisio gwella deilliannau addysgol a gyflwynwyd mewn ysgolion ar bwynt tebyg mewn amser, sy'n ei gwneud yn arbennig o annod ynysu effaith y GAD. Yn ogystal, mae ysgolion yn aml yn cronni adnoddau o nifer o grantiau sydd â nodau cyflenwol ac efallai na fyddant yn gallu gwahanu effeithiau'r GAD o ffrydiau cyllid eraill, hyd yn oed yn anecdotaidd.

8.2 Mae yna nifer o gafeatau i'w hystyried wrth ystyried y dadansoddiad hwn, fodd bynnag. Yn gyntaf, mae'r GAD yn grant cymharol ddiweddar wedi ei anelu at ysgogi gwelliannau ar fwlch cyrhaeddiad hirsefydlog a mawr. Mae tystiolaeth o ysgolion astudiaeth yn amlygu fod barn tymor hirach o gynnydd disgyblion yn allweddol wrth werthuso effeithlonrwydd y grant: yn wir, roedd rhai o'r arferion ysgol mwyaf effeithiol yn rhai a ddatblygodd o arferion a gyflwynwyd dan RAISE (y rhaglen oedd yn rhagflaenydd i'r GAD) ac a oedd yn cael dylanwad ar ddisgyblion eFSM oedd wedi mynd trwy ran arwyddocaol o'r system addysg tra bod RAISE/GAD ar waith. Mewn ysgolion ble roedd y ffocws ar ddisgyblion eFSM yn fwy diweddar (h.y. nid oedd yn rhagflaenu'r GAD), roedd systemau i daclo anfantais yn dal i aeddfedu neu'n cael eu sefydlu a byddant yn parhau i esblygu os bydd y GAD yn cael ei ymestyn.

8.3 Fe ystyrir fod y GAD yn werthfawr iawn i ysgolion, ac yn 'amhrisiadwy' i nifer o ysgolion yr astudiaeth achos. Mae ei arwyddocâd yn bennaf fel ffynhonnell cyllid a ddefnyddir i gynyddu staffio sy'n galluogi disgyblion i ddarparu cefnogaeth wedi ei deilwra ar gyfer disgyblion difreintiedig i ddarparu ar gyfer ystod eang o anghenion academaidd, emosiynol a chymdeithasol.

8.4 Mae rhai ysgolion wedi cofleidio cyfarwyddyd LIC yn weithredol i ffocysu ar anghenion ehangach disgyblion, ac nid dim ond cyrhaeddiad academaidd: mae ymyraethau yn cwmpasu gweithgaredd bugeiliol, cefnogaeth deuluol, yn ogystal â sgiliau llythrennedd a rhifedd, er enghraifft. Gydag amser, mae ysgolion yr astudiaeth achos wedi cymryd rhan mewn ymdrechion llawer mwy i gynnwys rhieni: er bod hyn wedi golygu elfen o brofi a methu, roedd yr ysgolion hyn wedi datblygu ystod o ddulliau effeithiol i gynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol ac addysg eu plant.

8.5 Tu hwnt i ddefnydd uniongyrchol o'r GAD i ariannu ystod eang o ymyraethau, mae'r grant wedi bod yn arwyddocaol o ran newid diwylliant ysgolion mewn rhai achosion. Nododd ysgolion yr astudiaeth achos ymwybyddiaeth gynyddol o anfantais fel mater oedd angen sylw, a newid mewn ymarfer yn eu lleoliadau yn y modd yr oedd disgyblion yn cael eu nodi a monitro. Arddangosodd ysgolion yr astudiaeth achos ddefnydd da o ddata i fonitro cynnydd disgyblion ac i werthuso effaith ymyraethau penodol. Ymddengys fod y gofyniad i fonitro disgyblion eFSM fel grŵp unigol wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol o ran codi ymwybyddiaeth o effeithiau anfantais ar gyrhaeddiad disgyblion, a sut gall ysgolion ddelio â hyn. Mae'r angen i werthuso cost effeithiolrwydd ymyraethau a ariannwyd gan y GAD yn flynyddol i hysbysu penderfyniadau gwario hefyd yn ychwanegu ysgogiad i ysgolion ganolbwyntio ar beth sy'n gweithio orau, ac i derfynu neu addasu mentrau nad ydynt yn ymddangos i fod yn effeithiol.

8.6 Mae'r GAD yn gysylltiedig â ffocws cynyddol ar strategaethau ysgol gyfan i wella meysydd fel ymddygiad, presenoldeb, ymgysylltu gyda'r teulu cyfan a dulliau adferol. Mae ysgolion astudiaeth achos yn adrodd llwyddiannau mawr yn y mathau yma o fenter, ac yn aml yn adrodd y bu effaith fwyaf y grant ar ddisgyblion mewn meysydd sy'n anoddach i'w meintoli (megis hyder disgyblion, hunan-barch, ymgysylltiad gyda'r ysgol ac ati). Mae nifer o fentrau ysgol gyfan yn dod â manteision i ddisgyblion nad ydynt yn FSM hefyd, a allai esbonio pam fod deilliannau ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM ar rai o'r dangosyddion a ddefnyddir gan y tîm gwerthuso ar gyfer yr adroddiad hwn (e.e. presenoldeb, absenoldeb heb awdurdod) wedi gwella ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM yn ogystal â disgyblion FSM yn ystod cyfnod y grant.

8.7 Ymysg ysgolion yr astudiaeth achos ble roedd systemau ymddygiad/ymgysylltu sefydledig eisoes ar waith, roedd mwy o dystiolaeth o ysgolion yn defnyddio GAD i fuddsoddi mewn gwella dulliau dysgu ac addysgu. Er enghraifft, roedd hyn yn

cynnwys ysgolion yn addysgu dysgu gweledol a dulliau adferol, fel bod athrawon yn fwy parod i fodloni anghenion dysgwyr difreintiedig yn yr ystafell ddosbarth. Mewn achos arall, roedd yn cynnwys strategaeth llythrennedd a rhifedd clwstwr cyfan oedd yn helpu dadelfennu agweddau allweddol o ddarllen, ysgrifennu, llefaredd a rhifedd ar gyfer athrawon dosbarth a disgyblion.

8.8 Roedd tystiolaeth mewn astudiaethau achos mwy diweddar o symudiad i ffwrdd o ddefnyddio'r GAD yn gyfan gwbl i ariannu Cynorthwywyr Addysgu tuag at ddefnyddio model athro/Cynorthwy-ydd Addysgu cymysg. Y rhesymeg gan ymatebwyr o blaid y dull hwn oedd yr ystyriwyd ei fod yn galluogi athrawon i gefnogi deilliannau addysgol gwell – er enghraifft, am eu bod yn gwybod meysydd llafur a manylebau arholiadau mewn cryn fanylder, mae ganddynt fwy o amrediad o ddulliau dysgu i'w defnyddio. Ar y llaw arall, ystyrir fod Cynorthwywyr Addysgu mewn safle gwell i ddarparu cefnogaeth mewn meysydd eraill, megis cefnogaeth fugeiliol, gan eu bod yn aml yn byw yn yr un gymdogaeth â disgyblion ac yn cael eu gweld fel llai o fygythiad nag athrawon.

8.9 Fodd bynnag, roedd ariannu athrawon yn hytrach na Chynorthwywyr Addysgu yn defnyddio'r GAD yn digwydd mewn ysgolion ble roedd sylfeini eraill eisoes wedi sefydlu yn unig ac roedd ariannu Cynorthwywyr Addysgu yn dal i fod yn fwy cyffredin. Yn gyffredinol, roedd unrhyw gyllid atodol a ariannwyd gan y GAD yn cael ei wario'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar Gynorthwywyr Addysgu, a hyn er gwaethaf i Becyn Offer y Sutton Trust amlygu nad dyma o reidrwydd y ffordd fwyaf cost effeithiol o ddefnyddio adnoddau yn ddibynnol ar sut y lleoliad cynorthwywyr addysgu. Fodd bynnag, roedd ysgolion yr astudiaeth achos yn aml yn herio'r farn yma. Yn wir, yn gyffredinol roedd agweddau negyddol tuag at Becyn Offer y Sutton Trust yn gyffredinol yn troi ar bwysigrwydd allweddol Cynorthwywyr Addysgu a'r rolau yr oeddynt yn eu cyflawni, gyda nifer o benaethiaid yn datgan fod Cynorthwywyr Addysgu yn adnodd amhrisiadwy.

8.10 Mae yna nifer o feysydd ble mae defnydd ysgolion o'r GAD yn gwyro o ganllaw Llywodraeth Cymru a allai gyfyngu ar ei effeithiolrwydd. Yn fwyaf nodedig, mae hyn yn cynnwys amharodrwydd ymysg ysgolion – yn arbennig ysgolion gyda hanes o fod yn wannach o ran cau'r bwlch – i ddefnyddio ffynonellau allanol neu academaidd i hysbysu eu gwariant, yn hytrach na dibynnu ar eu tystiolaeth a greddf eu hunain. Mae nifer o ysgolion yr astudiaeth achos yn parhau i fod yn amheus ynghylch gwerth Pecyn Offer y Sutton Trust, er enghraifft, er bod eraill wedi ei gael

yn ddefnyddiol. Mae hyn yn golygu y gallai gwariant y GAD fod yn llai effeithiol nag y gallai fod, gan fod yna rai mentrau cost isel effaith uchel nad yw ysgolion yn eu defnyddio, a rhai mentrau cost uwch effaith is sy'n dal i gael eu defnyddio'n helaeth. Er ei bod yn anodd asesu os yw ysgolion yn targedu disgyblion tu allan i fuddiolwyr arfaethedig y GAD (mae ysgolion yn defnyddio diffiniad ehangach o anfantais, ond ar yr un pryd yn ychwanegu'n sylweddol at gronfeydd GAD), roedd yn amlwg fod ysgolion yr astudiaeth achos gyda lefelau cyrhaeddiad is yn aml yn targedu ymyraethau GAD tuag at ddisgyblion gyda chyrhaeddiad is yn hytrach na disgyblion difreintiedig, gyda'r cyfiawnhad fod y ddau grŵp yn aml yn gorgyffwrdd yn arwyddocaol. Eto, bydd y defnydd hwn o'r GAD yn cyfyngu ar yr effaith a arsylwir ar y garfan eFSM.

8.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y dylai ysgolion weithredu arferion cynaliadwy wrth ddefnyddio cyllid GAD cyn belled ag sy'n bosibl. Yn ymarferol, mae llawer o'r gweithgaredd a ariennir gan y GAD yn gofyn am foddhad parhaus i weithredu ar lefel debyg o ddwysedd neu effeithlonrwydd. Mewn nifer o ysgolion yr astudiaeth achos, defnyddir y cyllid yn bennaf neu'n gyfan gwbl i ariannu cyflogau staff sy'n darparu ymyraethau penodol i ddisgyblion targedig. Ni fyddai'n bosibl cynnal llawer o'r gweithgaredd hwn heb gyllid parhaus. Mae hyd yn oed mentrau sy'n gymharol hunangynhaliol – er enghraifft, systemau neu strategaethau sy'n cael eu rhedeg ar draws ysgolion – yn gofyn am arweinyddiaeth, monitro parhaus, adrodd a chydweithredu ar draws staff addysgu, ac mae'n annhebygol o weithio mor effeithiol yn absenoldeb y grant.

### Argymhellion

8.12 Gallai natur fyrdymor y cyllid GAD (sydd fel arfer yn cael ei gadarnhau fesul blwyddyn, yn hytrach na'i warantu am gyfnod o amser yn y dyfodol) annog agwedd byrdymor o gyllido yn hytrach na chynllunio strategaethau hirdymor. Mae cau'r bwlch cyrhaeddiad yn nod tymor hir ac i fod yn llwyddiannus, bydd angen i ysgolion ddatblygu strategaethau i wella dysgu ac addysgu, systemau ysgol gyfan i wella ymddygiad, ymgysylltiad a lles disgyblion, yn ogystal â darparu cefnogaeth targedig i ddisgyblion penodol. Fodd bynnag, efallai y bydd natur fyrdymor y cyllid yn annog ysgolion i ffocysu ar yr ail (defnyddio Cynorthwywyr Addysgu i ddarparu ymyraethau) yn hytrach na chynllunio ar gyfer y cyntaf.

8.13 Fel y nodwyd uchod, mae ysgolion ble mae'r bwlch cyrhaeddiad ar ei fwyaf yn dueddol o fod y lleiaf agored i ddefnyddio syniadau o ffynonellau tystiolaeth allanol ynghylch ‘beth sy'n gweithio’ i gau'r bwlch. Yn hytrach, mae'r ysgolion hyn yn dibynnu ar eu profiadau blaenorol neu reddfau. Cynigiwyd amrywiaeth eang o resymau dros hyn – mewn ambell achos roedd yn glir nad oedd ysgolion yn ymwybodol o'r dystiolaeth, yn teimlo wedi eu llethu gan faint o dystiolaeth sydd ar gael, yn amheus ynghylch y dystiolaeth nad oedd y cyd-fynd â'u profiadau eu hunain, neu'n teimlo fod adnoddau fel Pecyn Offer y Sutton Trust yn 'gimigau' oedd yn ceisio osgoi'r angen i wella dysgu ac addysgu. Efallai fod yna rôl i Lywodraeth Cymru a/neu gonsortia i helpu'r ysgolion hyn i ddefnyddio tystiolaeth allanol, ac i weld sut y gellir rhoi syniadau ar waith yn eu lleoliadau a chyd-destunau eu hunain. Mae ysgolion yn ymddangos i fod yn fwy agored i ddulliau sydd wedi gweithio mewn ysgolion lleol eraill sydd â chyd-destun tebyg iddyn nhw, a gallai gwaith consortia parhaus i ledaenu enghreifftiau o arfer da ar draws ardaloedd lleol fod yn arbennig o effeithiol.

8.14 Fe ymddengys fod gan y consortia botensial enfawr i godi ymwybyddiaeth o arfer da, ac i annog datblygiad mentrau ar draws y clwstwr a allai helpu gwella safonau ar draws ysgolion. Nododd ysgolion yr astudiaeth achos a oedd yn defnyddio'r Pecyn Offer y Sutton Trust eu bod wedi eu cyflwyno i'r adnodd trwy eu consortia, ac mewn ambell achos wedi eu cefnogi i ddatblygu eu mentrau eu hunain gan eu consortiwm. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, efallai nad yw ymwybyddiaeth o adnoddau fel y Pecyn yn ddigonol, a bydd hefyd angen i staff y consortia hyrwyddo'r Pecyn ac efallai esbonio sut y gellid trosi rhai o'r dulliau i leoliadau ysgolion penodol. Er bod consortia yn ymddangos i fod yn weithredol o ran cefnogi ysgolion, doedd fawr ddim tystiolaeth yn yr astudiaethau achos fod ysgolion yn teimlo eu bod yn cael eu herio i newid eu harferion.

**Adran cyfeirnod**

Pye, J., Hardy, C. a Taylor, C. (2014) *Evaluation of the Pupil Deprivation Grant: first year report*

Pye, J., Mollidor, C. a Taylor, C. (2015) *Evaluation of the Pupil Deprivation Grant: interim report*

**Atodiad A: Crynodeb o fethodoleg yr astudiaeth achos**

Roedd yr adroddiad gwerthusiad blwyddyn gyntaf a gyhoeddwyd yn Hydref 2014 yn cynnwys cyfeiriad at y 12 astudiaeth achos a gwblhawyd yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14[46]. Roedd yr adroddiad interim a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2015[47] yn trafod pob un o'r 22 ymweliad astudiaeth achos a gwblhawyd rhwng Mai 2013 a Mehefin 2015 – yn canolbwyntio'n benodol ar y 10 astudiaeth achos a gwblhawyd yn 2015 ac na adroddwyd yn flaenorol. Mae'r adroddiad presennol yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ymweliadau ailadrodd arhydol i 14 o'r ysgolion astudiaeth achos hyn yn 2016. Felly, mae gan yr adroddiad hwn fwy o ffocws ar effaith (deongliadol) yr ymyraethau a ariennir trwy'r GAD fel yr adroddwyd gan athrawon, staff yr ysgol, disgyblion a rhieni.

**Sampl astudiaeth achos**

Cyn cyflawni'r ymchwil, cytunodd y tîm gwerthuso a swyddogion Llywodraeth Cymru ar set o briodweddau y dylai sampl yr astudiaeth achos gynnwys. Cyflwynir y rhesymeg yn y Tabl isod. Detholwyd y sampl gan y tîm gwerthuso a adolygodd adroddiadau archwilio Estyn a data proffilio ysgolion er mwyn dewis ysgolion gyda'r priodweddau a ddymunir. Cyflwynir rhai priodweddau cyffredinol ar gyfer yr 14 o ysgolion astudiaeth achos a gynhwyswyd yn yr ymweliadau ailadrodd arhydol yn y tabl isod.

**Tabl Atodiad A.1. Cyfansoddiad sampl yr astudiaeth achos**

| Priodoledd | Rhesymeg | Proffil y sampl | |
|---|---|---|---|
| **Cyfran o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** | Ymchwilio i werth a defnydd o GAD ymysg ysgolion yn derbyn symiau cymharol uchel ac isel o gyllid | Dan 26% | 8 |
| | | Dros 26% | 6 |
| **Cyfnod** | Ymchwilio i ddefnydd o GAD yn ystod gwahanol gamau | Ysgolion cynradd | 6 |
| | | Ysgolion uwchradd | 8 |
| **Rhanbarth consortia addysgol Cymru** | Deall y rôl gefnogi/herio a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol yn ymagwedd ysgolion i ddefnyddio GAD | De-orllewin a Chanolbarth Cymru | 6 |
| | | Gogledd Cymru | 3 |
| | | De Ddwyrain Cymru | 2 |
| | | Canol De Cymru | 3 |
| **Ardal Cymunedau'n Gyntaf (CF)** | Archwilio ymwybyddiaeth a defnydd o Gyllid Cyfatebol GAD. Ymchwilio i rôl ysgolion mewn cymunedau lleol, a sut mae Cymunedau'n Gyntaf a'r GAD wedi cyfrannu i ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned leol. | Do | 8 |
| | | Naddo | 6 |

46 http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-pupil-deprivation-grant/?lang=cy
47 http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151203-evaluation-pupil-deprivation-grant-year-2-en.pdf

**Ymweliadau astudiaeth achos**

Cyflawnwyd ymweliadau astudiaeth achos gan aelodau o'r tîm gwerthuso GAD o Ipsos MORI a'r Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Cyflawnwyd y cyfweliadau ar gyfer pob un o'r ymweliadau wyneb yn wyneb. O fewn pob ymweliad, fe geisiom siarad gydag amrywiaeth o staff, disgyblion a rhieni, fel fo'n briodol (ac yn ddibynnol ar y mathau o ymyraethau oedd yr ysgol yn eu darparu: er enghraifft, dim ond os yw ysgolion yn darparu ymyraethau rhianta fydd rhieni yn cael eu cynnwys). Cytunir ar yr aelodau o staff a ddetholir ar gyfer cyfweliad ym mhob ysgol o fewn pob ysgol, yn seiliedig ar eu hymagwedd tuag at reoli'r GAD. Mae hyn yn sicrhau y cynhelir cyfweliadau gyda staff allweddol sy'n ymwneud â darparu, cynllunio a derbyn ymyraethau yn eu hysgol.

Mae'r Tabl isod yn crynhoi'r mathau o staff a gynhwyswyd yn yr astudiaethau achos a'r rhesymeg dros gyfweld pob un.

**Tabl Atodiad A.2. Grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw yn rhan o'r ymweliadau astudiaeth achos**

| Rôl | Rhesymeg |
|---|---|
| **Pennaeth** | Yn seiliedig ar ddirnadaethau a gasglwyd yn yr ymarfer cwmpasu, fe wyddom fod gan benaethiaid drosolwg dda o waith cynllunio a gwariant y GAD, a bydd yn allweddol siarad gyda nhw yn ystod yr ymweliad. |
| **Aelod(au) o'r Uwch Dîm Rheoli** | I ddeall gweithgareddau patrymau gwario, gwerthuso a monitro GAD ysgolion. |
| **Swyddog data/cyllid (os yn berthnasol)** | I gael dealltwriaeth o sut mae gwariant yn cael ei gofnodi a monitro, yn ogystal â'i effeithiau deongledig. |
| **Rhieni (os yn berthnasol)** | I ofyn i rieni ynghylch yr effeithiau deongledig ar les a hyder eu plant a nhw eu hunain. |
| **Disgyblion (os yn berthnasol)** | I ddeall effeithiau deongledig yr ymyraethau ar y grŵp targed. |
| **Athrawon/Cynorthwywyr Addysgu** | I ddeall gweithrediad ac effaith deongledig y mentrau 'yn y maes' gan y rhai sydd (fel arfer) yn ymwneud fwyaf â chyflawni ymyraethau. |